# Adroddiad Lles Blynyddol
## 2024/25



Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg /
This document is also available in English

CRYFACH TECACH GWYRDDACH | STRONGER FAIRER GREENER

CARDIFF
CAERDYDD

# Cyflwyniad yr Arweinydd

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Lles Blynyddol Cyngor Caerdydd ar gyfer 2024/25. Mae'r adroddiad hwn yn darparu hunanasesiad clir a gonest o'n perfformiad dros y flwyddyn ddiwethaf, gan dynnu sylw at y cynnydd yr ydym wedi'i wneud tuag at ein huchelgais o adeiladu Caerdydd Cryfach, Tecach a Gwyrddach. Mae'n adlewyrchu'r meysydd lle rydym yn gwneud cynnydd sylweddol a lle mae angen gwelliant pellach, gan helpu i lunio ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae llawer i fod yn falch ohono. Mae pobl ifanc Caerdydd yn parhau i ragori, gyda chanlyniadau TGAU a Safon Uwch unwaith eto yn uwch na chyfartaledd Cymru[1] . Rydym wedi buddsoddi mewn ysgolion newydd a darpariaeth arbenigol i sicrhau bod pob dysgwr yn cael y cyfle i lwyddo. Yn y Gwasanaethau Plant, rydym yn cyflawni ein strategaeth o symud cydbwysedd gofal o argyfwng i atal. Mae ein henw da cynyddol fel Dinas sy'n Dda i Bobl Hŷn yn ennill cydnabyddiaeth ryngwladol, ac mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion, mae'r model Asesydd Dibynadwy yn helpu pobl i ddychwelyd adref o'r ysbyty yn gyflym ac yn ddiogel, gyda chymorth y gweithlu mwyaf sefydlog a fu yn y gwasanaeth ers blynyddoedd lawer. Rydym hefyd wedi cefnogi ein preswylwyr trwy gyfnodau heriol. Mae ein harweinyddiaeth ar y Cyflog Byw Gwirioneddol yn parhau i fod wrth wraidd ein hymdrechion i fynd i'r afael â thlodi a hyrwyddo gwaith teg. O ran yr hinsawdd a'r amgylchedd, rydym wedi lleihau ein hallyriadau carbon gweithredol 18%[2] ac wedi datblygu cynlluniau trafnidiaeth ac ynni cynaliadwy mawr, gan gynnwys Cam 1 Rhwydwaith Gwres Caerdydd a Cham 1A Cledrau Croesi Caerdydd.

Fodd bynnag, nid ydym yn ein twyllo ein hunain am faint yr heriau rydyn ni'n parhau i'w hwynebu. Mewn addysg, mae ysgolion yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â heriau parhaus ynghylch presenoldeb, gwaharddiadau a lles disgyblion, tra bod y galw am ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a thrafnidiaeth o'r cartref i'r ysgol yn parhau i gynyddu. Mae Gwasanaethau Plant yn parhau i fod dan bwysau, gyda nifer y plant mewn gofal yn dechrau gostwng ar ôl degawd o dwf, ond mae llawer bellach angen cymorth mwy cymhleth a chostus. Ym maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion, mae'r ffaith bod poblogaeth Caerdydd yn heneiddio yn arwain at alw sylweddol, gyda chynnydd pellach yn cael ei ddisgwyl wrth i nifer y preswylwyr hŷn gynyddu a bod angen cymorth ar fwy o bobl gyda chyflyrau cymhleth megis dementia. Mae'r argyfwng tai yn parhau i fod yn acíwt, gyda galw cynyddol am dai fforddiadwy a chostau rhent preifat digynsail yn rhoi pwysau eithriadol ar breswylwyr a gwasanaethau ledled y ddinas. Mae'r pwysau hyn yn cael eu gwaethygu gan yr hinsawdd economaidd ehangach a rhagolygon ariannol y Cyngor, gyda bwlch cyllidebol o £122 miliwn i'w gau dros y pedair blynedd nesaf, wedi'i yrru gan y galw a'r pwysau cost mewn gwasanaethau allweddol.

Cymaint yw'r pwysau sy'n wynebu ein gwasanaethau cyhoeddus fel ein bod ni, fel Cabinet, wedi cydnabod y bydd angen i ni ailystyried ac, mewn rhai achosion, ail-lunio'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu. Bydd datblygu a chyflwyno rhaglen ddiwygio i ymateb i'r galw tymor canolig a'r pwysau ariannol, wrth gynnal safonau uchel o ran perfformiad gwasanaeth a llywodraethu da, yn flaenoriaeth strategol i'r Cyngor dros y flwyddyn i ddod.

---

[1] Ar gyfer graddau A* i A ac A* i C mewn cymwysterau CBAC.
[2] Ac eithrio caffael.

Wrth gwrs, ni allwn wneud hyn ar ein pennau ein hunain. Mae llawer o'r llwyddiannau a amlygwyd yn yr adroddiad hwn wedi'u cyflawni mewn partneriaeth ag eraill, sef Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wrth ddatblygu gwasanaethau iechyd a gofal integredig; cymdeithasau tai wrth adeiladu cartrefi fforddiadwy; yr heddlu a phartneriaid cymunedol i gadw cymdogaethau yn ddiogel; a phrifysgolion, busnesau a'r llywodraeth wrth sicrhau swyddi a buddsoddiad i'r ddinas. Bydd yr ysbryd 'Tîm Caerdydd' hwn yr un mor hanfodol wrth fynd i'r afael â'r heriau sydd o'n blaenau.

Fel rhan o'n hymrwymiad i dryloywder a gwelliant parhaus, fe wnaeth y Cyngor gynnal Asesiad Perfformiad Panel annibynnol ym mis Gorffennaf 2025. Yn ogystal â bod yn ofyniad statudol, roedd hyn yn gyfle gwerthfawr i brofi a dilysu ein hunanasesiad ein hunain. Fe wnaeth canfyddiadau'r panel atgyfnerthu ein dealltwriaeth o ble rydyn ni fel sefydliad a ble mae angen i ni fynd nesaf. Daethon nhw i'r casgliad bod Caerdydd yn "gyngor da ac uchelgeisiol", gan dynnu sylw at gryfder a sefydlogrwydd ein llywodraethu, proffesiynoldeb ein staff, a'r perthnasoedd cynhwysol ac adeiladol rhwng Aelodau a swyddogion. Cydnabuwyd bod y Cyngor yn cael ei barchu'n fawr gan bartneriaid a chymunedau, gyda diwylliant a ddisgrifir fel un ag agwedd "'sicr o lwyddiant' ac optimistaidd, wedi'i hategu gan ymdeimlad cryf o falchder dinesig". Mae'r gymeradwyaeth allanol hon yn cryfhau ein hyder yn y cyfeiriad yr ydym yn teithio iddo, a bydd argymhellion y panel yn helpu i lywio cam nesaf ein taith wella.

I grynhoi, mae'r Adroddiad Lles Blynyddol hwn yn dangos bod gan Gaerdydd sylfeini cadarn, blaenoriaethau clir ac ymroddiad gweithlu diwyd a phartneriaid cefnogol. Gyda'r rhain yn eu lle, rwy'n hyderus y byddwn yn parhau i gyflawni dros bobl Caerdydd ac yn gwneud cynnydd pellach tuag at ein huchelgais o ddinas gryfach, decach a gwyrddach.



**Y Cynghorydd Huw Thomas**
Arweinydd Cyngor Caerdydd

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| 2 | **Cyflwyniad yr Arweinydd** |
| 5 | **Ynglŷn â'r Adroddiad Hwn** |
| 14 | **Asesiad Cyffredinol** |
| 18 | **Amcan Lles 1 –** Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu |
| 30 | **Amcan Lles 2 –** Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn |
| 38 | **Amcan Lles 3 –** Cefnogi pobl allan o dlodi |
| 46 | **Amcan Lles 4 –** Cymunedau diogel, hyderus a grymus |
| 56 | **Amcan Lles 5 –** Prifddinas sy'n gweithio dros Gymru |
| 62 | **Amcan Lles 6 –** Caerdydd Un Blaned |
| 74 | **Amcan Lles 7 –** Moderneiddio ac integreiddio ein gwasanaethau cyhoeddus |

# Ynglŷn â'r Adroddiad Hwn

## Beth yw'r Adroddiad Lles Blynyddol?

Diben yr Adroddiad Lles Blynyddol yw rhoi hunanasesiad diwedd blwyddyn o berfformiad y Cyngor wrth gyflawni ei Amcanion Lles ar gyfer 2024/25.

Mae'r Amcanion Lles hyn, gan gynnwys y camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd i'w cyflawni, a sut bydd perfformiad yn cael ei fesur, wedi'u nodi yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor 2024-27:

1. **Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu**
2. **Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn**
3. **Cefnogi pobl allan o dlodi**
4. **Cymunedau diogel, hyderus a grymus**
5. **Prifddinas sy'n gweithio dros Gymru**
6. **Caerdydd Un Blaned**
7. **Moderneiddio ac integreiddio ein gwasanaethau cyhoeddus**

Mae'r Adroddiad Lles Blynyddol hwn yn ffrwyth proses hunanasesu gynhwysfawr, fel y nodir isod, ac yn tynnu ar berfformiad gwasanaeth, llywodraethu a risg, adnoddau a ffynonellau eraill o wybodaeth am berfformiad a ddarperir ar gyfer pob Amcan Lles: Mae pob pennod o'r adroddiad hwn yn rhoi asesiad strategol fesul Amcan Lles, ynghyd â chrynodeb o lwyddiannau, heriau a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

Mae'r dadansoddiad a'r gwerthusiad o berfformiad sydd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Lles Blynyddol a'r Asesiad Perfformiad Canol Blwyddyn yn elfen ganolog yn y broses o bennu blaenoriaethau a chamau gweithredu'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn i ddod, a nodir yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor sydd wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2025-28.

Wrth gynnal asesiadau canol blwyddyn a diwedd blwyddyn, mae'r Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ac mae cyhoeddi'r adroddiadau'n sicrhau bod y Cabinet yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am gyflawni eu hagenda polisi, a pherfformiad gwasanaethau statudol.

## Gofynion Statudol

Mae'r Adroddiad Lles Blynyddol yn diwallu gofynion statudol canlynol y Cyngor:

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor bennu a chyhoeddi Amcanion Lles, cymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny a chyhoeddi datganiad ynghylch Amcanion Lles. Caiff y dyletswyddau hyn eu cyflawni trwy broses Cynllunio Corfforaethol y Cyngor. Hefyd, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn mynnu bod y Cyngor yn cyhoeddi adroddiad blynyddol am gynnydd, ac mae hyn yn cael ei wneud trwy'r Adroddiad Lles Blynyddol. Mae elfennau craidd y Ddeddf yn cynnwys yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r Pum Ffordd o Weithio. Y ffyrdd hyn yw hirdymor, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys. Mae'r tabl isod yn nodi sut mae'r pum ffordd o weithio wedi cael eu gweithredu wrth bennu ein Hamcanion Lles a sut maen nhw wedi llywio'r gwerthusiad o gynnydd.

| Ffordd o Weithio | Sut mae wedi'i gweithredu fel rhan o ddull cynllunio'r Cyngor? | Sut mae wedi'i gweithredu fel rhan o ddull adrodd a rheoli perfformiad y Cyngor? |
|---|---|---|
| ***Hirdymor***<br><br>*Pwysigrwydd cydbwyso anghenion byrdymor â'r angen i ddiogelu'r anghenion hirdymor.* | Cafodd yr Amcanion Lles a'r camau yn y Cynllun Corfforaethol eu llywio gan sylfaen dystiolaeth eang sy'n ystyried materion uniongyrchol a thueddiadau tymor hwy. Mae hyn yn cynnwys:<br>• Asesiad Lles Lleol Caerdydd<br>• Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Caerdydd<br>• Asesiad Anghenion y Boblogaeth Caerdydd a'r Fro<br>• Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC)<br>• Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020<br>• Dangosfwrdd dinas gyfan Caerdydd | Cafodd y cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r Amcanion a'r camau Lles eu llywio gan adolygiad o dueddiadau, gan ystyried dangosyddion perfformiad byrdymor a dangosyddion lefel poblogaeth tymor hwy. Mae hyn yn cynnwys ystyried:<br>• Dangosyddion Perfformiad Allweddol sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Corfforaethol – Dangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol – sy'n cyflwyno data tueddiadau lle mae ar gael<br>• Dangosyddion canlyniadau hirdymor sydd wedi'u cynnwys ar Ddangosfwrdd dinas gyfan Caerdydd<br>• Barn dinasyddion sydd wedi'i chynnwys yn Adroddiad Trosolwg yr Ymgynghoriad sydd, ar gyfer rhai cwestiynau ymgynghori, yn cyflwyno data tueddiadau ar gyfer y pum mlynedd diwethaf. |

| Ffordd o Weithio | Sut mae wedi'i gweithredu fel rhan o ddull cynllunio'r Cyngor? | Sut mae wedi'i gweithredu fel rhan o ddull adrodd a rheoli perfformiad y Cyngor? |
|---|---|---|
| ***Atal***<br><br>*Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i fodloni eu Hamcanion.* | Ym mhopeth y mae'r Cyngor yn bwriadu ei gyflawni, mae ffocws yn cael ei roi ar ymyrryd yn gynnar, gan fynd i'r afael â'r achosion sylfaenol ac anelu at, lle bynnag y bo modd, atal problemau cyn iddynt ddigwydd, gan felly wella canlyniadau a rheoli galw a phwysau cyllidebol sy'n wynebu gwasanaethau. Mae pob Amcan Lles yn cynnwys camau a nodweddir gan ymyrraeth gynnar o'r natur hon. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys:<br><br>• Newid cydbwysedd y gofal yn y Gwasanaethau Plant;<br>• Cefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol gartref trwy wasanaethau ataliol sy'n seiliedig ar gryfderau<br>• Gweithio i sicrhau bod pobl ifanc priodol yn derbyn gwasanaeth atal gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid;<br>• Atal digartrefedd pryd bynnag y bo modd a rhoi terfyn ar gysgu ar y stryd. | Mae nifer o gamau'r Cynllun Corfforaethol yn canolbwyntio ar atal, gyda mesurau cyfatebol ar waith i fesur effaith neu effeithiolrwydd.<br><br>Er enghraifft, mae rhan allweddol o'r agenda ataliol o fewn Gwasanaethau Oedolion yn ymwneud â chefnogi pobl i fyw'n annibynnol, sy'n cael ei fesur gan set glir o ddangosyddion perfformiad allweddol gan gynnwys K2.08: Canran y cleientiaid oedd yn teimlo eu bod yn gallu byw yn annibynnol yn eu cartrefi gyda chymorth y gwasanaethau byw yn annibynnol.<br><br>Yn yr un modd, mae'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yn monitro nifer y bobl ifanc sy'n derbyn gwasanaeth atal (K1.44) yn fanwl ac yn eu hatal rhag dod yn ddyfodiaid am y tro cyntaf (K1.45).<br><br>Nod gwasanaethau digartrefedd yw lleihau cyfanswm nifer y rhai sy'n cysgu ar y stryd yng Nghaerdydd (K3.18) trwy weithio gyda'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, gan fesur atal trwy'r DPA K3.14: Canran yr aelwydydd sydd dan fygythiad o ddigartrefedd sy'n cael eu hatal yn llwyddiannus rhag dod yn ddigartref. |
| ***Cydweithredu***<br><br>*Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei Amcanion Lles.* | Ni ellir ateb yr heriau cymhleth sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus gan un sefydliad, sector neu wasanaeth cyhoeddus yn gweithredu ar ei ben ei hun – mae angen ymateb system gyfan gan wasanaethau cyhoeddus y ddinas. Gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn y maes hwn yn ystod y pandemig, mae trefniadau partneriaethau cryfach ar waith i ymateb i gynnydd mewn galw a materion newydd, cymhleth sy'n codi.<br><br>Datblygwyd Amcanion Lles y Cyngor mewn cydweithrediad agos â phartneriaid gwasanaethau cyhoeddus o fewn Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Caerdydd sy'n ceisio mabwysiadu'r un saith Amcan Lles yn ei Gynllun Lles Lleol ar gyfer 2023-28. Mae hyn yn adlewyrchu'r dyheadau a rennir a'r ddealltwriaeth gyffredin o heriau sy'n wynebu'r ddinas a barn glir ar y meysydd gwaith sy'n gofyn i wasanaethau cyhoeddus y ddinas weithio mewn partneriaeth. | Mae'r Adroddiad Lles yn cydnabod y cynnydd a wnaed, mewn cydweithrediad â phartneriaid a enwir, trwy gydol yr adroddiad. Mae trefniadau Cynllunio a Monitro Perfformiad ffurfiol hefyd ar waith ar gyfer partneriaethau statudol gan gynnwys:<br><br>Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd:<br><br>• Cynllunio: Cynllun Lles Lleol 2023-2028<br>• Monitro: Adroddiad Blynyddol BGC 2024/25<br><br>Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro:<br><br>• Cynllunio: Cydgynllun Ardal BPRh (2023-28)<br>• Monitro: Adroddiad Blynyddol BPRh 2024/25 |

<table>
<tr><th>Ffordd o Weithio</th><th>Sut mae wedi'i gweithredu fel rhan o ddull cynllunio'r Cyngor?</th><th>Sut mae wedi'i gweithredu fel rhan o ddull adrodd a rheoli perfformiad y Cyngor?</th></tr>
<tr><td>Integreiddio<br><br>Ystyried sut y gall amcanion lles y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau lles, ar eu hamcanion eraill neu ar amcanion cyrff neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.</td><td>Mae'r Amcanion Lles yn torri ar draws seilos adrannol, gan ganolbwyntio ar yr hyn y gall holl wasanaethau'r Cyngor ei wneud i wella lles pobl Caerdydd.<br><br>Mae datblygu'r Amcanion Lles yn cynnwys gweithio'n agos ar draws adrannau a phortffolios ac mae'n cynnwys llywodraethu gwleidyddol ehangach y Cyngor, gan gynnwys Pwyllgorau Craffu a'r Panel Perfformiad. Mae'r broses hon yn sicrhau y gellir nodi a gweithredu ar ryngddibyniaethau, cyfleoedd a risgiau rhwng Amcanion Lles.<br><br>Fel y nodwyd uchod, cyflawnwyd datblygiad yr Amcanion Lles mewn cydweithrediad agos â phartneriaid yn y gwasanaethau cyhoeddus, gydag aliniad clir ar bolisi a chyflwyno drwy BGC Caerdydd a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro.</td><td>Mae datblygiad yr Adroddiad Lles Blynyddol yn cael ei ystyried gan nifer o randdeiliaid sefydliadol, gan sicrhau asesiad integredig o berfformiad.<br>Mae hyn yn cynnwys:<ul><li>Sesiwn cynnydd a pherfformiad gydag Aelodau'r Cabinet a swyddogion arweiniol, dan gadeiryddiaeth Arweinydd y Cyngor, sy'n ystyried ystod eang o faterion perfformiad a chyllideb.</li><li>Ystyriaeth o'r Adroddiad Lles Blynyddol drafft gan:<ul><li>Y Panel Perfformiad, a gynhelir gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Adolygu Polisi a Pherfformiad</li><li>Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio</li><li>Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad</li><li>Undebau Llafur</li><li>Y Cabinet, wedi derbyn ac ymateb i argymhellion pob Pwyllgor</li><li>Cyngor</li></ul></li></ul></td></tr>
<tr><td>Cyfranogiad<br><br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r Nodau Lles, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei wasanaethu.</td><td>Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod llais y dinesydd wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau drwy raglen barhaus o waith ymgynghori ac ymgysylltu. Mae hyn yn cynnwys arolwg blynyddol Holi Caerdydd, gwaith ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, yr Ymgynghoriad ar y Gyllideb a gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd eraill a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn. Mae Adroddiad Trosolwg Ymgynghori wedi'i lunio i grynhoi canfyddiadau allweddol yr ymarferion ymgynghori a gynhaliwyd, wedi'u rhannu yn ôl Amcan Lles.</td><td>Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys 15 dangosydd llais y dinesydd ar draws yr Amcanion Lles, y gwnaeth eu canlyniadau lywio'r asesiad. Mae dangosyddion llais y dinesydd enghreifftiol yn cynnwys:<ul><li>Canran y bobl â phlant sy'n fodlon ar ansawdd eu hysgol leol (K1.25)</li><li>Canran y bobl sy'n fodlon ar y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan Ofal Cymdeithasol i Oedolion (K2.13)</li><li>Canran tenantiaid y Cyngor sy'n fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir gan eu landlord cymdeithasol (K4.06)</li><li>Canran y cwsmeriaid a gytunodd â'r datganiad 'Ar y cyfan fe wnaeth yr Hyb fodloni fy ngofynion/Ces i'r hyn yr oedd ei angen arna i'</li></ul></td></tr>
</table>

- Sefydlodd **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021** fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer etholiadau llywodraeth leol, democratiaeth, llywodraethu a pherfformiad. Mae'r Ddeddf yn mynnu bod pob Cyngor yng Nghymru yn parhau i adolygu, trwy hunanasesiad, i ba raddau y mae'n bodloni ei **ofynion perfformiad** ac yn cyhoeddi adroddiad sy'n nodi casgliadau ei hunanasesiad unwaith bob blwyddyn ariannol. Yn benodol, mae'n rhaid i'r Cyngor ***gynnal adolygiad o'i allu i ddefnyddio ei adnoddau*** yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

  Mae'r Adroddiad Lles Blynyddol hwn, a luniwyd trwy'r broses hunanasesu a amlinellir isod, yn nodi casgliadau'r Cyngor ynghylch i ba raddau y mae wedi bodloni'r gofynion perfformiad (hynny yw, arfer ei swyddogaethau'n effeithiol, gan ddefnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol, a'i fod yn llywodraethu'n effeithiol i sicrhau'r uchod) yn ystod y flwyddyn ariannol.

- Mae **Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023** yn gosod dyletswydd partneriaeth gymdeithasol newydd ar gyrff cyhoeddus gan gynnwys awdurdodau lleol. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor, wrth gyflawni datblygu cynaliadwy, i'r graddau y mae'n rhesymol, geisio consensws neu gyfaddawdu â'u hundebau llafur cydnabyddedig, wrth osod eu Hamcanion Lles (yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) a gwneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch y camau rhesymol y maent yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny a osodwyd.

  Mae'r Cyngor wedi gweithredu yn unol â gofynion y Ddeddf. Wrth osod ei Amcanion Lles ar gyfer 2025/26, ymgysylltodd y Cyngor â phartneriaid Undebau Llafur ar 17 Chwefror 2025, ac mae hyn bellach yn rhan o broses datblygu'r Cynllun Corfforaethol. Mae hyn yn rhan o ymrwymiad ehangach i ymgysylltu ag Undebau Llafur, sy'n cynnwys amserlen o gyfarfodydd lle ymgynghorir ag Undebau Llafur yn rheolaidd, yn enwedig mewn perthynas â phenderfyniadau sy'n destun ystyriaeth gan y Cabinet. Mae gan y Cyngor hefyd seilwaith ymgysylltu helaeth sy'n caniatáu ymgysylltu â chydweithwyr Undebau Llafur, gan sicrhau bod egwyddorion a gofynion y Ddeddf yn nodwedd amlwg o weithgarwch y Cyngor. Yn ystod 2024/25, cynhaliwyd pedwar cyfarfod Cyngor Gwaith ac 11 Cyfarfod Partneriaeth Undebau Llafur (PULI), yn ogystal â sawl Cyfarfod y Cydbwyllgor Meysydd Gwasanaeth (CMG).

  Nododd yr Asesiad o Berfformiad y Panel – un o ofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 – "*derbyniodd y panel adborth cadarnhaol yn bennaf gan gynrychiolwyr yr Undebau Llafur a oedd yn gallu mynychu trafodaethau. Nododd cynrychiolwyr undebau llafur fecanweithiau ymgysylltu adeiladol gyda'r Cyngor, y Prif Weithredwr ac aelodau allweddol yr UDRh [Uwch Dîm Rheoli'r Cyngor] ac yn teimlo bod y Cyngor yn bodloni amcanion Partneriaeth Gymdeithasol, fel y nodir yn Neddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023*." (Adroddiad Asesu Perfformiad y Panel, Cyngor Caerdydd, Gorffennaf 2025).

  Mae'r Adroddiad Lles Blynyddol hwn yn cyflawni'r gofyniad i gynhyrchu adroddiad sy'n dangos sut mae'r Cyngor, fel corff cyhoeddus, wedi cydymffurfio â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol. Rhannwyd Adroddiad Lles Blynyddol drafft â Chyfarfod Partneriaeth yr Undebau Llafur ar 23 Mehefin 2025 cyn cyfnod ffurfiol o ymgynghori. Ym mis Gorffennaf 2025, fe wnaeth y Cabinet fabwysiadu Polisi Caffael Cymdeithasol-Gyfrifol a dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Corfforaethol i gymeradwyo unrhyw ddiweddariadau i adlewyrchu canllawiau cenedlaethol a/neu fodloni gofynion deddfwriaethol newydd[3]. O 2026/27 ymlaen, bydd adroddiad caffael blynyddol a fydd yn adrodd yn erbyn y darpariaethau yn y Ddeddf sy'n ymwneud â chaffael cyhoeddus a gwerth cymdeithasol.

[3] Penderfyniad – Polisi Caffael Cymdeithasol-Gyfrifol: Cyngor Caerdydd

Mae crynodeb o'r gofynion deddfwriaethol sy'n ymwneud â chynllunio a chyflawni wedi'i nodi isod.

| Deddf | Gofyniad Cynllunio a Pherfformiad | Trefniant Cydymffurfio |
|---|---|---|
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** | Pennu a chyhoeddi Amcanion Lles | Cwblhawyd trwy gyhoeddi'r Cynllun Corfforaethol |
| | Cymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny | Cwblhawyd trwy gyhoeddi'r Cynllun Corfforaethol |
| | Cyhoeddi datganiad am yr Amcanion Lles | Cwblhawyd trwy gyhoeddi'r Cynllun Corfforaethol |
| | Cyhoeddi adroddiad cynnydd blynyddol ac adolygu'r Amcanion Lles | Cwblhawyd drwy gyhoeddi Adroddiad Lles Blynyddol 2024/25 |
| | Cyhoeddi ei ymateb i unrhyw argymhelliad a wnaed gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Ni dderbyniwyd yr un ohonynt hyd yma |
| **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (2021)** | Parhau i adolygu perfformiad: i ba raddau y mae'n arfer ei swyddogaethau'n effeithiol; yn defnyddio ei adnoddau yn economaidd, yn effeithlon ac yn effeithiol; ac yn llywodraethu'n effeithiol i sicrhau'r uchod | Cwblhawyd drwy gyhoeddi Adroddiad Lles Blynyddol 2024/25 |
| | Ymgynghori ar berfformiad: gyda phobl leol, staff, undebau llafur a phartneriaid | Cwblhawyd, gan gyfeirio at ganfyddiadau allweddol sydd wedi'u cynwys yn Adroddiad Lles Blynyddol 2024/25 |
| | Adrodd am berfformiad: llunio adroddiad hunanasesu bob blwyddyn, sy'n cynnwys asesiad o berfformiad (gwasanaeth, cyllid, llywodraethu) a chamau gweithredu a nodwyd i wella | Cwblhawyd drwy gyhoeddi Adroddiad Lles Blynyddol 2024/25 |
| | Trefnu asesiad perfformiad panel ac ymateb i adroddiad yr asesiad perfformiad panel | Cynhaliwyd yr Asesiad o Berfformiad y Panel ym mis Gorffennaf 2025 gyda'r Cyngor yn ymateb i argymhellion ym mis Medi 2025. |
| **Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023** | Ceisio consensws neu gyfaddawdu gydag undebau llafur cydnabyddedig wrth osod Amcanion Lles | Cwblhawyd trwy ymgynghori â chynrychiolwyr yr Undebau Llafur yng nghyfarfod y Bartneriaeth Undebau Llafur a gynhaliwyd ar 17 Chwefror 2025 |
| | Llunio adroddiad sy'n dangos sut mae'r Cyngor, fel corff cyhoeddus, wedi cydymffurfio â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol | Cwblhawyd drwy gyhoeddi Adroddiad Lles Blynyddol 2024/25 |

Mae'r Cyngor o'r farn ei fod, trwy gyhoeddi ei Gynllun Corfforaethol a'i Adroddiad Lles Blynyddol, **wedi cyflawni'r dyletswyddau statudol perthnasol a restrir uchod.**

## Sut mae'r Adroddiad Lles Blynyddol yn cael ei ddatblygu?

Mae'r asesiad o'r perfformiad sydd yn yr Adroddiad Lles Blynyddol yn cael ei ddatblygu trwy broses drylwyr o hunanasesu sy'n cynnwys arweinyddiaeth wleidyddol a rheolaethol y Cyngor, gan dynnu ar ystod eang o ffynonellau gwybodaeth am berfformiad.

### Ffynonellau Gwybodaeth am Berfformiad

Mae ffynonellau gwybodaeth am berfformiad sy'n cyfrannu at yr asesiad perfformiad a geir yn yr Adroddiad Lles Blynyddol yn cynnwys:

- **Perfformiad yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Allweddol y Cyngor** – Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn cynnwys cyfres o ddangosyddion perfformiad sy'n mesur y cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r Amcanion Lles. Lle bo hynny'n berthnasol, pennir targedau yn erbyn y dangosyddion perfformiad hyn i ddangos lefel y llwyddiant a ddymunir. Neilltuir statws CMG i ddangosyddion perfformiad yn seiliedig ar eu canlyniad: **GWYRDD** lle mae'r dangosydd wedi bwrw'r targed neu'n uwch nag ef, **OREN** lle nad yw'r canlyniad ymhellach na 10% o'r targed, a **CHOCH** lle mae'r canlyniad yn fwy na 10% o'r targed.

- **Cynnydd yn erbyn y camau ym mhob Amcan Lles** – Mae pob Amcan Lles yn y Cynllun Corfforaethol hefyd yn cynnwys set o gamau gweithredu. Mae monitro cynnydd y camau hyn yn rhoi dealltwriaeth o'r hyn a gyflawnwyd a lle mae angen mwy o waith. Mae'r perfformiad diwedd blwyddyn yn erbyn dangosyddion perfformiad a chamau allweddol y Cynllun Corfforaethol i'w weld ar Ddangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol y Cyngor.

- **Perfformiad yn erbyn dangosyddion canlyniad dinas gyfan** – Cytunwyd ar gyfres o ddangosyddion canlyniadau dinas gyfan ar gyfer pob Amcan Lles â phartneriaid Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus y Cyngor. Gellir cyrchu'r rhain trwy Ddangosfwrdd dinas gyfan Caerdydd, sydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth am dueddiadau'r boblogaeth a demograffeg y ddinas.

- **Ymgynghori ac Ymgysylltu** – Mae gan y Cyngor nifer o ddulliau ymgynghori ac ymgysylltu sefydledig megis arolwg blynyddol Holi Caerdydd i ddinasyddion, yr Ymgynghoriad ar y Gyllideb a'r Arolwg Dinas sy'n Dda i Blant, yn ogystal ag arolygon ac ymarferion ymgynghori eraill a gynhelir yn ystod y flwyddyn sy'n rhoi cyfle i breswylwyr, busnesau a rhanddeiliaid dinesig eraill rannu eu barn ar amrywiaeth eang o wasanaethau a chynlluniau'r Cyngor. Yn ogystal, mae Adroddiad Blynyddol Canmoliaeth a Chwynion y Cyngor yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar le mae dinasyddion Caerdydd yn meddwl bod angen i'r Cyngor wella. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys nifer o ddangosyddion perfformiad allweddol sy'n ymwneud â mewnwelediad dinasyddion a'u boddhad o ran gwasanaethau, ac mae canfyddiadau'r gwaith ymgynghori ac ymgysylltu yn rhan bwysig o brosesau hunanasesu, datblygu polisi a phennu cyllidebau'r Cyngor. Mae'r Cyngor hefyd yn cynhyrchu Adroddiad Trosolwg Ymgynghori blynyddol, sy'n cyfuno canfyddiadau amrywiaeth o arolygon ac ymarferion ymgysylltu â dinasyddion a gynhaliwyd gan y Cyngor a'i bartneriaid yn y sector cyhoeddus.

- **Monitro Cyllid** – Nod Adroddiad Alldro 2024/25 y Cyngor yw rhoi gwybod am sefyllfa ariannol y Cyngor mewn perthynas â'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 ac mae ei ganfyddiadau yn cyfrannu at yr asesiad a geir yn yr Adroddiad Lles Blynyddol.

- **Llywodraethu Da** – Mae Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sy'n llywio ac yn rheoli'r Cyngor, a'r modd mae'n ei ddefnyddio i roi cyfrif i'r gymuned, ymgysylltu â hi a'i harwain. Mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor yn gosod asesiad o fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol y Cyngor.
- **Risg** – Mae cyflawni amcanion yn gofyn am reoli risgiau yn aml ar lefelau gweithredol a strategol, yn enwedig yn yr amgylchedd allanol deinamig y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddo. Mae Adroddiad Risg Diwedd Blwyddyn y Cyngor, ynghyd â'i Gofrestrau Risgiau Corfforaethol a Chyfarwyddiaeth, yn rhoi trosolwg o'r risgiau presennol a'r camau gweithredu sydd ar waith i'w lliniaru.
- **Y Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio** – Mae'r Cyngor yn ymateb i'r materion a'r argymhellion sy'n cael eu codi gan y Pwyllgorau, sy'n helpu i lywio datblygu polisi a gwella perfformiad.
- **Adroddiadau Archwilio** – Mae'r Cyngor yn destun nifer o archwiliadau gan gyrff rheoleiddio, gan gynnwys Archwilio Cymru, Estyn (Addysg) ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae eu canfyddiadau'n helpu'r Cyngor i asesu meysydd perfformiad cryf, yn ogystal â nodi meysydd lle mae angen gwella.
- **Adroddiad Asesu Perfformiad y Panel** – Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i gyngor wneud trefniadau ar gyfer panel annibynnol, a benodir gan y Cyngor, i asesu i ba raddau y mae'r Cyngor yn bodloni'r gofynion perfformiad o leiaf unwaith yn ystod cylch etholiad – Asesiad Perfformiad Panel (APP). Cynhaliwyd yr Asesiad Panel ym mis Gorffennaf 2025. Bydd adroddiad sy'n nodi casgliadau ac argymhellion yr Asesiad, ac ymateb y Cyngor i'r argymhellion, yn cael ei ystyried gan y Cabinet ar 18 Medi 2025. Mae'r Adroddiad Lles Blynyddol yn tynnu ar yr adroddiad fel ffynhonnell dystiolaeth wrth hunanwerthuso perfformiad.

## Proses Hunanasesu

Mae'r Adroddiad Lles Blynyddol yn cael ei ddatblygu drwy ymgysylltu â chyfarwyddwyr a thrwy broses hunanwerthuso, sicrwydd a herio. Mae'r broses yn cynnwys rolau uwch ar gyfer y Pwyllgorau Craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Mae'r broses hon yn cynnwys:

- Hunanwerthusiad gan y gyfarwyddiaeth o berfformiad gwasanaethau, caffael adnoddau, a heriau a blaenoriaethau llywodraethu, gan ateb y cwestiynau canlynol:
  - Beth sy'n mynd yn dda?
  - Beth yw'r risgiau a'r heriau allweddol sy'n wynebu eich gwasanaethau?
  - Beth yw'r camau nesaf?
- Sesiynau her a sicrwydd perfformiad a chyllideb i'w cynnal gan y Prif Weithredwr a'r Swyddog Adran 151 gyda phob Cyfarwyddwr i ystyried canfyddiadau hunanasesiad ei gyfarwyddiaeth.
- Sesiwn cynnydd a pherfformiad gydag Aelodau'r Cabinet a swyddogion arweiniol, dan gadeiryddiaeth Arweinydd y Cyngor.

- Ystyriaeth o'r Adroddiad Lles Blynyddol drafft gan:
    - Y Panel Perfformiad, sy'n cael ei gynnull gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad, ac sy'n cynnwys Cadeiryddion pob un o Bwyllgorau Craffu'r Cyngor
    - Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
    - Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad
    - Undebau Llafur
    - Y Cabinet, wedi derbyn ac ymateb i argymhellion pob Pwyllgor
    - Cyngor

Mae'r holl ohebiaeth gan y Panel Perfformiad a'r Pwyllgorau sy'n ymwneud â'r adroddiad hwn i'w gweld ar wefan Cofrestr Penderfyniadau y Cyngor.

Nid yw gwella a gwerthuso perfformiad yn digwydd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn unig. Caiff adroddiad hunanwerthuso canol blwyddyn ei ystyried gan y Cabinet, gan dynnu ar wybodaeth perfformiad ym mis 6 a chaiff perfformiad ei fonitro bob tri mis trwy ddiweddariadau i'r camau a'r dangosyddion perfformiad yn y Cynllun Corfforaethol. Ystyrir meysydd risg, cyllideb, archwiliadau, ymgynghori a pherfformiad i gyd mewn modd cyfannol trwy gydol y flwyddyn i ysgogi gwelliant.



# Asesiad Cyffredinol

*Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd da wrth weithredu'r rhaglen Cryfach, Tecach, Gwyrddach ac, yn gyffredinol, mae'n darparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon i bobl Caerdydd, gyda rhywfaint o ymarfer rhagorol, llawer o wasanaethau da a rhai sydd angen eu gwella ymhellach. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gefnogi gan fframwaith perfformiad, llywodraethu, ariannol a rheoli ehangach, sy'n sicrhau bod unrhyw faterion yn cael eu nodi'n gyflym, a gan ddiwylliant perfformiad sy'n cefnogi dadl agored a gonest, gyda'r ffocws ar welliant a diwylliant cadarnhaol a pherthynas waith rhwng yr Aelodau a'r swyddogion.*

*Mae'r Cyngor yn gweithio mewn ac yn meithrin partneriaethau effeithiol ar draws y ddinas, y ddinas-ranbarth a'r tu hwnt, fel rhan o ethos Tîm Caerdydd. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r Cyngor wedi parhau i chwarae ei rôl arwain gwasanaethau cyhoeddus, gan weithio gyda phartneriaid i ddatblygu timau ataliol, integredig ar draws cynghorau a gwasanaethau cyhoeddus ar yr un pryd â rheoli pwysau galw uniongyrchol a sylweddol wrth y drws ffrynt. Mae'r Cyngor hefyd wedi gweithio gyda phartneriaid yn y sectorau preifat a chyhoeddus i fwrw ymlaen â rhaglen adfywio uchelgeisiol, ac i gyflawni ei rôl fel prifddinas ym mywyd economaidd a diwylliannol Cymru, mewn amodau economaidd sy'n parhau i fod yn heriol.*

*Mae'n gwneud hynny yn wyneb galw cynyddol a chymhleth, yn ogystal â phwysau costau a gweithlu ac, wrth edrych tua'r dyfodol, bydd angen cau bwlch cyllidebol o £122 miliwn dros y pedair blynedd nesaf. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi cynnal adolygiad cynhwysfawr o wasanaethau a chyllideb, gan gydnabod y bydd angen iddo ailystyried ac, mewn rhai achosion, ail-lunio'r gwasanaethau y mae'n eu darparu, er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol i bobl Caerdydd. Bydd datblygu a chyflwyno rhaglen ddiwygio i ymateb i'r galw a'r pwysau ariannol yn y tymor canolig, wrth gynnal safonau uchel o ran perfformiad gwasanaeth a llywodraethu da, yn flaenoriaeth strategol i'r Cyngor dros y flwyddyn i ddod.*

## Meysydd Cynnydd a Gwelliant

Mae'r Cyngor wedi parhau i wneud cynnydd ystyrlon ar draws pob Amcan Lles, gan ddangos dull cryf a chydlynol o gyflawni canlyniadau cadarnhaol i gymunedau'r ddinas:

- Mae cyrhaeddiad addysgol yn parhau i fod yn gryfder allweddol, gyda Chaerdydd yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru mewn canlyniadau TGAU a Safon Uwch ar gyfer graddau A* i A ac A* i C mewn cymwysterau CBAC.
- Cafwyd newid amlwg yng Nghaerdydd o ran cydbwysedd gofal i blant a phobl ifanc trwy waith ar draws pob agwedd ar Wasanaethau Plant. Mae'r datblygiadau allweddol yn cynnwys ehangu'r gwasanaeth maethu mewnol, ail-lunio'r gwasanaeth 'drws ffrynt', gwella cymorth i weithwyr cymdeithasol a gweithredu'r Strategaeth Ymdrechu am Ragoriaeth mewn Gwasanaethau Plant yn llwyddiannus.
- Mae enw da Caerdydd fel Dinas sy'n Dda i Bobl Hŷn yn parhau i dyfu, gyda'i harferion arloesol yn ennill cydnabyddiaeth ryngwladol. Mae cymorth cryfach i ofalwyr, gan gynnwys gwasanaethau estynedig a mentrau gwirfoddoli wedi'u targedu, yn atgyfnerthu'r ymrwymiad hwn ymhellach.

- Mae Model Aseswr Dibynadwy y Cyngor yn dangos tystiolaeth o lwyddiant, gan hwyluso prosesau mwy priodol o ryddhau o'r ysbyty ac yn lleihau ôl-groniadau gwaith cymdeithasol. Mae sefydlogrwydd y gweithlu mewn Gofal Cymdeithasol i Oedolion wedi gwella'n sylweddol, gyda chyfraddau swyddi gwag ar isafbwynt hanesyddol o 12.75 %, gan wella ymateboldeb gwasanaethau a pherfformiad rhyddhau o'r ysbyty.
- Mae ymyriadau wedi'u targedu i liniaru tlodi wedi cyflawni canlyniadau mesuradwy, gyda chynnydd sylweddol mewn cymorth Credyd Cynhwysol a chymorth cyflogaeth – sydd o fudd i 8,800 o unigolion a 1,382 o bobl, yn y drefn honno – gan ragori ar y disgwyliadau ac yn cryfhau ymrwymiad Caerdydd i gynhwysiant economaidd.
- Mae Prifysgol Caerdydd yn amcangyfrif bod y Cyflog Byw Gwirioneddol wedi cyfrannu £100m at economi'r ddinas ers 2012, gan dynnu sylw at ei effaith economaidd gadarnhaol.
- Er gwaethaf amodau heriol y farchnad, mae dros 1,800 o gartrefi wedi'u cwblhau trwy raglen datblygu tai'r Cyngor, gyda chynnydd cyson yn parhau ledled y ddinas.
- Mae llyfrgelloedd Caerdydd wedi derbyn clod uchel am ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i breswylwyr. Mae'r asesiad diweddaraf yn tanlinellu cefnogaeth gref gan ddefnyddwyr a phresenoldeb da ganddynt mewn digwyddiadau fel cryfderau craidd y gwasanaeth.
- Mae prosiectau mawr, megis Rhaglen Gwella Caerdydd Canolog a chefnogaeth barhaus i ddigwyddiadau diwylliannol a chwaraeon, wedi atgyfnerthu safle Caerdydd fel un o brifddinasoedd mwyaf blaenllaw'r DU ar gyfer twf busnes a buddsoddiad byd-eang.
- Yn ystod y flwyddyn, chwaraeodd y Cyngor ran weithredol yn y gwaith o greu a diogelu 5,822 o swyddi, gan ragori yn sylweddol ar y targed, sef 750.
- Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd sylweddol tuag at gynaliadwyedd amgylcheddol, gan gyflawni gostyngiad o 18 % mewn allyriadau gweithredol – ac eithrio caffael – wrth hyrwyddo prosiectau trafnidiaeth ac ynni cynaliadwy. Yn nodedig, mae Cam 1 Rhwydwaith Gwres Caerdydd ar fin cael ei gwblhau ac mae Cam 1A Cledrau Croesi Caerdydd wedi sicrhau cymeradwyaeth Achos Busnes Llawn gan Lywodraeth y DU.
- Mae ansawdd aer Caerdydd yn parhau i wella, gyda lefelau llygryddion ymhell yn is na'r terfynau cyfreithiol. Mae'r ddinas wedi cael ei chydnabod fel un o'r 10 dinas orau yn y DU ar gyfer aer glân gan Auto Trader, yr unig ddinas yng Nghymru i dderbyn y rhagoriaeth hon.
- Tynnodd arolwg staff y Cyngor sylw at adborth cadarnhaol ar draws pob maes a gwasanaeth. Mynegodd gweithwyr falchder cryf yn eu gwaith, dealltwriaeth glir o sut mae eu rolau yn cyfrannu at amcanion y Cyngor, a lefelau uchel o foddhad ynghylch cymorth lles.
- Mae'r Cyngor wedi cynnal ei le ymhlith y 100 o gyflogwyr gorau yn arolwg Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall, y safle uchaf yn gyffredinol ar gyfer unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru.

## Blaenoriaethau Gwella Corfforaethol

Mae'r canlynol wedi'u nodi'n flaenoriaethau gwella corfforaethol ar gyfer y flwyddyn i ddod:

1. **Cyflawni'r rhaglen newid:** Mae'r Cyngor wedi datblygu a sefydlu rhaglen newid newydd, sy'n canolbwyntio ar feysydd galw uchel a chynyddol a phwysau ariannol ar wasanaethau y bydd angen newid eu model i sicrhau cynaliadwyedd ac ar sut mae angen i alluogwyr corfforaethol y Cyngor addasu i gefnogi trawsnewid. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth canlynol:

    a. **Sicrhau bod gweithleoedd, technoleg a diwylliant y Cyngor** yn ddeinamig ac yn gynhwysol, wedi'u dylunio i gefnogi staff i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel.

    b. **Darparu gwasanaethau cyhoeddus ataliol cydlynol** mewn ymateb i bwysau galw cynyddol a mwyfwy cymhleth mewn gwasanaethau i blant a phobl ifanc, pobl hŷn ac oedolion mwy agored i niwed.

    c. **Sicrhau bod strategaethau a gwasanaethau economaidd ac amgylcheddol yn cael eu halinio ac yn cefnogi twf** ar lefel ddinas a dinas-ranbarth a bod gwasanaethau rheng flaen yn gweithredu mewn ffordd integredig, effeithlon.

Bydd cyflawni'r rhaglen newid, gan gynnwys sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'r galw a'r heriau ariannol a gweithlu sy'n wynebu'r awdurdod yn y tymor canolig ac yn ymateb iddynt yn effeithiol, yn flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod.

2. **Sicrhau gwasanaeth parhaus a gwydnwch ariannol:** Mae'r Cyngor yn wynebu heriau cyllidebol sylweddol yn awr ac yn y tymor canolig. Mae'r Adroddiad Diweddaru am Gyllideb 2025/26 a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn nodi bwlch cyllideb refeniw dangosol diwygiedig o £122 miliwn ar draws cyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC). Mae'r pwysau hyn yn deillio o gyfuniad o gymhlethdod a maint cynyddol y galw ar wasanaethau (gweler uchod), pwysau chwyddiant sy'n cael eu gyrru gan gostau sy'n gysylltiedig â chyflogeion, costau nwyddau a brynir gan y Cyngor (megis ynni, bwyd a thanwydd) a chost adeiladu, deunyddiau a gwasanaethau a gomisiynir. Bydd ymgorffori a chyflawni'r rhaglen newid newydd, ynghyd â ffocws parhaus ar gyflawni effeithlonrwydd gweithredol, wrth wraidd ymdrechion i sicrhau gwydnwch gwasanaethau ac ariannol dros y tymor canolig.

3. **Parhau i wella perfformiad mewn gwasanaethau allweddol:** Mae angen i'r Cyngor ganolbwyntio parhaus ar wella perfformiad mewn gwasanaethau allweddol a statudol, gyda ffocws ar lywodraethu a rheolaeth dda, gan gynnwys:

    a. Parhau i wella cyrhaeddiad addysgol i ddisgyblion yn ysgolion Caerdydd, yn enwedig disgyblion sy'n fwy agored i niwed neu dan fwy o anfantais.

    b. Cynnal safonau perfformiad mewn Gwasanaethau Plant a chefnogi plant y ddinas sy'n derbyn gofal.

    c. Gwneud cynnydd tuag at gyrraedd targedau ailgylchu statudol a gwella perfformiad glanhau strydoedd ledled y ddinas.

    d. Parhau i ymateb i'r argyfwng tai, gan gynnwys ymestyn mynediad i dai trwy adeiladu a sicrhau tai fforddiadwy ychwanegol a thai wedi'u teilwra i gefnogi byw'n annibynnol, ynghyd â pharhau i wella perfformiad mewn atgyweirio tai.

4. **Y Gweithlu:** Mewn ymateb i amrywiaeth o heriau sy'n ymwneud â'r gweithlu, bydd y Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni Strategaeth y Gweithlu 2023-27, gan flaenoriaethu cynllunio gweithlu rhagweithiol, datblygu amgylchedd gwaith cefnogol ymhellach, pwyslais parhaus ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant, a rhaglen well o weithgareddau ymgysylltu â staff. Mae dulliau wedi'u teilwra o recriwtio a chadw yn cael effaith gadarnhaol mewn gwasanaethau allweddol fel Gwasanaethau Oedolion a Phlant. Mewn ymateb i'r ffaith fod cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch yn uwch na'r targed, mae cymorth yn parhau i gael ei ddarparu ar gyfer ardaloedd sydd â chyfraddau absenoldeb uchel, yn enwedig mewn perthynas â rheoli absenoldeb salwch hirdymor, ar y cyd â gwell ymyriadau i'r cymorth iechyd a lles i staff. Dros y flwyddyn i ddod, bydd y Cyngor yn adolygu ac yn adnewyddu Strategaeth y Gweithlu i sicrhau ei bod yn cyd-fynd yn effeithiol â rhaglen newid y Cyngor ac yn ei chefnogi.

# Amcan Lles 1:

## Mae Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu

**Ein blaenoriaethau yn 2024/25 oedd:**

1.1 Bod yn Ddinas sy'n Dda i Blant: Hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc

1.2 Hawl i Ddysgu: Darparu cyfleoedd addysgu a dysgu o safon i bawb

1.3 Lles, Tegwch a Chynhwysiant: Sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn barod ac yn gallu dysgu, a bod ganddynt iechyd a lles cadarnhaol

1.4 Cyflawni Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

1.5 Newid cydbwysedd gofal: lleoedd, pobl ac ymarfer

1.6 Diogelu lles plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n agored i niwed

**Crynodeb o Sefyllfa Perfformiad y Cynllun Corfforaethol ar Ddiwedd y Flwyddyn**




Mae'r camau a'r DPAau sydd wedi'u marcio'n Goch yn Chwarter 4 yn cael eu trafod yn y naratif isod, a gellir dod o hyd i'r sylwadau a'r canlyniadau llawn yn erbyn pob cam a DPA yn y Dangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol.

## Asesiad Cyffredinol

Mae'r Cyngor o'r farn bod cynnydd da wedi'i wneud o ran cyflawni ei ymrwymiadau i wneud Caerdydd yn lle gwych i gael eich magu mewn cyd-destun lle mae plant a phobl ifanc, a'r gwasanaethau y maent yn dibynnu arnynt, yn wynebu heriau newydd a sylweddol.

Mae'r Cyngor yn parhau i ddangos gwelliant parhaus yn ansawdd ac effeithiolrwydd addysg yng Nghaerdydd. Mae cyrhaeddiad disgyblion yn uwch neu'n llawer uwch na chyfartaledd Cymru, gwelliant sylweddol ers degawd; mae canlyniadau arolygu ysgolion yn dda, yn enwedig yn y sector cynradd; ac mae dull partneriaeth ar waith i gefnogi disgyblion ac ysgolion i achub ar y cyfleoedd ehangach y gall Caerdydd eu cynnig.

Mae cynnydd da yn cael ei wneud o ran diwygio'r trefniadau gwella ysgolion i sicrhau eu bod yn parhau i gefnogi ysgolion yn effeithiol a chyflawni canlyniadau o ansawdd da i ddysgwyr. Fel rhan o symudiad strategol Cyngor Caerdydd i fodel o wella ysgolion dan arweiniad lleol, mae gweithredu system Dysgu Caerdydd bellach wedi cyrraedd carreg filltir allweddol, gyda 100% o ysgolion Caerdydd wedi ymrwymo'n ffurfiol i'r fframwaith newydd. Cafodd y model ei gyd-greu ar ôl ymgysylltu helaeth a gyda threfniadau arweinyddiaeth reolaethol cryfach ar waith ar gyfer yr agenda allweddol hon.

Mae'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth agos ag ysgolion, cymunedau, partneriaid gwasanaethau cyhoeddus a phlant a phobl ifanc i ddatblygu ymatebion i amrywiaeth o heriau cymhleth a rhyng-gysylltiedig, gan gynnwys lefelau uchel o bresenoldeb ac eithriadau, oedi o ran datblygiad disgyblion a'r blynyddoedd cynnar, a phryderon cynyddol mewn perthynas ag iechyd a lles emosiynol. Fel sy'n digwydd ledled Cymru a'r DU, mae'r galw cynyddol am ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn arwain at alw uniongyrchol a her ariannol i ysgolion a'r system addysg ledled y ddinas, tra bod newidiadau demograffig a gostyngiad yn nifer y disgyblion yn her strategol i gynaliadwyedd ariannol y system addysg.

Trwy'r Rhaglen Buddsoddi Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu, gynt Ysgolion yr 21ain Ganrif, mae naw adeilad ysgol newydd wedi'u cwblhau ers mis Mai 2017, gyda disgwyl i chwe ysgol newydd agor erbyn 2027 (dwy ysgol uwchradd a phedair ysgol arbennig). Yn ogystal â hyn, mae cynigion ar gyfer pedair ysgol arall wedi'u cymeradwyo ac mae disgwyl iddynt gael eu hadeiladu erbyn 2030. Er gwaethaf y rhaglen fawr o fuddsoddi mewn ysgolion, mwy o fuddsoddiad mewn cynnal a chadw asedau a rhaglen effeithiol o gyflawni, mae cyflwr rhai adeiladau ysgol yn parhau i fod yn bryder ac mae'r pwysau ar y gyllideb cynnal a chadw asedau yn parhau i fod yn faes her sylweddol.

Mewn Gwasanaethau Plant, mae Caerdydd wedi gweld newid amlwg yn y cydbwysedd gofal i blant a phobl ifanc trwy waith ar draws pob agwedd ar y gwasanaeth, gan gynnwys ehangu ei wasanaeth maethu mewnol, gwell cymorth i weithwyr cymdeithasol a gweithredu'r Strategaeth Llety. Mae mwy o blant yn cael eu lleoli gyda gofalwyr maeth yr awdurdod lleol a bydd darpariaeth breswyl fewnol yn arwain at ganlyniadau gwell i blant.

Serch hynny, mae'r galw a'r pwysau ariannol ar Wasanaethau Plant yn parhau i gynyddu. Dros y degawd diwethaf cynyddodd nifer y plant mewn gofal i dros 1,000, gan gyfrannu at gynnydd o £47 miliwn yn y gyllideb, cynnydd o £52 miliwn i £99 miliwn ar gyfer y gwasanaeth dros y degawd diwethaf (cynnydd o 57% mewn termau real). Er bod nifer y plant mewn gofal bellach yn gostwng (er bod atgyfeiriadau i'r Hyb Diogelu Amlasiantaethol (MASH) wedi parhau i gynyddu), mae cymhlethdod y cymorth sydd ei angen ar lawer o blant a chost y cymorth a'r llety hyn wedi cynyddu.

Er bod llawer o wasanaethau i blant a phobl ifanc a ddarperir gan y Cyngor a'i bartneriaid yn perfformio'n dda, mae'r Cyngor yn cydnabod bod cyfleoedd yn bodoli i ymuno â nifer o systemau yn fwy effeithiol. Wrth symud ymlaen, pan fydd timau gwahanol yn gweithio gyda'r un person ifanc, bydd y Cyngor yn gweithio i ddatblygu golwg sengl o'r person ifanc hwnnw a'r gwasanaethau y maent yn cael mynediad iddynt. Bydd hyn yn darparu dealltwriaeth ar y cyd o'u hanghenion ac yn helpu i lywio llwybr cymorth cydlynol. Ac felly, bydd gweithio ar draws gwasanaethau'r Cyngor a phartneriaid i ddatblygu dulliau ataliol effeithiol yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor dros y tymor canolig.

## Meysydd Cynnydd

- Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran cyflawni ei Gynllun Cynaliadwyedd i gynnal ei safle fel Dinas sy'n Dda i Blant UNICEF, ac mae nifer yr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau wedi parhau i gynyddu.
- Mae cyrhaeddiad addysgol yn parhau i fod yn gryfder allweddol, gyda chanlyniadau Caerdydd ar lefel TGAU a Safon Uwch yn parhau i fod yn uwch ar gyfer graddau A* i A ac A* i C mewn cymwysterau CBAC.
- Mae pob dysgwr yng Nghaerdydd sydd â Datganiad o AAA (Anghenion Addysgol Arbennig) o dan y ddeddfwriaeth AAA wedi cael eu trosglwyddo i'r system ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol) newydd erbyn diwedd trydedd flwyddyn y rhaglen weithredu pedair blynedd.
- Cyflwynodd y Gwasanaeth Ieuenctid Raglen Pontio'r Haf lwyddiannus, ynghyd ag amrywiaeth eang o fentrau eraill i wella lles a dysgu pobl ifanc drwy gydol y flwyddyn, i gefnogi pobl ifanc i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. Gadawodd cyfanswm o 4,028 o bobl ifanc Flwyddyn 11 yn 2024/25. O'r rhain, cafodd 91.4% eu tracio mewn addysg, 4.1% eu tracio mewn hyfforddiant, 1.9% wedi'u tracio mewn cyflogaeth, gyda'r 2.6% oedd yn weddill yn NEET (Nad ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant). Mae hyn yn welliant ar flynyddoedd blaenorol.
- Mae Caerdydd wedi gweithio'n galed i wella'r sefyllfa presenoldeb ysgol ers y pandemig ac mae'n parhau i ddarparu gwell cymorth i ysgolion â blaenoriaeth. Mae data diwedd blwyddyn 2023/24 yn dangos bod Caerdydd yn 5ed o 22 awdurdod lleol yng Nghymru ar gyfer presenoldeb uwchradd (89.7%). O ran presenoldeb cynradd, mae hyn yn 92.4% a'r 9fed yng Nghymru, o flaen Abertawe a Chasnewydd. Mae'r ddau ganlyniad wedi gwella ar y flwyddyn flaenorol.
- Mae cynnydd da wedi'i wneud gyda rhaglen adeiladu ysgolion y Cyngor, gyda safleoedd yn Willows a The Court yn symud ymlaen yn ôl y cynllun gyda dyddiadau cwblhau disgwyliedig yn 2026. Mae'r Cyngor wedi sefydlogi materion ar Gampws Cymunedol y Tyllgoed ar ôl i'r contractwr, ISG Construction Ltd, wneud cais am weinyddiaeth. Er bod hyn wedi arwain at oedi, ailddechreuodd y gwaith adeiladu ym mis Tachwedd 2024 ac mae prif gontractwr newydd yn cael ei chwilio trwy ymarfer tendr.
- Mae'r Cyngor wedi dylunio swyddogaeth 'drws ffrynt' newydd, mewn partneriaeth â phartneriaid gwasanaethau cyhoeddus, a fydd yn symleiddio cysylltiadau â gwasanaethau cymorth cynnar ac ataliol, ynghyd â gwasanaethau statudol, gan sicrhau bod plant, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol sydd angen cyngor neu gymorth yn cael eu cyfeirio at y lle iawn y tro cyntaf.
- Mae gweithredu'r Strategaeth Llety wedi galluogi'r Cyngor i ofalu am fwy o blant sy'n derbyn gofal gan ddefnyddio darpariaeth fewnol yn hytrach na thrwy ddefnyddio darparwyr allanol.

- Yng nghyd-destun prinder gweithwyr cymdeithasol profiadol ledled y wlad, mae'r Cyngor wedi llwyddo i gynnal cyfradd swyddi gwag isel ar gyfer swyddi gwaith cymdeithasol parhaol mewn Gwasanaethau Plant. Er bod canlyniad 2024/25 (22.5%) yn gynnydd ar ganlyniad 2023/24 (15.8%), mae'r sefyllfa bresennol yn parhau i fod yn sylweddol is na'r cyfraddau swyddi gwag hanesyddol (er enghraifft, yn ostyngiad o uchafswm o 38.7% ym mis Mehefin 2020).
- Treialodd y Cyngor ei Brosiect Golwg Cyfun ar Blentyn, gan alluogi ymarferwyr mewn Gwasanaethau Plant i gael golwg fwy cyfannol ar blant a phobl ifanc trwy ddod â gwybodaeth o sawl cyngor a gwasanaeth cyhoeddus at ei gilydd mewn un lle.

## Meysydd Her a Risg

- Er eu bod yn dangos gwelliant, nid yw lefelau presenoldeb wedi dychwelyd i lefelau cyn y pandemig eto, gydag amrywiad rhwng ysgolion ac absenoldeb parhaus yn parhau i fod yn bryder mewn rhai ysgolion uwchradd. Nid yw nifer y gwaharddiadau cyfnod penodol fesul 1,000 o ddisgyblion mewn ysgolion cynradd hefyd wedi cyrraedd ei darged o lai na 16.5, gyda chanlyniad o 25.67; mewn ysgolion uwchradd mae'r gyfradd gwaharddiadau yn uwch ond yn nes at y targed, gyda chanlyniad o 96.6 yn erbyn targed o 99.3.
- Mae nifer y plant sy'n cael Addysg Ddewisol yn y Cartref wedi codi o 219 i 618 dros y pum mlynedd diwethaf, yn unol â thueddiadau cenedlaethol.
- Er bod 120 o leoedd ysgol arbenigol newydd ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) wedi'u creu yn ystod y flwyddyn, gyda'r gwaith yn dechrau ym mis Hydref 2024 ar gyfer 72 o leoedd eraill, nid yw'r lleoedd ychwanegol hyn yn bodloni'r galw cynyddol, gan arwain at ddysgwyr yn cael eu rhoi mewn darpariaeth allanol ddrud er mwyn diwallu eu hanghenion. Mae'r diffyg yn y ddarpariaeth arbenigol yn rhoi galw sylweddol a phwysau cyllidebol ar ysgolion y ddinas a gwasanaethau eraill. Mae'r cynnydd yn nifer y dysgwyr ADY sydd angen lleoliadau y tu allan i'r ddarpariaeth brif ffrwd hefyd yn gyrru pwysau cyllidebol sylweddol mewn trafnidiaeth rhwng y cartref a'r ysgol.
- Er bod canran yr holl ddisgyblion sy'n pontio'n llwyddiannus ar ôl yr ysgol yn agos at y targed, mae'r canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol (AHY) yn llawer llai na'u targedau. Mae canlyniadau ar gyfer AHY yn arbennig wedi gostwng ymhellach o'r targed bob blwyddyn am y tair blynedd diwethaf.
- Mae ysgolion yn wynebu heriau cyllidebol sylweddol ar hyn o bryd ac yn yr hirdymor, wedi'u gyrru gan newidiadau demograffig yn y ddinas a'r lefelau chwyddiant uchaf erioed.
- Mae cyflwr yr ystâd Addysg wedi'i uwchgyfeirio i Gofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor, gan dynnu sylw at bryderon ynghylch cyflwr asedau a'r symiau sylweddol sydd eu hangen i gynnal adeiladau ysgol pan fo adnoddau a chyllid yn brin.
- Mae sicrhau gwelliant parhaus mewn ysgolion yn wyneb heriau cyllidebol, mwy o alw yn sgil y pandemig a chyflawni diwygiadau cenedlaethol i'r cwricwlwm ac Anghenion Dysgu Ychwanegol yn parhau i fod yn her.
- Er gwaethaf y Strategaeth Llety sydd wedi arwain at leihau'r gwariant ar leoliadau allanol, mae Gwasanaethau Plant yn dal i wynebu pwysau cyllidebol acíwt, wedi'u gyrru gan alw mawr a chymhlethdod cynyddol achosion, gan arwain at leoliadau plant mwy costus.

## 1.1 Bod yn Ddinas sy'n Dda i Blant: Hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc

Caerdydd oedd y ddinas gyntaf yn y DU i dderbyn statws Dinas sy'n Dda i Blant gan UNICEF.  Er mwyn cynnal ei statws dinas sy'n dda i blant, mae'r Cyngor wedi cyflawni ei Gynllun Cynaliadwyedd tair blynedd yn effeithiol gyda chynnydd nodedig wedi'i wneud mewn nifer o feysydd allweddol, gan gynnwys:

- Cynyddu nifer y staff sy'n cwblhau hyfforddiant Hawliau Plant a datblygu'r hyfforddiant Asesiad Effaith ar Hawliau Plant (AEHP).
- Cwblhau ymarfer mapio cymunedol, dan arweiniad y Gwasanaeth Ieuenctid, i ddeall strwythur y ddarpariaeth ieuenctid ar draws cymunedau Caerdydd.
- Cynnal gweithdai ar leihau trais domestig a thrais ymhlith cyfoedion, a fynychwyd gan bron 2,000 o ddynion ifanc.
- Penodi aelod o Gyngor Ieuenctid Caerdydd i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol.

Mae'r Cyngor yn parhau i gefnogi ysgolion i ddod yn Ysgolion sy'n Parchu'r Hawliau, gydag 80.50% o ysgolion (103 ysgol) bellach wedi'u hachredu'n Ysgolion sy'n Parchu Hawliau yn Chwarter 4. O'r rhain, mae 61 o ysgolion wedi cyflawni lefel achrediad aur neu arian. Er bod y ddau ffigur yn llai na'u targedau blwyddyn lawn, mae'r dangosyddion hyn wedi dangos tuedd i fyny cyson dros y blynyddoedd diwethaf a disgwylir iddynt barhau i godi y flwyddyn academaidd hon. Mae ysgolion arian ac aur yn gwirio cynnydd sylweddol i weithredu dull addysg sy'n seiliedig ar hawliau trwy broses asesu allanol y mae ei hansawdd wedi'i sicrhau.

Yn Chwarter 4, mae 80.8% o staff y Cyngor wedi cwblhau'r Hyfforddiant Hawliau Plant yn erbyn targed corfforaethol o 85%. Mae'r Cynllun Cynaliadwyedd yn rhannu'r targed hwn dros dair blynedd; gyda'r targed ar gyfer blwyddyn 2 (blwyddyn gyfredol y cynllun) yn 70% yn dangos bod ymdrechion i gydymffurfio ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed llawn, sef 85%, erbyn blwyddyn 3 (2025/26).

## 1.2 Hawl i Ddysgu:  Darparu cyfleoedd addysgu a dysgu o safon i bawb

Mae'r Cyngor yn parhau i ddangos gwelliant parhaus yn ansawdd ac effeithiolrwydd addysg yng Nghaerdydd. Roedd canlyniadau cyrhaeddiad disgyblion yn uwch, neu'n llawer uwch, na chyfartaledd Cymru ar gyfer canlyniadau TGAU a Safon Uwch yn Haf 2024 ar gyfer canlyniadau A* i A ac A* i C yng nghymwysterau CBAC. O'r 128 o ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, mae pedair yng nghategori dilynol Estyn ar ddiwedd Chwarter 4, gan gynnwys un ysgol mewn mesurau arbennig; er bod hyn yn gynnydd o ddwy ysgol yn Chwarter 3, mae hyn yn dal i fod yn is na'r targed ar gyfer y mesur hwn (<5% o ysgolion). Cafodd cyfanswm o 14 ysgol eu harolygu ym mlwyddyn academaidd 2024/25, gan gynnwys 11 ysgol gynradd a thair ysgol uwchradd.

Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni Gweledigaeth Caerdydd 2030 wedi'i hadnewyddu yn y flwyddyn academaidd newydd (2025/26) yn unol â threfniadau Gwella Ysgolion newydd sydd wedi'u datblygu mewn cydweithrediad â phenaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr. Nod y model gwella newydd hwn yw sicrhau cynaliadwyedd a pharhad yn lefel y cymorth cwricwlwm i ysgolion, ac mae rhaglen newid tair blynedd wedi'i datblygu i drosglwyddo i'r model newydd.

Enwyd Ymrwymiad Caerdydd, sy'n darparu gweithgareddau a digwyddiadau ymgysylltu â gyrfa i bobl ifanc ledled y ddinas, yn Sefydliad y Sector Cyhoeddus y Flwyddyn yng Ngwobrau Symudedd Cymdeithasol 2024, gan gydnabod ei effaith sylweddol ar yrru symudedd cymdeithasol ledled y ddinas. Mae Tîm Addewid Caerdydd wedi parhau i gydlynu ystod o weithgareddau a gweithdai ledled y ddinas gyda'r nod o ennyn diddordeb disgyblion mewn opsiynau gyrfa, y mae llawer ohonynt wedi cael clod uchel gan y disgyblion a gymerodd ran ynddynt. Er enghraifft, dywedodd 82% o ddisgyblion fod gweithgareddau Wythnos Agor Eich Llygaid yn 'dda' neu'n 'ardderchog' gydag athrawon hefyd yn canu clod y sesiynau, gan roi sgôr ymgysylltu â disgyblion gyfartalog o 4.3 o 5. Er bod gweithgareddau wedi cael derbyniad da gan yr ysgolion hynny sydd wedi ymgysylltu, yn Chwarter 4 dim ond 73% o ysgolion (yn erbyn targed o 85%) sydd wedi ymgysylltu â phartneriaid Addewid Caerdydd. Mae'r rhesymau am hyn yn cynnwys cyfyngiadau staffio o fewn y tîm a achosir gan ansicrwydd swyddi a ariennir gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin (CFfG), a ffocws bwriadol ar ysgolion yn Arc Ddeheuol Caerdydd.

Mae Tîm y Cwricwlwm, sy'n gweithio i ddarparu profiadau dysgu cyfoethog i ddisgyblion yng Nghaerdydd, wedi parhau i ddarparu digwyddiadau o ansawdd uchel i ddisgyblion gymryd rhan ynddynt, gan amrywio o bynciau STEM i iechyd a lles i'r celfyddydau mynegiannol. Mae dros 1,000 o ddisgyblion wedi cymryd rhan mewn prosiectau sy'n seiliedig ar gelf, ac mae dros 1,000 yn fwy wedi ymgysylltu â mentrau cynaliadwyedd a gyflwynir fel rhan o ymrwymiadau Un Blaned Caerdydd y Cyngor.

Ym mlwyddyn academaidd 2023/24, gwnaeth 98.2% o bobl sy'n gadael yr ysgol drosglwyddo'n llwyddiannus i addysg bellach, cyflogaeth neu hyfforddiant; mae hyn yn ganlyniad cadarnhaol sydd ychydig yn brin o'r targed, sef 98.5%. Fodd bynnag, nid yw canlyniadau ôl-ysgol yn gyson ar draws carfannau eraill, yn enwedig ar gyfer y rhai sy'n derbyn Addysg Heblaw Yn yr Ysgol (AHY) a Phlant sy'n Derbyn Gofal (PDG), y mae'r gyfradd bontio lwyddiannus ar eu cyfer yn 65% ac 84.7% yn y drefn honno. Er bod canlyniad PDG yn gyson â chanlyniadau hanesyddol, mae canlyniad AHY yn cynrychioli tuedd ar i lawr sylweddol dros y 3-4 blynedd diwethaf (i lawr o 88.5% yn 2021/22, er enghraifft).

Er mwyn cefnogi datblygiad uwch arweinwyr ym maes addysg, gan gynnwys penaethiaid, mae Rhaglen Penaethiaid Caerdydd wedi'i dylunio mewn cydweithrediad â Chonsortiwm Canolbarth y De; disgwylir i'r rhaglen gael ei lansio ym mis Medi 2025. Mae'r rhaglen yn cynnwys cynnig hyfforddiant a datblygu pwrpasol wedi'i dylunio ar gyfer penaethiaid newydd yng Nghaerdydd, sy'n cyd-fynd â'r cynnig Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol. Bydd rhaglen debyg hefyd yn cael ei datblygu ar gyfer dirprwy benaethiaid newydd eu penodi.

Mae Gwasanaethau Llywodraethwyr wedi ehangu eu rhwydwaith o hyrwyddwyr i gefnogi ei fenter amrywiaeth, gan hyrwyddo pwysigrwydd llywodraethwyr ysgolion a'u rôl yn yr ysgol a'r gymuned leol. Yn Chwarter 4, cynhaliwyd digwyddiadau i ennyn diddordeb mewn rolau llywodraethwyr, gyda dros hanner y mynychwyr yn mynegi diddordeb yn y rolau, a nifer bach yn mynd ymlaen i wneud cais am rolau, gyda thri o'r rhain yn arwain at benodiadau. Yn Chwarter 4, mae 70 o'r 122 o gyrff llywodraethu a arolygwyd wedi penodi i rôl llywodraethwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a bydd dyrchafiad parhaus yn parhau yn y flwyddyn i ddod i gynyddu hyn ymhellach.

## 1.3 Lles, Tegwch a Chynhwysiant: Sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn barod ac yn gallu dysgu, a bod ganddynt iechyd a lles cadarnhaol

Mae'r Cyngor wedi codi i'r her o bwysau'r galw ar y system addysg, gan flaenoriaethu lles disgyblion. Yn dilyn gostyngiad mewn cyfraddau presenoldeb yn ystod pandemig Covid-19, mae ysgolion cynradd ac uwchradd wedi dangos gwelliant ym mlwyddyn academaidd 2023/24. Cynyddodd presenoldeb ysgolion cynradd i 92.5%, i fyny o 91.7% yn 2022/23, tra bod presenoldeb ysgolion uwchradd wedi cynyddu i 88.9%, o'i gymharu ag 88.2% yn y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, nid yw cyfraddau presenoldeb yn gyson ledled y ddinas, gyda rhai ysgolion ymhellach o'r targed nag eraill. Mae absenoldeb parhaus (lle mae disgybl yn absennol yn fwy na 50% o'r amser) hefyd wedi gostwng ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd, er bod hyn yn dal i fethu'r targed ar gyfer ysgolion uwchradd (canlyniad o 3.4% yn erbyn targed o <2.5%). Mae'r gwelliannau cyson hyn o flwyddyn i flwyddyn yn awgrymu bod pethau'n dychwelyd yn raddol i lefelau presenoldeb cyn y pandemig ac yn tynnu sylw at effeithiolrwydd mentrau dan arweiniad ysgolion, y Gyfarwyddiaeth Addysg a'r Gwasanaeth Lles Addysg (GLIA). Yn ystod y flwyddyn, mae'r GLIA wedi parhau i yrru gwelliannau trwy'r ymgyrch cyfryngau 'Back on Track', adolygiadau absenoldeb parhaus rheolaidd, a chymorth presenoldeb wedi'i dargedu i ysgolion. Ar gyfer yr ysgolion hynny sydd wedi'u targedu gyda mwy o gymorth, mae pump o'r chwe ysgol gynradd wedi dangos gwelliant, ac mae chwech o'r saith ysgol uwchradd wedi dangos gwelliant. Yn Chwarter 4, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru estyniad pum mlynedd i'r Grant GLIA, gan leddfu'r risg o ran adnoddau'r swyddogaeth hon.

Ar gyfer carfan y Cyngor o ddisgyblion sy'n derbyn Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY), mae casglu data presenoldeb cywir wedi bod yn flaenoriaeth ar gyfer gwella yn ystod y flwyddyn. Mae Offeryn Casglu Presenoldeb wedi'i ddatblygu gan yr Ysgol Rithwir Plant sy'n Derbyn Gofal, ac mae mwy o gyfathrebu wedi'i sefydlu rhwng y Cyngor a darparwyr AHY gan arwain at system fonitro presenoldeb fwy cadarn.

Mae'r cyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol wedi dangos gwelliant mewn ysgolion cynradd (19.9 fesul 1,000 o ddisgyblion) ac uwchradd (83.3 fesul 1,000 o ddisgyblion) ym mlwyddyn academaidd 2023/24. Fodd bynnag, mae cyfraddau gwahardd yn dal i fod yn uwch na'u lefelau cyn y pandemig. Yn 2018/19, roedd gwaharddiadau cynradd ar gyfradd o 15.0 fesul 1,000 o ddisgyblion ac roedd gwaharddiadau uwchradd ar gyfradd o 49.9 fesul 1,000 o ddisgyblion. Y prif resymau dros waharddiadau yw ymddygiad aflonyddgar, trais a cham-drin geiriol.

Mae'r symudiad o'r hen system Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) i'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd wedi'i gwblhau. Mae hyn wedi'i gyflawni ymhell cyn yr amserlen a osodwyd gan Lywodraeth Cymru (Gorffennaf 2025) fel rhan o ddiwygio'r system ADY ledled Cymru.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wella'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer cymorth iechyd emosiynol a lles i ysgolion a dysgwyr. Yn ystod y flwyddyn, mae pob ysgol wedi cael cynnig cymorth i weithredu Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer Ymgorffori Dull Ysgol Gyfan o Ymdrin â Lles Emosiynol a Meddyliol (DYGYLIEM) trwy gwblhau hunanwerthusiad, gan nodi'r meysydd gwella i fynd i'r afael â nhw. Mae cymorth wedi'i ddarparu i ysgolion ar ffurf sesiynau un-i-un, cyfarfodydd clwstwr a chyfarfodydd rhwydwaith. Ym mis Mawrth 2025, mae gan 87% o ysgolion gynllun gweithredu ar waith, sy'n golygu mai rhanbarth Caerdydd a'r Fro yw'r rhanbarth sy'n perfformio orau yng Nghymru.

Mae'r Cyngor yn cefnogi ysgolion i wella adrodd am achosion o fwlio, troseddau casineb, digwyddiadau casineb, aflonyddu, hiliaeth a gasleitio. Er bod un system yn cael ei defnyddio ar draws Caerdydd i gofnodi digwyddiadau, nid yw'r arfer cofnodi yn gyson ym mhob ysgol. Yn Chwarter 4, mae 63 o ysgolion yn defnyddio'r system mewn ffordd sy'n galluogi cynhyrchu adroddiadau agregedig, gyda chyfanswm o 654 o ddigwyddiadau wedi'u cofnodi rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2025. Mae'r gyfarwyddiaeth Addysg yn parhau i weithio gydag ysgolion i wella cysondeb cofnodi ac adrodd.

Mae nifer y plant sy'n derbyn Addysg Ddewisol yn y Cartref (ADdC) yng Nghaerdydd bron wedi treblu dros y pum mlynedd diwethaf, gan greu heriau sylweddol o fewn y system addysg. Yn 2019, roedd 219 o blant yn y garfan hon, ffigur sydd wedi codi i 618 yn Chwarter 4 2024/25. Mae'r rheswm mwyaf cyffredin dros ADdC wedi'i gofnodi fel "Ffordd o Fyw/Ideolegol/Athronyddol", er yn Chwarter 4 "Gorbryderus/Ffobig" oedd y rheswm mwyaf cyffredin dros ddysgwyr ADdC newydd eu cofrestru. Mae'r Tîm ADdC yn parhau i weithio gydag ysgolion a theuluoedd i dracio a monitro'r garfan hon, ac i annog dychwelyd i addysg brif ffrwd lle bo hynny'n briodol. Mewn achosion lle nad yw darpariaeth cartref teulu yn cael ei hystyried yn ddigonol, mae'r Tîm ADdC yn cyflwyno Gorchymyn Presenoldeb Ysgol, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r plentyn ddychwelyd i'r ysgol brif ffrwd.

Mae'r fenter "Pasbort i'r Ddinas" yn parhau i roi cyfleoedd i Blant sy'n Derbyn Gofal (PDG) i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, addysgol a hamdden, gan feithrin cynhwysiant a thwf personol trwy ddysgu drwy brofiad. Yn ystod y flwyddyn, cefnogwyd dysgwyr PDG i gael mynediad i ystod eang o weithgareddau ac adnoddau ledled y ddinas, gyda chydweithrediad gan nifer o wasanaethau a phartneriaid gan gynnwys Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd, Canolfan Mileniwm Cymru, Stadiwm Dinas Caerdydd, Stadiwm Principality a Stiwdios y BBC. Mae ap Pasbort i'r Ddinas yn cael ei ddatblygu a fydd, unwaith y bydd yn fyw, yn galluogi defnyddwyr i weld y gwahanol ddigwyddiadau a gweithgareddau sy'n digwydd ledled y ddinas.

Bu cynnydd sylweddol yn nifer y teuluoedd sy'n hunanatgyfeirio i'r cynllun peilot Tîm o amgylch y Clwstwr, wedi'i yrru gan fwy o ymwybyddiaeth o'r fenter Ysgolion Bro mewn ysgolion peilot. Mae'r Swyddog Cyswllt yn gallu cysylltu teuluoedd â gwasanaethau allweddol fel Cymorth Cynnar, Gwasanaethau Plant, y Gwasanaeth Ieuenctid, SNAP Cymru, Shelter, y Tîm Cyngor Ariannol, a thimau tai awdurdodau lleol, gan hwyluso cymorth effeithiol a thargedu i'r rhai mewn angen. Mae'r model hwn yn galluogi ymyriadau ataliol lefel is trwy gynghorwyr mewn ysgolion mewn achosion a allai fod fel arall wedi'u huwchgyfeirio at wasanaethau statudol. Thema gyffredin sy'n dod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn y mae teuluoedd yn ceisio cymorth yw anghenion niwroddatblygiadol canfyddedig.

## 1.4 Cyflawni Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

Mae'r Cyngor wedi buddsoddi'n sylweddol mewn mannau dysgu, wrth ddatblygu safleoedd ysgolion newydd a chynnal ysgolion presennol. Mae'r Cyngor hefyd wedi dangos ei ymateb i heriau newydd, er enghraifft trwy greu lleoedd ADY ychwanegol. Fodd bynnag, mae heriau'n parhau mewn perthynas â'r ystâd ysgolion, gan gynnwys nifer is o dderbyniadau mewn rhai ysgolion ac ôl-groniad gwaith cynnal a chadw sylweddol heb ei wneud.

Mae proffil poblogaeth newidiol Caerdydd yn creu heriau i ysgolion newydd a phresennol. Er bod dros 6,000 o anheddau newydd wedi'u creu yng Nghaerdydd dros y 10 mlynedd diwethaf, mae cyfraddau geni wedi gostwng 23.6%, gan arwain at leoedd dros ben mewn ysgolion cynradd. Yn y cyfamser, mae'r angen am leoedd ysgol arbenigol i ddiwallu anghenion dysgwyr ag ADY yn fwy na nifer y lleoedd ADY ychwanegol sy'n cael eu creu, sy'n golygu bod llawer o ddisgyblion ar hyn o bryd yn cael eu rhoi mewn darpariaeth annibynnol ar gost sylweddol i'r Cyngor, ac mae hefyd yn cyfrannu at bwysau cost sylweddol mewn costau cludiant rhwng y cartref a'r ysgol. Mae'r Cyngor yn parhau i ddarparu lleoedd ADY ychwanegol trwy'r Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion, er bod perfformiad yn 2024/25 ychydig yn brin o'r targed, gyda 120 o leoedd wedi'u creu yn erbyn targed o 132. Fodd bynnag, dechreuodd y gwaith ym mis Hydref 2024 i ddatblygu lleoedd ADY ychwanegol, y tu allan i'r rhaglen, gan gynnwys 42 o leoedd ar gyfer ysgolion cynradd a 30 o leoedd ar gyfer ysgolion uwchradd.

Trwy Strategaeth Buddsoddi mewn Addysg Caerdydd 2024-2033, mae'r Cyngor wedi nodi ei fframwaith strategol ar gyfer buddsoddi yn system addysg Caerdydd. Mae cynllunio yn dilyn model hyblyg, addasadwy wedi'i seilio ar raglen dreigl o ddatblygu, yn hytrach na strwythur o 'fandiau' sefydlog o brosiectau a ddefnyddir yn y rhaglenni hyd yn hyn. Mae'r strategaeth wedi'i halinio â Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru a Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSCA) gan ganolbwyntio ar adeiladau newydd carbon sero net a gwaith adnewyddu mawr.

Er bod prosiectau Ysgol y Court ac Ysgol Uwchradd Willows yn mynd rhagddynt yn dda, ym mis Medi 2024 gwnaeth ISG Construction Ltd, y contractwr sy'n gyfrifol am ddarparu Campws Cymunedol y Tyllgoed, sy'n rhan o Raglen Band B y Cyngor, gais am weinyddiaeth. Mae Campws y Tyllgoed yn brosiect seilwaith pwysig i Gaerdydd, ac yn un o'r cynlluniau addysg mwyaf yn y DU, sy'n darparu cyfleusterau dysgu o'r radd flaenaf ar gyfer sawl ysgol, ar gyfer darpariaeth Anghenion Dysgu prif ffrwd ac Anghenion Dysgu Ychwanegol fel ei gilydd. Ym mis Tachwedd 2024, yn dilyn trafodaethau helaeth, ailddechreuodd y gwaith adeiladu ar y safle gyda'r prif isgontractwr, BESL, a bydd y sefyllfa'n cael ei hystyried gan y Cabinet yn ystod 2025/26.

Mae cyflwr rhai adeiladau ysgol yn parhau i fod yn heriol. Yn Chwarter 4 cafodd cyflwr yr ystâd addysg ei uwchgyfeirio fel risg gorfforaethol yn dilyn rhai materion iechyd a diogelwch sylweddol sydd wedi arwain at gau ac adleoli. Yn gyfan gwbl, roedd 51 diwrnod pan oedd ysgolion ar gau yn 2024/25 oherwydd problemau adeiladu. Mae cais o £15m yn cael ei brosesu i fynd i'r afael â'r problemau cyflwr mwyaf dybryd yn ysgolion Caerdydd. Trwy gydol y flwyddyn, bydd cynlluniau yn canolbwyntio ar faterion iechyd a diogelwch brys na ellir eu lliniaru, ac mae llywodraethu gwell wedi'i roi ar waith i nodi a rheoli materion o'r fath yn wythnosol.

Mae ysgolion yn parhau i wynebu heriau cyllidebol sylweddol. Er bod y Cyngor yn darparu cyllid i ysgolion uwchlaw lefel setliad Llywodraeth Cymru, mae chwyddiant wedi dibrisio pŵer gwario ysgolion tra bod y galw cynyddol gymhleth – megis y nifer uchel o ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol gyda chostau cludiant cysylltiedig rhwng y cartref a'r ysgol – wedi rhoi pwysau pellach ar gyllidebau ysgolion. Yn ogystal â hyn, mae proffil demograffig sy'n newid ar draws y ddinas, a nodweddir yn rhannol gan gyfraddau geni is, yn cynyddu nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion, yn bennaf yn y blynyddoedd cynharach mewn ysgolion cynradd. Mae costau atgyweiriadau a chyfleustodau hefyd yn cyfrannu at bwysau ariannol mewn ysgolion. Mae gan y Cyngor Brotocol Ysgol mewn Diffyg ar waith – proses gydweithredol lle mae ysgolion yn gweithio'n agos gyda chyfarwyddiaeth Addysg a Thîm Cyllid Corfforaethol y Cyngor – i sicrhau bod cyllidebau'n cael eu rheoli'n gynaliadwy.

## 1.5 Newid cydbwysedd gofal: lleoedd, pobl ac ymarfer

Mae'r Cyngor wedi parhau i gyflawni ei Strategaeth Ymdrechu am Ragoriaeth mewn Gwasanaethau Plant, gan arwain at newid cadarnhaol amlwg yng nghydbwysedd gofal i blant a phobl ifanc. Rhennir y Strategaeth yn dair ffrwd waith: *lleoedd*, gyda'r ffocws ar sicrhau bod amrywiaeth o gymorth yn y gymuned ac amrywiaeth o gartrefi i blant ar gael yng Nghaerdydd; *pobl*, gyda'r ffocws ar sicrhau gweithlu gofal cymdeithasol parhaol yn bennaf a'i ddefnyddio lle mae ei angen; ac *ymarfer*, gyda'r ffocws ar ddefnyddio modelau cyflawni arloesol a gwaith partneriaeth effeithiol i wella canlyniadau i bobl ifanc. Un o brif sbardunau ar gyfer y gwaith hwn yw digonolrwydd lleoliadau ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth. Nod y Cyngor yw cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Nghaerdydd yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gael gwared ar elw o ofal plant sy'n derbyn gofal.

Mae'r mentrau sydd ar y gweill yn cynnwys:

- gweithredu Model y Lle Cywir. Mae dau gartref wedi'u nodi fel canolfannau ar gyfer y model: un ar gyfer plant ifanc ac un ar gyfer plant hŷn, gyda'r cyntaf wedi'i gofrestru'n llwyddiannus gan Arolygiaeth Gofal Cymru a'r ail yn mynd trwy'r broses gofrestru ar hyn o bryd. Mae'r model asesu yn cael ei ddatblygu, a bydd y camau nesaf yn cynnwys deall y cymorth seicolegol y dylid ei gynnig trwy'r model cyflawni hwn,
- gwelliannau i'r Gwasanaeth Maethu, gan gynnwys symleiddio'r broses ymgysylltu â gofalwyr maeth a rhaglen cyfathrebu a hyrwyddo gofal maeth,
- gwneud y defnydd mwyaf o fanteision gwaith cymdeithasol lleol, gan gadw gwasanaethau i blant yn agos at eu cartrefi,
- sicrhau bod y Cyngor yn gweithio gyda theuluoedd gan ddefnyddio'r lefel isaf o ymyrraeth ddiogel, gan gefnogi plant i aros gyda'u teuluoedd, neu ddychwelyd adref iddynt, lle mae er eu budd gorau i wneud hynny,
- cyflawni'r Strategaeth Llety i gynyddu'r ddarpariaeth i blant yng Nghaerdydd, gan gynnwys capasiti mewnol y Cyngor ar gyfer lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a gweithio gyda darparwyr i ddarparu gwasanaethau ar ein rhan.

Mae llwyddiant ymdrechion i hyrwyddo Gwasanaeth Maethu mewnol y Cyngor yn amlwg yn y tueddiadau a welwyd dros y tair i bedair blynedd diwethaf sy'n dangos cynnydd yn nifer y plant sydd wedi'u lleoli gyda gofalwyr awdurdodau lleol, a gostyngiad yn nifer y plant sydd wedi'u lleoli gyda gofalwyr allanol. Ceisir patrwm tebyg ar gyfer gofal preswyl, ac mae'r Cyngor yn gweithio ar gyflawni hyn trwy weithredu Cam 2 y Strategaeth Llety. Mae'r dull newydd hwn wedi'i nodi yn y Strategaeth Comisiynu Cartrefi i Blant[4]. Dros y flwyddyn i ddod, bydd y Cyngor yn gweithio gyda darparwyr nid-er-elw i ddarparu cartrefi newydd yng Nghaerdydd i blant Caerdydd. Yn ogystal, mae Gwasanaethau Plant wedi gwneud cynnydd da o ran cefnogi plant i ddychwelyd adref o ofal, lle mae'n briodol gwneud hynny, gyda 104 o blant yn dychwelyd adref yn 2024/25, gan ragori ymhell ar y targed, sef 70.

Yn ogystal â phwysau'r galw lleol y mae'r Strategaeth Ymdrechu am Ragoriaeth mewn Gwasanaethau Plant yn gweithio i fynd i'r afael â nhw, mae rhai penderfyniadau polisi cenedlaethol yn arwain at bwysau ychwanegol ar y system Gwasanaethau Plant, gan gynnwys ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gael gwared ar elw o ofal plant sy'n derbyn gofal, ac ehangu'r Strategaeth Awtistiaeth Genedlaethol i gynnwys pob math o niwroamrywiaeth. Yn y cyfamser, wrth i'r galw cynyddol a'r pwysau ariannol effeithio ar bob rhan o'r sector cyhoeddus, mae partneriaid hefyd yn lleihau eu gwasanaethau, gan adael Gwasanaethau Plant yn fwyfwy fel gwasanaeth y dewis olaf.

Trwy gydol y flwyddyn, mae'r Cyngor wedi parhau i weithio gyda Bwrdd Iechyd y Brifysgol i ddatblygu darpariaeth gydweithredol o wasanaethau i blant sydd â phroblemau iechyd meddwl a lles emosiynol difrifol. Mae model cyflawni newydd wedi'i gytuno gyda phartneriaid ac mae ar waith. Mae llwybrau wedi'u datblygu i nodi sut y gall plant a phobl ifanc gael mynediad i gymorth ym maes Iechyd, gan dynnu sylw at ble y gellir dod o hyd i gymorth, sut mae timau'n gweithio gyda'i gilydd, a phwy y gall staff gysylltu â nhw mewn argyfwng. Yn ogystal, mae arweinydd clinigol newydd ar gyfer Tîm Goleudy Gwasanaethau Plant wedi'i benodi.

Mae'r Cyngor wedi diweddaru ei Strategaeth Rhianta Corfforaethol ar gyfer 2025-28, sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod plant yng ngofal yr awdurdod lleol yn cael yr un cyfleoedd – a gellir eu cefnogi i gyflawni'r un canlyniadau – â phlant eraill. Mae hyn wedi golygu cydweithredu'n agos ag ystod eang o wasanaethau'r Cyngor i ddatblygu cynnig cynhwysfawr o gymorth. Rhannwyd y strategaeth wedi'i hadnewyddu gyda'r Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol (CPAC) ym mis Mawrth 2025 ac unwaith y bydd wedi'i chwblhau, bydd yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet.

Er bod cynnydd wedi'i wneud o ran cyflawni'r Cynllun Gweithredu Gweithlu Gwasanaethau Plant i fynd i'r afael ag argyfwng cenedlaethol o ran y gweithlu gofal cymdeithasol, yn 2024/25 mae cyfraddau gweithwyr cymdeithasol gwag wedi cynyddu (i 22.5% yn Chwarter 4), gan fethu â chyrraedd y targed o <15%. Fodd bynnag, mae'r lefelau hyn yn dal i fod yn welliant sylweddol ar berfformiad hanesyddol (o 2023 ac yn gynharach). Yn ogystal, mae'r gwasanaeth yn parhau â'r gwaith i "dyfu ein gweithwyr cymdeithasol ein hunain", gyda'r disgwyl y bydd 15 o fyfyrwyr yn cyflawni eu cymwysterau gwaith cymdeithasol yn ddiweddarach yn y flwyddyn galendr.

Mae cyflwyno'r Strategaeth Cyfiawnder Ieuenctid, 'Adeiladu Dyfodol Mwy Diogel Gyda'n Gilydd', a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig, wedi parhau gyda phartneriaid trwy gydol y flwyddyn. Prif nodau'r strategaeth yw lleihau troseddau ieuenctid a gwella canlyniadau i bobl ifanc sy'n ymwneud â'r gwasanaeth. Er bod nifer y rhai sy'n ymgeisio am y tro cyntaf i'r system cyfiawnder ieuenctid (41 yn 2024/25, yn erbyn targed o 60) a chyfraddau aildroseddu (16.7% yn Chwarter 3 (canlyniad diweddaraf), yn erbyn targed o 40%) yn isel, cydnabyddir , er bod rhai o blant mwyaf agored i niwed y ddinas wedi cael eu dargyfeirio'n gywir o'r system cyfiawnder ieuenctid, fod pwysau mawr ar bob gwasanaeth yng Nghaerdydd i ganolbwyntio mwy ar gymorth ataliol sy'n seiliedig ar drawma ar gyfer carfan gynyddol o bobl ifanc ag anghenion cymhleth.

---

[4] Strategaeth Comisiynu Cartrefi i Blant

## 1.6 Diogelu lles plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n agored i niwed

Mae diogelu yn parhau i fod yn brif flaenoriaeth i'r Cyngor ac mae gwaith sylweddol wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn i werthuso a datblygu prosesau mewnol a phartneriaeth, gan wella taith y plentyn trwy'r system gofal cymdeithasol.

Yn dilyn adolygiad o'r pwyntiau cyswllt i wasanaethau'r Cyngor ar gyfer y rhai sy'n chwilio am gymorth a chefnogaeth i deuluoedd, plant a phobl ifanc, mae Hyb Cyngor, Cymorth a Diogelu i Deuluoedd Caerdydd (HCCDDC) newydd wedi'i ddatblygu, gyda dyddiad lansio wedi'i drefnu ar gyfer mis Ebrill 2025. Mae'r swyddogaeth newydd hon yn integreiddio'r Hyb Diogelu Amlasiantaethol (MASH) a'r Porth Teuluoedd mewn llwybr un mynediad, gan symleiddio'r cynnig gwasanaeth i deuluoedd ac i weithwyr proffesiynol, a symleiddio'r prosesau cyswllt ac atgyfeirio. Mae'r model newydd wedi'i ddylunio i gynyddu'r defnydd o wasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol mewn achosion lle gallai atgyfeiriadau fod wedi cael eu hanfon yn syth at wasanaethau cymdeithasol o'r blaen.

Yn 2024/25, gwelodd y Gwasanaethau Plant welliant yng nghanran yr ymholiadau amddiffyn plant a gwblhawyd ar amser (hyd at 54.4% yn Chwarter 4 o 41.1% yn Chwarter 1). Er bod hyn yn dal i fod yn brin o'r targed blwyddyn lawn o 60%, bydd y gwaith yn parhau yn 2025/26 i adeiladu ar y cynnydd hyd yma a gwella amseroedd cwblhau ymhellach yn erbyn y targed perfformiad corfforaethol. Mae canran y plant sy'n cael eu hailgofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o fewn 12 mis hefyd wedi methu â'i tharged (canlyniad o 8.2% yn erbyn targed o 6%), ond mae'n bwysig nodi bod y mesur hwn yn delio â niferoedd bach iawn o blant, sy'n golygu bod hyd yn oed un teulu mawr sy'n cael ei ailgofrestru yn gallu cael effaith sylweddol ar y canlyniad.

Yn Chwarter 4, llwyddodd y Cyngor i gyflwyno ei Brosiect Golwg Sengl ar Blentyn gyda swyddogion dethol yn y Gwasanaethau Plant, gan gynnwys y rhai a fydd yn rhan o'r model HCCDDC newydd. Mae'r prosiect hwn yn defnyddio warysau data a delweddu data i sicrhau bod ymarferwyr gofal cymdeithasol yn gallu cael hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt am blant a phobl ifanc pan fydd ei hangen arnynt.

# Amcan Lles 2:

## Mae Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn

**Ein blaenoriaethau yn 2024/25 oedd:**

2.1 Cefnogi pobl hŷn i gadw'n heini ac yn gysylltiedig mewn Dinas sy'n Dda i Bobl Hŷn

2.2 Cefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol gartref trwy wasanaethau ataliol sy'n seiliedig ar gryfderau

2.3 Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gofal a chymorth cynaliadwy o ansawdd uchel

2.4 Cefnogi gofalwyr di-dâl a gwerthfawrogi eu rôl

2.5 Sicrhau bod ein gwasanaethau'n diwallu anghenion y rhai mwyaf agored i niwed

**Crynodeb o Sefyllfa Perfformiad y Cynllun Corfforaethol ar Ddiwedd y Flwyddyn**




Mae'r camau a'r DPAau sydd wedi'u marcio'n Goch yn Chwarter 4 yn cael eu trafod yn y naratif isod, a gellir dod o hyd i'r sylwadau a'r canlyniadau llawn yn erbyn pob cam a DPA yn y Dangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol.

## Asesiad Cyffredinol

Mae'r Cyngor o'r farn ei fod wedi gwneud cynnydd da yn erbyn ei ymrwymiadau i wneud Caerdydd yn lle gwych i dyfu'n hŷn ac mae wedi gwneud cynnydd amlwg wrth gyflwyno dull system gyfan o atal ac ailalluogi, a chefnogi pobl i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau.

Fel sy'n wir ledled y DU, dros y degawd nesaf disgwylir i nifer y bobl hŷn yng Nghaerdydd gynyddu'n sylweddol, gyda'r amcanestyniad y bydd nifer y rhai dros 65 oed yn cynyddu 16.5%, gyda nifer y rhai dros 85 oed yn cynyddu 28.84% a nifer y rhai 90 oed yn cynyddu 17.2%. Rhagwelir y bydd nifer y bobl dros 65 oed sy'n byw gyda dementia yn cynyddu 30.2%, a bydd y rhai â dementia difrifol yn cynyddu 35.9%. Mae'r cynnydd hyn yn nifer y bobl hŷn, ac yn enwedig y rhai â dementia, eisoes yn gyrru mwy o alw a phwysau costau. Mewn ymateb, mae'r Cyngor wedi gosod Strategaeth Heneiddio'n Dda, dull system gyfan sy'n canolbwyntio ar Atal, Ailalluogi a Sicrhau Maint Cywir a symud o reoli argyfwng i gynllunio gofal effeithiol. Mae'r dull hwn wedi'i ymgorffori mewn rhaglen o newid gwasanaeth sydd â'r nod o ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol cynaliadwy i oedolion yn y dyfodol. Fel rhan o'r rhaglen newid hon, mae model Aseswr Dibynadwy a'r defnydd cynyddol o Therapyddion Galwedigaethol wedi'u mabwysiadu i asesu a rhagnodi gofal, gan alluogi gweithwyr cymdeithasol i ganolbwyntio ar yr achosion mwy cymhleth a lleihau nifer y bobl sy'n aros am asesiad a lleihau'r angen am ofal trwy ddefnyddio cymhorthion, offer a gofal sy'n cael ei alluogi trwy dechnoleg.

Mae agenda ataliol y Cyngor yn cael ei hategu gan ddull trawsgyngor, yn enwedig mewn cydweithrediad â'r rhaglen datblygu tai, a fydd yn darparu 620 o fflatiau i bobl hŷn ar draws 12 cynllun, y bydd rhai ohonynt yn cael gofal ar y safle. Mae ystod eang o weithgareddau a digwyddiadau i helpu pobl hŷn i gadw'n heini ac yn gysylltiedig yn cael eu darparu trwy ein rhwydwaith o hybiau cymunedol. Mae trefniadau partneriaeth cryf hefyd gyda'r sector gofal, partneriaid gwirfoddol a chymunedol ac, yn hollbwysig, gyda Bwrdd Iechyd y Brifysgol. Mae cynnydd wedi'i wneud o ran cyflawni'r dull hwn, fel y dangosir gan gyfradd yr oedi o ran llwybrau gofal, gyda'r canlyniad bod oedi wrth ryddhau o'r ysbyty fesul 100,000 o'r boblogaeth yn is yng Nghaerdydd nag mewn unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru. O ystyried y galw uniongyrchol a hirdymor a'r pwysau ariannol cysylltiedig sy'n wynebu'r Cyngor a'i bartneriaid, bydd gwelliant parhaus yn y maes hwn yn parhau i fod yn flaenoriaeth gorfforaethol ar gyfer 2025/26.

## Meysydd Cynnydd

- Mae proffil Caerdydd fel dinas sy’n dda i bobl hŷn wedi parhau i wella, gydag enghreifftiau o arferion Sy’n Dda i Bobl Hŷn Caerdydd wedi’u cyhoeddi ar wefan Age-Friendly World Sefydliad Iechyd y Byd.
- Mae cynnydd da wedi’i wneud o ran cymorth y Cyngor i ofalwyr. Cafodd 94% o ofalwyr cymwys gynnig asesiad gofalwr yn ystod y flwyddyn ac mae Corneli Gofalwyr bellach i’w gweld ym mhob Hyb a Llyfrgell, sy’n darparu taflenni gwybodaeth i’r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu. Mae nifer y cylchlythyrau Dinas Gofal sy’n cael eu cylchredeg wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ac mae gwasanaeth gwirfoddol newydd sy’n darparu cymorth i ofalwyr di-dâl, Caring Friends, wedi’i lansio.
- Yn y Gwasanaethau Oedolion, bu gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn yng nghanran y swyddi gweithwyr cymdeithasol parhaol gwag. Dim ond 12.75% oedd hyn yn Chwarter 4, y gyfradd isaf a gyflawnwyd hyd yn hyn.
- Mae Model Asesydd Dibynadwy y Cyngor yn dangos tystiolaeth o lwyddiant, gan hwyluso prosesau mwy priodol o ryddhau o’r ysbyty ac yn lleihau ôl-groniadau gwaith cymdeithasol.
- Mae Caerdydd yn perfformio’n dda yng nghyd-destun ehangach Cymru o ran rhyddhau o’r ysbyty. Ym mis Mai 2025, adroddodd Llywodraeth Cymru fod oedi o ran gofal yng Nghaerdydd yn effeithio ar 34 fesul 100,000 o’r boblogaeth oedolion; dyma’r canlyniad gorau yng Nghymru, ac ymhell yn is na chyfartaledd Cymru, sef 54.
- Bu cynnydd yng nghanran y bobl sy’n fodlon ar Ofal Cymdeithasol i Oedolion – hyd at 71% o 66% y llynedd.

## Meysydd Her a Risg

- Wrth i boblogaeth Caerdydd heneiddio, yn unol â’r tueddiadau yr arsylwir arnynt yn genedlaethol, rhagwelir y bydd y galw am Wasanaethau Oedolion yn cynyddu, yn enwedig i’r rhai sy’n byw gyda dementia a’r rhai sydd angen cymorth gyda gweithgareddau pob dydd. Bydd hyn yn parhau i roi straen ar y system iechyd a gofal cymdeithasol yn y blynyddoedd i ddod.
- Er bod y cyflenwad gofal yn dda yn gyffredinol, mae nifer o faterion sy’n effeithio ar gynaliadwyedd y farchnad gofal cartref. Mae gormod o staff yn y sector yng Nghaerdydd heb ddigon o waith i gefnogi’r holl ddarparwyr ac mae rhai yn mynegi pryderon am hyfywedd eu busnesau. Mae yna hefyd ddibyniaeth drom iawn ar weithwyr mudol wrth i reolau mewnfudo gael eu tynhau a allai effeithio ar gynaliadwyedd hirdymor y gweithlu. Mae’r galw yn uchel am leoliadau cartrefi gofal i’r rhai sydd ag anghenion gofal cymhleth ac mae costau’n cynyddu o ganlyniad.
- Mae’r Cyngor wedi wynebu oedi wrth gyflwyno addasiadau i’r anabl, gyda’r amser cyfartalog i wneud hyn yn 214 diwrnod yn erbyn targed o <185 diwrnod. Er bod hyn yn cynrychioli cynnydd dros y pum mlynedd diwethaf, bu gostyngiad graddol ers yr uchafbwynt o 266 diwrnod yn chwarter 1 2024/5. Mae’r cynnydd yn cael ei yrru gan gynnydd yn y galw a gallu cyfyngedig contractwyr i gyflawni addasiadau.

## 2.1 Cefnogi pobl hŷn i gadw'n heini ac yn gysylltiedig mewn Dinas sy'n Dda i Bobl Hŷn

Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i gefnogi pobl hŷn i gael cyflogaeth a pharhau i ymgysylltu â'u cymuned. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth gyflawni ei flaenoriaethau a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu Sy'n Dda i Bobl Hŷn, ynghyd â'r gwaith parhaus i ddarparu cyfleoedd hyfforddi ac ymgysylltu i bobl hŷn ledled y ddinas.

Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi ei Gynllun Gweithredu Sy'n Dda i Bobl Hŷn 2024-28[5] a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad â phartneriaid a phobl hŷn yng Nghaerdydd. Mae'r Cynllun wedi'i gymeradwyo gan y Cabinet ac mae wedi cael ei groesawu'n dda gan y gymuned, gyda saith enghraifft o Gaerdydd yn cael eu hyrwyddo fel arfer gorau gan wefan Age Friendly World Sefydliad Iechyd y Byd. Mae'r Cynllun yn cynnwys wyth blaenoriaeth, gan gynnwys iechyd, tai, trafnidiaeth a chyflogaeth.

Er mwyn cefnogi pobl hŷn i gael gwaith ac i atal gwahaniaethu yn eu herbyn, mae'r Cyngor wedi datblygu a hyrwyddo cynnig cymorth hyfforddiant a chyflogaeth i'r rhai dros 50 oed. Mae unigolion yn cael eu cefnogi gan Fentoriaid Cyflogaeth sy'n gallu eu helpu i fod yn barod am waith. Mae'r Cyngor hefyd wedi bod yn gweithio gyda chyflogwyr, gan gynnwys gwasanaethau mewnol y Cyngor a phartneriaid trydydd sector, i'w hannog i lofnodi'r Addewid Cyflogwyr sy'n Dda i Bobl Hŷn.

Mae'r dull Hybiau i Bawb bellach wedi'i ymgorffori'n llawn ledled Caerdydd, gan alluogi unigolion ag anghenion gofal i fynychu sesiynau yn yr Hybiau a darparu seibiant mawr ei angen i ofalwyr. Mae'r gwasanaeth Hybiau i Bawb bellach yn galluogi hunanatgyfeirio ac mae'n un o sawl cyfle dydd sy'n canolbwyntio ar y person sy'n galluogi pobl i barhau i gadw'n actif ac yn aros yn rhan o'u cymuned leol. Yn Chwarter 4, cyflwynodd Llywodraeth Cymru ddull gweithredu Caerdydd yn ei digwyddiad dysgu arfer da.

Mae ffocws cryf o hyd yn y Cyngor ac ymhlith ei bartneriaid yn y sector cyhoeddus ar wasanaethau ataliol, gan sicrhau bod y cymorth cywir yn cael ei ddarparu ar yr adeg gywir i atal anghenion gofal mwy dwys a mwy costus rhag codi yn nes ymlaen. Mae adolygiad o dderbyniadau i'r ysbyty yn 2024/25 wedi dangos effaith y Tîm Amlddisgyblaethol o fewn clwstwr y De-orllewin, gyda'r ardal bellach yn dangos y cyfraddau aildderbyn isaf yng Nghaerdydd er bod ganddi'r cyfraddau uchaf o'r blaen. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio i annog y defnydd o bresgripsiynu cymdeithasol gan feddygon teulu mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Gofal Sylfaenol, Cymunedol a Chanolradd (GSCCh).

---

[5] Cynllun Gweithredu Caerdydd sy'n Dda i Bobl Hŷn 2024-2028

## 2.2 Cefnogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol gartref trwy wasanaethau ataliol sy'n seiliedig ar gryfderau

Mae Strategaeth Heneiddio'n Dda Caerdydd, a gyhoeddwyd yn 2022, yn nodi cyfeiriad polisi clir ac ystod o weithgareddau i gefnogi pobl hŷn i fyw'n dda yn eu cymunedau. Er gwaethaf pwysau galw cynyddol ar Wasanaethau Oedolion, mae'r Cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i gefnogi unigolion i fyw'n annibynnol gartref trwy ymyrraeth ataliol sy'n seiliedig ar gryfder.

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran cynyddu lefelau staffio yn ei wasanaethau ac o ran lleihau ôl-groniadau gwaith, ond mae rhai dangosyddion perfformiad allweddol yn methu â bwrw targedau oherwydd cyfyngiadau adnoddau a chymhlethdod cynyddol y galw.

Er mwyn sicrhau bod unigolion sydd angen cymorth yn cael eu cyfeirio at y gwasanaethau cywir ar y lefel ymyrraeth gywir, mae'r Cyngor wedi cyflwyno'r model Asesydd Dibynadwy, gan uwchsgilio Therapyddion Galwedigaethol (ThGau) i'w galluogi i gynnal asesiadau lles a rhagnodi gofal. Oherwydd sgiliau'r therapyddion galwedigaethol i ddod o hyd i atebion amgen, nid oedd angen gofal parhaus ar 31% o'r achosion a aseswyd ganddynt. Mae'r dull hwn hefyd yn helpu i ryddhau gallu gwaith cymdeithasol i ganolbwyntio ar yr achosion mwyaf cymhleth. Trwy atal dyblygu, mae'r dull hwn eisoes wedi lleihau nifer yr achosion sy'n aros am asesiad gwaith cymdeithasol gan y Tîm Gwaith Cymdeithasol Cymunedol i ddim ond 21 o achosion, gostyngiad o uchafbwynt o 428 o achosion oedd yn aros yn 2021.

Mae Gwasanaeth Byw'n Annibynnol Caerdydd yn gweithredu'r Pwynt Cyswllt Cyntaf ar gyfer Gwasanaethau Oedolion. Mae dull Tîm Amlddisgyblaethol yn cael ei ddefnyddio ac mae swyddogion cyswllt hyfforddedig, swyddogion ymweld, therapyddion galwedigaethol a gweithwyr cymdeithasol ar gael i sicrhau bod y cymorth mwyaf addas ar gael. Mae'r gwasanaeth wedi wynebu heriau yn ystod 2024/5 gyda chymhlethdod cynyddol ymhlith defnyddwyr gwasanaeth a phrinder staff sydd wedi arwain at ostyngiad yn nifer uchel yr achosion sydd fel arfer yn cael eu datrys yn ystod y Pwynt Cyswllt Cyntaf. Yn 2024/25 bu gostyngiad yng nghanran yr achosion newydd lle nad oedd angen asesiad mwy cynhwysfawr. Y canlyniad yn Chwarter 4 oedd 57% yn erbyn targed o 70% ac yn llai na chanlyniad 2023/24, sef 69%. Mae cynlluniau ar waith i wella hyn yn y dyfodol.

Mae canlyniadau'r gwasanaeth ymweld yn parhau i fod yn dda gyda 96% o bobl yn teimlo'n fwy abl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain yn dilyn cymorth gan y Gwasanaethau Byw'n Annibynnol.

Mae adolygiad o wasanaethau ar y gweill ar hyn o bryd, a fydd yn canolbwyntio ar ddefnyddio dull gweithredu system gyfan o atal ac ailalluogi. Mae pecyn cymorth atal newydd wedi'i ddatblygu sy'n darparu atebion amgen i ofal fel gofal a alluogir gan dechnoleg (GAD). Mae'r adborth cychwynnol am y pecyn cymorth yn gadarnhaol iawn. Y camau nesaf fydd ymateb yn gyflym i geisiadau am gymorth yn y gymuned, gyda datblygu tîm ymateb cyflym. Mae'r adolygiad hwn, a'r newidiadau a'r gwelliannau cysylltiedig sydd wedi'u cynllunio, yn newid system gyfan i sicrhau bod gwasanaeth ymatebol a chadarn ar waith a bydd yn cyd-fynd yn agos â phrosiect Gofal Cymunedol Integredig y Bwrdd Iechyd Lleol.

Mae gan y Cyngor raglen adeiladu newydd uchelgeisiol sy'n darparu cynlluniau byw cymunedol o ansawdd uchel i bobl hŷn, i gefnogi annibyniaeth. Mae un cynllun, Addison House yn Nhredelerch, eisoes wedi'i wireddu ac mae'r gwaith hwn yn parhau gyda chontractwyr ar y safle yn Llaneirwg, Lecwydd, Butetown a Trem y Môr . Mae cynlluniau pellach hefyd yn yr arfaeth gan gynnwys yn y Maelfa yn Llanedern tra bod Pentref Lles yn yr arfaeth ar gyfer Llanfihangel. Bydd y cynlluniau hyn yn cynnig fflatiau pwrpasol sydd wedi'u dylunio'n arbennig i gefnogi annibyniaeth ac amrywiaeth o gyfleusterau cymunedol i helpu pobl hŷn i heneiddio'n dda. Bydd rhai cynlluniau mwy yn cael gofal yn seiliedig ar y safle i gefnogi'r rhai sydd ag anghenion uwch.

Mae'r Cyngor wedi gweld cynnydd yn yr amser a gymerir i gyflwyno addasiadau i'r anabl dros y ddwy flynedd ddiwethaf, o 141 diwrnod ar ddiwedd 2022/23 i 214 diwrnod ar hyn o bryd. Mae hyn yn uwch na'r amserlen darged o <185 diwrnod, er bod perfformiad yn ystod y flwyddyn wedi gwella, gan ddod â'r canlyniad yn nes at y targed. Mae oedi yn y broses addasu i'r anabl yn cael ei achosi gan y cynnydd sylweddol yn y galw, o oddeutu 900 o achosion y flwyddyn cyn pandemig Covid-19 i oddeutu 1,500 y flwyddyn ar hyn o bryd. Mae'r galw hwn yn fwy na'r gyllideb a ddyrannwyd i addasiadau, wedi'i waethygu ymhellach gan allu cyfyngedig contractwyr i gyflawni addasiadau mewn modd amserol, gan arwain at restr aros o tua 400 o achosion ar ddiwedd y llynedd y mae'r Cyngor yn dal i ymateb iddynt. Mae amrywiaeth o weithgareddau yn cael eu gwneud i ddatrys y mater hwn, gan gynnwys comisiynu capasiti contractwyr ychwanegol a blaenoriaethu gwaith hanfodol.

## 2.3 Gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gofal a chymorth cynaliadwy o ansawdd uchel

Mae'r Cyngor yn parhau i weithio'n agos gyda'i bartneriaid yn y sector cyhoeddus, yn enwedig Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Caerdydd a'r Fro, i sicrhau bod prosesau gofal a chymorth yn arwain at drosglwyddo'n rhwydd, yn ddiogel ac yn brydlon o'r ysbyty er mwyn rhyddhau gwelyau ysbyty. Mae system draws-wasanaeth gydlynol wedi bod yn hanfodol i gyflawni hyn a rhyddhau gwelyau ysbyty.

Mae Gwasanaeth Byw'n Annibynnol y Cyngor yn cefnogi yn yr ysbyty trwy "Fyddin Binc" o swyddogion cyswllt sy'n darparu cymorth wrth ryddhau ar y wardiau, tra bod y Ganolfan Ryddhau Integredig (CRI) a weithredir gan y Cyngor yn cydlynu ystod o wasanaethau a gweithwyr proffesiynol i gefnogi rhyddhau. Mae'r gwasanaethau hyn, ynghyd â phroses rhyddhau clir i adferiad ac asesu, gyda'r canlyniad bod oedi o ran llwybrau gofal yng Nghaerdydd yn gyson is na chyfartaledd Cymru.

Mae gwelliannau a wnaed i lwybrau rhyddhau wedi arwain at ostyngiad yn yr amser a gymerir i'r CRI brysbennu achosion, gyda 60% o achosion yn Chwarter 4 wedi'u brysbennu o fewn un diwrnod gwaith. Mae unrhyw oedi mewn brysbennu yn cael ei achosi gan atgyfeiriadau ar gyfer cynnydd sydyn anrhagweladwy. Yn gyfan gwbl trwy gydol y flwyddyn, mae'r gwaith hwn wedi arwain at 1925 o unigolion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty gyda threfniadau gofal ar waith, gan ryddhau lle yn yr ysbyty. Ffocws allweddol wrth symud ymlaen yw gwella prosesau a chyfathrebu â chydweithwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol i leihau nifer yr atgyfeiriadau amhriodol y mae'r CRI yn eu derbyn. Ar y cyfan, mae Caerdydd yn perfformio'n dda o ran prosesau trosglwyddo gofal o'r ysbyty o'i gymharu â rhannau eraill o Gymru. Er enghraifft, roedd oedi o ran gofal yng Nghaerdydd yn digwydd yn 34 fesul 100,000 o'r boblogaeth oedolion ym mis Mai 2025, sef y canlyniad gorau yng Nghymru, ac ymhell yn is na chyfartaledd Cymru o 54.

Ym mis Rhagfyr 2024, er mwyn gwella monitro ansawdd, lansiodd y Cyngor ei offeryn hunanasesu darparwyr gofal cartref ac mae fframwaith ansawdd ar gyfer cartrefi gofal hefyd wedi'i ddatblygu sy'n cyd-fynd â'r graddau a gyhoeddwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Ymgysylltwyd â darparwyr ac maent yn cefnogi'r newidiadau a gynigir i sut mae ansawdd yn cael ei raddio. Fodd bynnag, mae angen mwy o waith i annog darparwyr gofal i fabwysiadu gofal a alluogir gan dechnoleg (GAD).

Mae gan Gaerdydd gyflenwad da o ofal cartref ac er bod rhai amrywiadau yn nifer cyfartalog y bobl sy'n aros am ofal cartref ar ddiwedd y mis, gyda 36 yn aros yn Chwarter 4, mae hyn yn adlewyrchu'r galw. Roedd y llif trwy'r gwasanaethau yn parhau'n dda. O'r rhai sy'n aros am ofal, roedd y mwyafrif yn dal i gael eu trin yn brydlon – er enghraifft, yn Chwarter 4 dim ond 4 unigolyn a adawyd yn aros am fwy na phythefnos. Yn ogystal, yr amser cyfartalog a gymerwyd o'r cam atgyfeirio hyd at ddechrau gofal cartref oedd 10 diwrnod yn Chwarter 4, gan ragori ar y targed o 12 diwrnod.

Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn ystyried barn ei ddinasyddion wrth ddarparu eu gofal, datblygwyd Cynllun Gweithredu Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaeth, gydag arolygon ffôn yn cael eu cynnal i wrando ar farn defnyddwyr gwasanaeth ac ymgorffori hyn wrth gynllunio gwasanaethau Mae adborth o'r ymarferion hyn yn cael ei fwydo'n ôl yn rheolaidd i uwch reolwyr yn y Gwasanaethau Oedolion, a bydd y themâu a'r camau gweithredu craidd sy'n deillio o hyn yn llywio ymyriadau yn y dyfodol. Yn gyffredinol, canran y bobl oedd yn fodlon ar eu gwasanaeth yn 2024/25 oedd 71%, sy'n welliant sylweddol o'r sgôr o 66% yn 2023/24.

Mae'r Cyngor wedi parhau i weithio i wella gwydnwch ei weithlu gofal cymdeithasol trwy gyflawni'r Strategaeth Gweithlu Gwasanaethau i Oedolion a gwaith Academi Caerdydd yn Gofalu. Mewn ymateb i brinder cenedlaethol o weithwyr cymdeithasol, mae'r Cyngor wedi datblygu ei ddull 'tyfu eich gweithwyr cymdeithasol eich hunain', sy'n cynnwys cefnogi unigolion gyda'u cymwysterau a'u hyfforddiant. Mae llwyddiant y gwaith hwn, a'r gwaith ategol i ddenu a chadw gweithwyr cymdeithasol, yn amlwg yng nghanlyniadau 2024/25 ar gyfer canran y swyddi gweithwyr cymdeithasol parhaol gwag mewn Gwasanaethau Oedolion. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd swyddi gweithwyr cymdeithasol gwag yn 12.75%, y canlyniad gorau a gyflawnwyd hyd yma sy'n dangos tuedd gwelliant parhaus dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae cynllun i wella dewis ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth wedi arwain at ddatblygu 18 microfenter i ddarparu gofal a chymorth lefel isel, gyda mwy o fentrau yn mynd trwy'r broses ddilysu. Disgwylir i'r nifer hwn gynyddu'n sylweddol yn y flwyddyn i ddod.

Mae'r Cyngor yn parhau i ddarparu cymorth i'r sector gofal ehangach trwy fonitro ac annog darparwyr gofal i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol a gwella'r cymorth sy'n cael ei gynnig gan Academi Gofalwyr Caerdydd wrth recriwtio gweithwyr gofal. Yn 2024/25 mae prosesau mentora newydd wedi'u sefydlu ar gyfer darpar weithwyr gofal, ynghyd â chynnig hyfforddiant gwell gan gynnwys cymorth cyntaf, diogelwch bwyd, a chodi a chario. Mae rhaglen wirfoddoli hefyd wedi'i datblygu sy'n galluogi darpar ymgeiswyr i gael profiad mewn lleoliadau gofal ledled Caerdydd.

Mae gofal cymdeithasol oedolion yn parhau i brofi pwysau ariannol sylweddol sy'n gysylltiedig â chymhlethdod achosion cynyddol a galw cynyddol. Er enghraifft, cynhaliwyd 10% yn fwy o asesiadau lles yn 2024/5 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol a bu cynnydd o 900 yn nifer y cynlluniau gofal a chymorth a gwblhawyd, sef 8,667. Mae cost comisiynu gofal hefyd wedi cyfrannu at bwysau ariannol. Gyda lefelau chwyddiant uchel a chyflwyno ymrwymiad Cyflog Byw Gwirioneddol Llywodraeth Cymru ar gyfer gofalwyr cofrestredig, bu effaith sylweddol ar godiadau prisiau blynyddol ar draws y sector.

## 2.4 Cefnogi gofalwyr di-dâl a gwerthfawrogi eu rôl

Mae'r Cyngor yn parhau i sicrhau ei fod yn gwrando ar ofalwyr di-dâl a'u teuluoedd fel y gellir cynnig y mathau cywir o gymorth. Mae gwaith i annog gofalwyr i gydnabod y rôl y maent yn ei chwarae ac yn gweld eu hunain fel cyflawni'r rôl honno yn cael ei symud ymlaen mewn cylchlythyrau, gan gynnwys cylchlythyr Dinas Gofal a thrwy hybiau a llyfrgelloedd a lleoliadau gofal iechyd. Mae staff hefyd wedi cael eu hyfforddi i adnabod a chefnogi gofalwyr di-dâl sy'n cael mynediad i'w gwasanaethau. Lansiwyd gwasanaeth gwirfoddol newydd, Caring Friends, hefyd ac mae wedi cael croeso da. Mae'r Cyngor hefyd wedi dod yn fwy effeithiol wrth sicrhau bod gofalwyr cymwys yn cael cynnig asesiad gofalwr trwy wneud y cynnig yn rhan orfodol o brosesau penodol. O ganlyniad, cynigiwyd asesiad gofalwr i 94% o ofalwyr cymwys yn Chwarter 4.

## 2.5 Sicrhau bod ein gwasanaethau'n diwallu anghenion y rhai mwyaf agored i niwed

Nod y Cyngor yw cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia i fyw'n ddiogel gartref lle bynnag y bo modd. Mae cynnig hyfforddiant wedi'i ddatblygu ar gyfer gofalwyr i roi'r wybodaeth a'r sgiliau iddynt sydd eu hangen i ddarparu gofal o ansawdd uchel i'r rhai sy'n byw gyda dementia. Yn 2024/25, ffurfiodd y Cyngor bartneriaeth ag Effro, prosiect a ddarperir gan yr elusen Platfform i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia, a Thîm Dysgu a Datblygu Dementia Bwrdd Iechyd y Brifysgol i ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd dysgu a datblygu.

Er eu bod yn brin o'r targed o 85% o hyd, erbyn diwedd 2024/25, roedd 71.3% o staff wedi cwblhau'r Hyfforddiant Cyfeillion Dementia. Y gyfradd gwblhau gyfredol o 71.3% yw'r canlyniad uchaf hyd yma, sy'n dangos tuedd gadarnhaol gyson dros amser. Er mwyn gwella cydymffurfiaeth a chyrraedd cynifer o bobl â phosibl, trefnwyd cyrsiau wyneb yn wyneb ar gyfer staff rheng flaen yn 2025/26 i ategu'r modiwl hyfforddi ar-lein.

# Amcan Lles 3:

## Cefnogi pobl allan o dlodi

**Ein blaenoriaethau yn 2024/25 oedd:**

3.1 Cefnogi'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan yr argyfwng costau byw

3.2 Cefnogi pobl i mewn i waith

3.3 Parhau â'n huchelgais Dinas Cyflog Byw

3.4 Atal digartrefedd pryd bynnag y bo modd a rhoi terfyn ar gysgu ar y stryd.

### Crynodeb o Sefyllfa Perfformiad y Cynllun Corfforaethol ar Ddiwedd y Flwyddyn




Mae'r camau a'r DPAau sydd wedi'u marcio'n Goch yn Chwarter 4 yn cael eu trafod yn y naratif isod, a gellir dod o hyd i'r sylwadau a'r canlyniadau llawn yn erbyn pob cam a DPA yn y Dangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol.

## Asesiad Cyffredinol

Mae'r Cyngor wedi parhau i ddarparu ystod o wasanaethau effeithiol i gefnogi pobl allan o dlodi. Mae Gwasanaethau i Mewn i Waith a Chynghori y Cyngor yn darparu cymorth effeithiol i ddinasyddion, fel sy'n amlwg wrth raddfa ac effeithiolrwydd y gwaith ymgysylltu. Bydd sicrhau cynaliadwyedd ariannol ar gyfer Gwasanaethau Gwaith a Chynghori fel rhan o waith i ddiwygio gwasanaethau cymorth cyflogaeth ymhellach yn flaenoriaeth i'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r fenter Dinas Cyflog Byw hefyd yn parhau i ddarparu budd gwirioneddol i weithwyr ledled Caerdydd.

Mae costau cynyddol a brofir gan aelwydydd, ynghyd â phrinder tai fforddiadwy ar draws pob deiliadaeth yn y ddinas, yn rhoi pwysau eithriadol ar y gwasanaeth digartrefedd ac ar draws ystod o wasanaethau eraill y Cyngor a'i bartneriaid. Mae nifer y bobl sy'n dod yn ddigartref a'r galw am lety brys a dros dro wedi cynyddu. Er bod llawer o waith da wedi'i wneud i fynd i'r afael â'r argyfwng tai, mae dros 1,800 o aelwydydd yn parhau i fod mewn llety dros dro ac mae nifer o westai yn dal i gael eu defnyddio fel hosteli dros dro. Mae dros 9,000 o aelwydydd bellach ar restr aros am dai y Cyngor. Mae'r gyfradd rhent yn y sector rhentu preifat ar lefelau digynsail, yn llawer uwch na'r Lwfans Tai Lleol (y cyfraddau y gellir dyfarnu budd-daliadau sy'n gysylltiedig â thai arnynt) gan wneud y sector hwn yn anfforddiadwy i lawer. Mae prinder tai o bob deiliadaeth yn creu pwysau ar y galw a phwysau ariannol ar draws llawer o wasanaethau'r Cyngor (gan gynnwys Gwasanaethau Oedolion a Phlant). Mae'r angen i ehangu mynediad i dai yn gyflym, trwy adeiladu a sicrhau tai fforddiadwy ychwanegol, caffael eiddo o'r farchnad agored a thai sydd wedi'u teilwra i gefnogi byw'n annibynnol, yn parhau i fod yn flaenoriaeth gorfforaethol.

## Meysydd Cynnydd

- Mae ymdrechion helaeth wedi'u gwneud i gefnogi pobl wrth newid i Gredyd Cynhwysol yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth ymhlith rhanddeiliaid y mae'r gwasanaeth yn ymgysylltu â nhw. Cafodd bron 8,800 o bobl gymorth gyda chymorth Credyd Cynhwysol yn ystod 2024/25, dros 2,000 yn fwy o bobl nag yn ystod 2023/24 (cynnydd o 32%).
- Mae o leiaf 1,382 o bobl wedi cael eu cefnogi i gael cyflogaeth gan y Gwasanaeth Cynghori i Mewn i Waith, yn fwy na tharged 2024/25 o 1,300 a mymryn yn fwy nag a gefnogwyd yn 2023/24 (1,342).
- Mae Prifysgol Caerdydd yn amcangyfrif bod y Cyflog Byw Gwirioneddol yn werth £100 miliwn i economi Caerdydd ers 2012.
- Cafodd y Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai ddiwygiedig ar gyfer 2022-26 ei chymeradwyo gan y Cabinet ym mis Chwefror 2025. Mae'r Strategaeth hon yn nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer atal digartrefedd a chymorth sy'n gysylltiedig â thai yng Nghaerdydd ac yn nodi'r blaenoriaethau allweddol i'r Cyngor a'i bartneriaid wneud digartrefedd yn rhywbeth prin, byrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto.

## Meysydd Her a Risg

- Mae cyllid ar gyfer llawer o'r gwaith a wneir gan y Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith a'r Tîm Cyngor Ariannol yn cael ei ariannu gan grant ac yn fyrdymor. Er bod Cyllid Ffyniant Cyffredin wedi'i estyn tan fis Mawrth 2026, mae ansicrwydd yn parhau ynglŷn â pharhad gwasanaeth allweddol yn y dyfodol. Heb y cyllid hwn, byddai angen lleihau'r gwasanaethau hyn yn sylweddol.
- Fe wnaeth cyfyngiadau ariannol sy'n gysylltiedig â phwysau cyllidebol yn ystod y flwyddyn a bwlch cyllidebol sylweddol effeithio ar ddyheadau'r Cyngor o ran nifer y rolau hyfforddeion a phrentisiaid newydd oedd yn cael eu creu, gyda 64 lleoliad wedi'u creu yn erbyn targed o 100.
- Mae'r hinsawdd economaidd heriol wedi arwain at ostyngiad mewn busnesau achredig Cyflog Byw Gwirioneddol wrth i gwmnïau ddewis peidio ag adnewyddu eu hymrwymiad, neu roi'r gorau i fasnachu. Yn ystod 2024/25, derbyniodd 3,000 yn llai o weithwyr godiad cyflog ar y Cyflog Byw Gwirioneddol nag yn ystod 2023/24.
- Er gwaethaf cynnydd sylweddol yn nifer yr unedau llety dros dro sydd ar gael, mae'r defnydd o westai wedi parhau i unigolion a theuluoedd. Mae'r trefniadau'n cael eu datblygu i roi terfyn ar y defnydd o westai ar gyfer cartrefi teuluoedd, a disgwylir i'r rhain fod ar waith ar gyfer haf 2025.

---

### 3.1 Cefnogi'r rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan yr argyfwng costau byw

Mewn Ymateb i'r argyfwng economaidd, mae cynnig cymorth y Cyngor yn parhau i gael ei ddarparu'n effeithiol. Yn ystod 2024/25, nododd y Tîm Cyngor Ariannol fudd-daliadau wythnosol ychwanegol o dros £17 miliwn i'w gleientiaid. Dros yr un deuddeg mis, cafodd bron 8,800 o bobl gymorth ariannol Credyd Cynhwysol, gan ragori ar y targed o 5,000 a dros 2,000 yn fwy o bobl nag yn ystod 2023/24.

Mae'r cynnydd hwn o ganlyniad i ddechrau'r ymfudo a reolir ar gyfer pobl sy'n derbyn 'budd-daliadau etifeddiaeth' (megis Cymorth Incwm neu Fudd-dal Tai) i Gredyd Cynhwysol. Bydd hyn yn parhau i ddigwydd tan o leiaf mis Mawrth 2026. Mae ymdrechion helaeth wedi'u rhoi ar waith i gefnogi pobl trwy'r newid hwn. Mae holl staff Cynghori a Hybiau rheng flaen wedi cael eu hyfforddi am y newid i Gredyd Cynhwysol, ac mae cyngor wedi'i ddarparu i landlordiaid preifat, cynghorwyr lleol, undebau llafur a thimau rheng flaen ledled y Cyngor i godi ymwybyddiaeth a chynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth.

Yn ystod 2024/25, gwnaed 61,744 o alwadau i'r Llinell Gyngor, cynnydd o 42.5% o'i gymharu â 2023/24. Er gwaethaf hyn, bu gwelliant sylweddol yn y gyfradd ymateb gyda 87% o alwadau wedi'u hateb eleni o'i gymharu â 73% y llynedd. Cynhaliwyd adolygiad o gapasiti'r Llinell Gyngor yn gynnar yn 2025 a nododd gyfle i estyn y cymorth sydd ar gael yn 2025/26, gyda chynlluniau ar waith i gynnwys cymorth ychwanegol mewn perthynas â'r Gwasanaeth Cymorth Dysgu a Lles i Oedolion.

Mae'r newid i Gredyd Cynhwysol yn debygol o gyfrannu at gynnydd mewn ôl-ddyledion rhent tenantiaid y Cyngor. Mae costau tai Credyd Cynhwysol yn cael eu talu mewn ôl-ddyledion yn uniongyrchol i'r hawlydd gyda'r taliad cychwynnol yn aml yn cymryd pum wythnos i gael ei dalu. Mae'r gwaith i gefnogi tenantiaid o bob deiliadaeth sy'n cael trafferth talu eu rhent yn parhau. Mae'r llwybr ôl-ddyledion rhent yn gwneud y defnydd gorau o'r holl grantiau i gefnogi'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd talu eu rhent trwy ymyriadau ymarferol. Mae hyn yn lleihau achosion o droi pobl allan ac yn golygu bod tenantiaid yn gallu aros yn eu cartrefi. Mae Panel Ôl-ddyledion Rhent wedi'i sefydlu ac mae'n gweithio'n dda gydag ymyrraeth gynnar yn allweddol i'w lwyddiant. Mae gweithwyr cymorth tai yn darparu cyfryngu rhwng landlordiaid a thenantiaid gan ystyried cynlluniau talu yn y lle cyntaf. Mae'r newid hwn yn y broses wedi bod o gymorth i nodi achos sylfaenol ôl-ddyledion, darparu addysg ynghylch talu biliau/rhent â blaenoriaeth a chanlyniadau cronni ôl-ddyledion. Mae Swyddog Cyngor Ariannol pwrpasol wedi'i ymgorffori yn y Tîm Atal Digartrefedd i gynnal asesiadau fforddiadwyedd i gwsmeriaid i ddangos a yw cynllun talu yn fforddiadwy. Ar gyfer achosion lle nad yw cynllun talu yn bosibl, trafodir achosion gan y Panel i chwilio am atebion eraill.

### 3.2 Cefnogi pobl i mewn i waith

Mae'r Gwasanaeth i Mewn i Waith yn parhau i ddarparu gwasanaeth pwrpasol i breswylwyr y ddinas, gan gefnogi'r rhai sy'n ddi-waith a'r rhai sydd eisiau uwchsgilio i mewn i waith mwy cynaliadwy â chyflog uwch. Yn ystod 2024/25, darparwyd ychydig dros 62,000 o achosion o gymorth i mewn i waith i bobl trwy'r Porth Cyflogaeth. Er bod y ffigur hwn yn fwy na'r targed blynyddol, dyma'r nifer isaf o ymyriadau ers 2020/21.

Er bod y galw am gymorth cyflogaeth a hyfforddiant yn parhau i fod yn uchel, bu newid sylweddol yn lefel y cymorth oedd ei angen dros y 12 mis diwethaf. Oherwydd cyrsiau 'sut i' ar-lein newydd sy'n cael eu rhedeg gan dîm Clwb Swyddi'r gwasanaeth sy'n ymdrin â sut i chwilio am swyddi, ysgrifennu CVs, a hawlio a rheoli Credyd Cynhwysol, bu gostyngiad yn nifer y bobl yr oedd angen cymorth cyffyrddiad ysgafn arnynt. Ar yr un pryd, bu cynnydd yn nifer y cwsmeriaid sydd â rhwystrau mwy cymhleth i gyflogaeth. Mae'r gwasanaeth hefyd yn rhagweld cynnydd yn nifer y rhai sy'n gadael gofal yn cysylltu am gymorth yn dilyn diwedd cynllun peilot Incwm Sylfaenol Cynhwysol dwy flynedd Llywodraeth Cymru yn haf 2025.

Mae o leiaf 1,382 o bobl wedi cael cymorth i mewn i gyflogaeth, sy'n uwch na tharged 2024/25 o 1,300 ac ychydig yn uwch na'r canlyniad ar gyfer 2023/24 (1,342). Roedd 58% (798) o'r rhai a gefnogwyd i mewn i waith o gefndir ethnig amrywiol, o gymharu â 46% (tua 635 o bobl) yn 2023/24 a 38% (tua 424 o bobl) yn 2022/23. Yn ystod 2024/25, fe wnaeth 12.9% o'r rhai a gefnogwyd trwy ymyrraeth wedi'i thargedu roi'r gorau i ymgysylltu heb ganlyniad cadarnhaol wedi'i gadarnhau. Mae hyn yn her barhaus i'r gwasanaeth, er bod canlyniad Chwarter 4 o 9.26% (islaw'r targed o 10%) yn galonogol. Mae'r gwasanaeth yn parhau i weithio gyda grwpiau cleientiaid anoddach eu cyrraedd gan gynnwys pobl anabl, y rhai dros 50 oed, pobl sy'n ddigartref, y rhai sydd â chofnodion troseddol a ffoaduriaid. Mae'r gwasanaeth yn parhau i ddatblygu ei gyfleoedd hyfforddi a gwirfoddoli, gyda'r nod o deilwra cymorth i'r grwpiau cleientiaid hyn ymhellach.

Derbyniodd dros 350 o gyflogwyr newydd gymorth i ddod o hyd i ymgeiswyr addas ar gyfer eu rolau yn ystod y flwyddyn. Mae'r argymhellion a nodwyd yn wreiddiol yn y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol yn parhau i gael effaith gyda chanran y cleientiaid i Mewn i Waith sy'n nodi eu bod o gefndir ethnig amrywiol yn cynyddu eto i 54% yn 2024/25; uwchlaw ffigur 2022/23 o 36% a ffigur 2023/24 o 48%.

Mae model yr Academi yn parhau i gefnogi llawer o bobl i lwybrau gyrfa ymroddedig. Cefnogodd yr Academi Cynorthwywyr Addysgu 70 o bobl i mewn i gyflogaeth yn ystod 2024/25, gan gynnwys rhai a gafodd brofiad trwy Raglen Cyfoethogi Gwyliau'r Ysgol arobryn y Cyngor. Yn 2024/25, cwblhaodd 246 o bobl yr hyfforddiant a llwyddodd 53 i gael gwaith yn y sector adeiladu. Mae hyfforddiant cyflogaeth 'Ewch i mewn i…' penodol hefyd wedi'i ddatblygu ar gyfer sectorau lle mae diffyg gweithwyr medrus ac mae recriwtio yn profi'n heriol. Trwy gydol 2024/25, cafodd 107 o raglenni 'Ewch i mewn i...' eu darparu ar gyfer ar gyfer sectorau cyflogaeth gan gynnwys gweinyddu, manwerthu, lletygarwch, cynnal a chadw rheilffyrdd a gwaith barbwr gyda 42 yn canolbwyntio'n benodol ar y sectorau gofal ac adeiladu.

Mae'r Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith yn gweithio gydag Ardal, gwasanaeth caffael y Cyngor, ar ddatblygu ei Bolisi Caffael Cymdeithasol-Gyfrifol newydd. Mae gofynion gwerth cymdeithasol targedig yn cael eu cynnwys yn y Gwahoddiadau i Dendro, gan orfodi contractwyr i weithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Cynghori ar sail gontractiol i sicrhau'r effaith fwyaf posibl ar gymunedau lleol. Mae cynllun wedi'i ddatblygu'n benodol ar gyfer yr arena dan do newydd i achub ar y cyfleoedd a roddir gan ddatblygiadau mawr, gan ganolbwyntio ar fuddion i'r cymunedau union gyfagos. Mae'r Gwasanaeth Cynghori ac Ardal yn parhau i weithio gyda'i gilydd i asesu a dylanwadu ar ymrwymiadau gwerth cymdeithasol contractwyr ar gyfer pob elfen o'r datblygiad.

Mae'r Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y bobl mewn cyflogaeth sydd angen cymorth ers cyflwyno Credyd Cynhwysol ac wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â'r Tîm Cyngor Ariannol i gefnogi'r rhai y mae'r newid i Gredyd Cynhwysol yn effeithio arnynt, gan sicrhau bod mesurau amddiffyn trosiannol ar waith. Mae Mentoriaid Cyflogaeth yn y gwaith yn parhau i ddarparu cymorth un-i-un i unigolion, gan ddatblygu cynlluniau gweithredu pwrpasol i gefnogi gydag anghenion hyfforddiant a chyflogaeth. Er bod llawer llai o unigolion mewn cyflogaeth yn cael eu cefnogi gyda darpariaeth fentora yn ystod 2024/25 nag yn ystod y flwyddyn flaenorol (734 o gymharu â 1,147 yn 2023/24), aeth mwy ymlaen i ennill cymhwyster (342 yn 2024/25 o gymharu â 154 yn 2023/24) neu sicrhau cyflogaeth wahanol yn dilyn cymorth (264 o gymharu â 263).

O fewn y Cyngor, mae llai o swyddi wedi'u hysbysebu ac yna eu llenwi trwy Caerdydd ar Waith nag a dargedwyd yn ystod 2024/25 (2,588 yn erbyn targed o 2,800). Mae hyn oherwydd y pwysau cyllidebol sy'n wynebu'r Cyngor. Mae cyfyngiadau ariannol hefyd wedi arwain at y Cyngor yn creu llai o leoliadau prentisiaethau a hyfforddeion newydd na'r disgwyl. Er bod 153 o brentisiaid a hyfforddeion yn gweithio ar draws y Cyngor ar ddiwedd mis Mawrth 2025 a oedd yn uwch na'r targed o 150, ar draws y flwyddyn dim ond 64 o leoliadau newydd a grëwyd yn erbyn targed o 100.

Er bod y Cyllid Ffyniant Gyffredin (CFfG) wedi'i estyn tan fis Mawrth 2026, bydd adolygiad gwasanaeth llawn o'r Gwasanaeth Cyngor i Mewn i Waith yn dechrau yn 2025/26. Bydd effaith peidio ag adnewyddu'r cyllid hwn yn arwain at leihau'r gwasanaeth yn sylweddol.

### 3.3 Parhau â'n huchelgais Dinas Cyflog Byw

Cydnabuwyd llwyddiant Caerdydd fel dinas Cyflog Byw Gwirioneddol yng Ngwobrau Hyrwyddwyr Cyflog Byw y DU 2024 ym mis Gorffennaf. Enillodd Grŵp Llywio Dinas Cyflog Byw Caerdydd Wobr yr Hyrwyddwr Lleol am ei gefnogaeth i ddatblygu'r mudiad Cyflog Byw yn y brifddinas dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae ymchwil a gynhaliwyd gan Brifysgol Caerdydd wedi cyfrifo bod y cynnydd yn y Cyflog Byw Gwirioneddol ers 2012 wedi ychwanegu £100 miliwn yn ychwanegol at yr economi leol. Er gwaethaf y cyflawniadau hyn ac achredu 25 sefydliad newydd yn ystod 2024/25, mae'r amodau economaidd heriol yn golygu na chafodd y targed o 260 o gyflogwyr Cyflog Byw achrededig yng Nghaerdydd erbyn mis Tachwedd 2024 ei gyrraedd, gyda 225 o sefydliadau wedi'u hachredu erbyn diwedd mis Mawrth 2025. Yn yr un modd, mae nifer y gweithwyr sy'n derbyn codiad cyflog o ganlyniad i achrediad wedi gostwng o dros 13,000 trwy gydol 2023/24 i oddeutu 10,200 ar ddiwedd mis Mawrth 2025, yn is na'r targed o 14,000. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i sefydliadau yn peidio ag adnewyddu eu hachrediad, gan fod y mwyafrif ohonynt wedi mynd allan o fusnes. Mae'r sefyllfa hon yn cael ei hadlewyrchu ar draws y Deyrnas Unedig. Y ffocws yn hanner cyntaf 2025/26 fydd cyflwyno ymgyrch cyfryngau cymdeithasol sy'n hyrwyddo'r manteision o ddod yn gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol achrededig.



### 3.4 Atal digartrefedd pryd bynnag y bo modd a rhoi terfyn ar gysgu ar y stryd

Cafodd y Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai ddiwygiedig ar gyfer 2022-26[6] ei chymeradwyo gan y Cabinet ym mis Chwefror 2025. Mae'r Strategaeth hon yn nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer atal digartrefedd a chymorth sy'n gysylltiedig â thai ar gyfer y Cyngor a'i bartneriaid. Cafodd y strategaeth ei hadnewyddu ar ôl i'r Cyngor ddatgan Argyfwng Tai ym mis Rhagfyr 2023 ac wrth baratoi ar gyfer newidiadau i'w cyflwyno gan Lywodraeth Cymru fel y nodir yn y Papur Gwyn "Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru".

Mae'r Cyngor yn parhau i ddefnyddio dull ataliol o ymdrin â digartrefedd – yr amser aros cyfartalog am apwyntiad atal digartrefedd yn ystod 2024/25 oedd wyth diwrnod, yn is na'r uchafbwynt o 39 diwrnod ar ddiwedd 2022. Mae'r canlyniad diwedd blwyddyn hwn yn cael ei raddio'n goch gan ei fod yn uwch na'r targed o lai na saith diwrnod; fodd bynnag, mae'r canlyniadau chwarterol wedi bwrw'r targed neu wedi bod yn is na'r targed yn ystod y tri chwarter diwethaf. Dim ond canlyniad uchel Chwarter 1 sy'n achosi i'r canlyniad diwedd blwyddyn fod yn uwch na'r targed. Cafodd 77% o aelwydydd a oedd dan fygythiad o ddigartrefedd eu hatal yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartrefedd yn ystod y flwyddyn; roedd hyn yr un canlyniad ag yn 2023/24 er ei fod yn is na'r targed o 80%. Roedd 37% o'r bobl a gysylltodd â'r gwasanaeth am y tro cyntaf wedi mynd yn ddigartref y diwrnod hwnnw.

Mae hyn yn dangos gwelliant bach o 2023/24 pan gysylltodd 39% o bobl oedd wedi mynd yn ddigartref ar y diwrnod. Gofynnwyd i ymatebwyr i'r ymgynghoriad digartrefedd, a oedd wedi mynd yn ddigartref, beth oedd wedi'u hatal rhag cysylltu â'r Cyngor yn gynt. Dywedodd dros 50% nad oeddent naill ai'n ymwybodol o'r gwasanaethau oedd ar gael neu nad oeddent yn gwybod pwy i gysylltu â nhw. Mewn ymateb i hyn, bydd hyrwyddo'r cymorth a gynigir yn flaenoriaeth o fewn Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai dros y flwyddyn i ddod.

Mae gwaith yn parhau i atal a lleddfu digartrefedd ieuenctid yng Nghaerdydd. Mae'r Porth Pobl Ifanc yn gydweithrediad rhwng Gwasanaethau Plant a Gwasanaeth Tai y Cyngor, sy'n darparu tai a chymorth i'r rhai sydd dan fygythiad o ddigartrefedd neu sy'n profi digartrefedd. Cynhaliwyd adolygiad llawn ym mis Awst 2024, a ganfu bod angen newid ar y model Porth i ddiwallu anghenion pobl ifanc yn well o ystyried y lefelau uwch a'r anghenion cynyddol gymhleth. Mae gwelliannau'n cael eu gweithredu, gan ganolbwyntio ar leihau'r galw am wasanaethau, gwella'r broses bontio ar gyfer pobl sy'n gadael gofal, a chynyddu opsiynau llety dros dro a pharhaol.

Mae tair uned Tai yn Gyntaf ychwanegol ar ddeg ar gael i bobl ifanc yn ystod 2024/25. Nod y cynllun yw atal pobl ifanc rhag mynd i wasanaethau digartrefedd oedolion sy'n gallu cael effaith andwyol ar les a rhoi pobl ifanc mewn perygl o ymddygiad negyddol pellach. Mae prosiect newydd Tai Ffres, sy'n gydweithrediad â Chymdeithas Tai Unedig Cymru a Llamau, wedi darparu 34 o unedau o lety symud ymlaen o'r Porth Pobl Ifanc eleni ar draws tri safle gyda phum uned arall yn cael eu disgwyl erbyn diwedd haf 2025. Erbyn 2027 disgwylir i'r prosiect ddarparu cyfanswm o 102 o unedau o lety symud ymlaen. Mae saith uned ychwanegol o lety symud ymlaen wedi'u neilltuo i bobl ifanc ar safle newydd Gasworks 2. Fe wnaeth y YMCA agor Adref hefyd, sef 18 uned o lety o ansawdd uchel i bobl ifanc.

[6] Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai Caerdydd 2022-2026 - Adnewyddiad 2025

Agorodd y llety cymorth cyntaf i bobl ifanc sy'n cael ei reoli gan y Cyngor yn Cathays ddiwedd 2024. Mae llety a ddefnyddiwyd yn flaenorol ar gyfer myfyrwyr wedi'i drawsnewid yn 14 uned hunangynhwysol i ddarparu llety dros dro i bobl ifanc. Mae staff ar gael ar y safle 24/7 i gynnig cymorth, ac mae'r cynllun yn gallu darparu ar gyfer pobl ifanc ag anghenion cymhleth. Fodd bynnag, bu oedi sylweddol gyda phrosiect Citadel a fydd yn darparu tai cymorth newydd i bobl ifanc ag anghenion cymhleth. Mae cytundebau gyda Network Rail bellach wedi'u gwneud mewn egwyddor ond nid yw'r prif waith contract wedi dechrau eto. Mae'r trefniadau ar gyfer amserlen y gwaith yn cael eu trafod a'u cytuno. Oherwydd y galw am y math hwn o lety, mae'r Cyngor yn bwriadu agor prosiect arall trwy addasu Tŷ Countisbury (a oedd gynt ar gyfer oedolion) yn gynllun i bobl ifanc.

Mae Cyngor Caerdydd yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod unrhyw achos o gysgu ar y stryd yn brin, yn fyrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto. Y nifer cyfartalog o bobl sy'n cysgu ar strydoedd y ddinas yn ystod 2024/25 oedd 34. Fodd bynnag, mae'r nifer wedi bod yn gostwng ers mis Medi 2024, ac mae'r Cyngor yn gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau bod y duedd honno'n parhau. Nid oes gan bron hanner y rhai sy'n cysgu ar y stryd unrhyw hawl i gyllid cyhoeddus neu unrhyw gysylltiad â'r ardal leol. Mae hyn yn cyfyngu ar y cymorth y mae'r Cyngor yn gallu ei ddarparu i'r unigolion hyn. Lle nad oes gan y rhai sy'n cysylltu â'r gwasanaethau gysylltiad lleol â Chaerdydd, maent yn cael eu cyfeirio yn ôl at eu hawdurdod lleol gwreiddiol i gael cymorth a chefnogaeth lle bo hynny'n bosibl.

Tîm LLETY (Landlordiaid ag Eiddo, Tenantiaeth, Ymholiadau) yw'r pwynt cyswllt cyntaf i landlordiaid ac mae'n gweithio i wella mynediad i'r sector rhentu preifat yn y ddinas. Hyd yn hyn, mae'r Cyngor wedi prydlesu 93 o eiddo gan landlordiaid preifat trwy Gynllun Prydlesu Llywodraeth Cymru (37 yn 2024/25), gan ddarparu amrywiaeth o dai fforddiadwy ledled y ddinas gan fod rhenti'n cael eu gosod ar lefel y Lwfans Tai Lleol. O'r eiddo hyn roedd 49 yn gartrefi gwag yn flaenorol. Mae 42 eiddo arall yn cael eu hystyried ar gyfer y cynllun.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynyddu swm y llety sydd ar gael er mwyn mynd i'r afael â phwysau digartrefedd. Mae cynlluniau a reolir yn darparu cymorth ar y safle fel rhan o denantiaethau diogel i'r rhai sydd ei angen, gan alluogi unigolion i symud ymlaen yn gynt o lety digartref. Mae 156 o breswylwyr yn y cynlluniau presennol, heb unrhyw achosion o droi allan wedi'u cofnodi ers eu cyflwyno, ac mae cynlluniau ar waith i ddatblygu saith cynllun newydd a reolir dros y pedair blynedd nesaf.

Mae datblygiad helaeth ar safle'r Gwaith Nwy yn Grangetown, mewn partneriaeth â Wates Residential, wedi creu dau gynllun, gyda dros 200 o unedau modiwlaidd yn darparu llety dros dro mawr ei angen i deuluoedd a phobl ifanc. Mae tri chynllun llety dros dro newydd arall i deuluoedd hefyd wedi'u datblygu mewn partneriaeth â Chymdeithasau Tai, gan ddarparu 90 o unedau llety, ac mae nifer o gaffaeliadau eiddo mwy sylweddol, gan gynnwys gwesty gyda dros 150 o unedau, wedi'u cymeradwyo. Er gwaethaf y cynnydd hwn mewn llety, nid yw'r cyflenwad uniongyrchol yn cadw i fyny â'r lefelau presennol o alw. O ganlyniad, mae nifer o westai yn cael eu defnyddio i ddarparu llety dros dro ychwanegol. Ar ddiwedd mis Mawrth 2025, roedd 151 o unigolion digartref a 37 o deuluoedd digartref yn cael eu cefnogi mewn llety gwesty. Cydnabyddir yn eang nad llety gwesty yw'r ateb tai a ffefrir, yn enwedig i deuluoedd digartref, a dyna pam mae rhoi diwedd ar ddefnyddio gwestai i deuluoedd wedi'i gynllunio ar gyfer haf 2025.

# Amcan Lles 4:

## Cymunedau diogel, hyderus a grymus

### Ein blaenoriaethau yn 2024/25 oedd:

4.1 Arwain yr ymateb i'r Argyfwng Tai

4.2 Buddsoddi yng nghymunedau Caerdydd

4.3 Sicrhau bod plant ac oedolion yn cael eu diogelu rhag y perygl o niwed a cham-drin

4.4 Creu cymunedau diogel a chynhwysol


4.5 Hyrwyddo'r Gymraeg

4.6 Cefnogi chwaraeon llawr gwlad a chymunedol ar draws y ddinas

4.7 Darparu parciau a mannau cyhoeddus o ansawdd uchel

**Crynodeb o Sefyllfa Perfformiad y Cynllun Corfforaethol ar Ddiwedd y Flwyddyn**




Mae'r camau a'r DPAau sydd wedi'u marcio'n Goch yn Chwarter 4 yn cael eu trafod yn y naratif isod, a gellir dod o hyd i'r sylwadau a'r canlyniadau llawn yn erbyn pob cam a DPA yn y Dangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol.

## Asesiad Cyffredinol

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran creu cymunedau diogel, hyderus a grymus yng Nghaerdydd, gyda thri chwarter y camau gweithredu o dan yr amcan hwn wedi'u graddio'n wyrdd trwy gydol 2024/25. Dros y degawd diwethaf mae'r Cyngor wedi datblygu rhwydwaith o ganolfannau cymunedol a gwasanaethau cyhoeddus sy'n boblogaidd, yn cael eu defnyddio'n dda ac sy'n cefnogi darparu gwasanaethau cyhoeddus lleol sy'n ymateb i'r cymunedau y maent wedi'u lleoli ynddynt. Mae hyn yn sicrhau bod y Cyngor yn cadw presenoldeb lleol yn y gymuned i ddarparu ystod o wasanaethau gan gynnwys gwasanaethau llyfrgell; cyngor ar arian ac i mewn i waith; a chymorth digartrefedd a thai. Mae prosiectau adfywio lleol yn parhau i wella ansawdd yr amgylchedd adeiledig mewn canolfannau ardal a chymunedol. Mae'r Cyngor hefyd wedi gwneud cynnydd da wrth gyflawni cynlluniau tai cymunedol, gyda dros 1,800 o gartrefi newydd wedi'u darparu trwy'r rhaglen datblygu tai, a chytunwyd ar bartneriaeth tai newydd.

Mae gweithio mewn partneriaeth â Heddlu De Cymru, partneriaid a chymunedau yn cael ei ystyried yn faes arfer da gan y Cyngor a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gynnwys ymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ardaloedd lle mae'n broblem benodol a gwaith gwell i fynd i'r afael â chamfanteisio a materion cydlyniant cymunedol ehangach. Dros y tair blynedd diwethaf mae'r Cyngor wedi arwain ymateb ledled y ddinas i gyfres o argyfyngau lloches a ffoaduriaid, gan gynnwys argyfyngau Wcráin ac Affganistan a'r rhaglen gwasgaru cyflym. O ystyried y pwysau parhaus yn system fudo'r DU a rôl Caerdydd fel canolfan gwasgaru'r DU, bydd y maes hwn yn parhau i fod yn flaenoriaeth gorfforaethol am y flwyddyn i ddod.

## Meysydd Cynnydd

- Mae dros 1,800 o gartrefi newydd wedi cael eu darparu trwy raglen datblygu tai'r Cyngor.
- Mae 162 o eiddo sector preifat gwag wedi'u hadfer i'w defnyddio neu anheddau ychwanegol wedi'u creu ledled y ddinas. Roedd 153 o'r eiddo hyn wedi bod yn wag ers dros 12 mis.
- Canmolwyd darpariaeth llyfrgelloedd Caerdydd am y gwasanaethau o'r safon uchaf a ddarperir i breswylwyr ledled y ddinas. Mae Caerdydd wedi bodloni pob un o 13 elfen graidd y safonau'n llawn ac o'r saith dangosydd ansawdd sydd â thargedau, mae wedi bodloni chwech yn llawn ac un yn rhannol
- Cymeradwywyd Strategaeth Byw'n Dda gydag Anabledd Dysgu i Oedolion y Cyngor gan y Cabinet ym mis Mawrth 2025.
- Cyflawnodd Tîm Prevent y ddinas a ariennir gan y Swyddfa Gartref sgoriau 'rhagorol' ar draws pob maes o Asesiad Perfformiad 2024/25 y Swyddfa Gartref ac mae wedi sicrhau cyllid i arwain gwaith rhanbarthol yn 2025/26.
- Dyfarnwyd statws Baner Werdd i Barc Cathays a Pharc y Maltings yn y Sblot, gan ddod â chyfanswm nifer y parciau Baner Werdd yng Nghaerdydd sy'n cael eu rhedeg gan y Cyngor i 20.

## Meysydd Her a Risg

- Mae'r pwysau ar y farchnad dai, yn enwedig y gost gynyddol a diffyg argaeledd cartrefi yn y sector rhentu preifat, yn parhau i fod yn her strategol i'r Cyngor, gan achosi pwysau sylweddol o ran galw a chostau yn y gwasanaethau tai a digartrefedd ac ar draws nifer o wasanaethau eraill y Cyngor.
- Bu gostyngiad 7.2% o ran boddhad tenantiaid y Cyngor ar y Cyngor fel eu landlord rhwng 2023/24 i 66.2%.
- Nid yw'r gwaith ar Strategaeth Adfywio newydd y Cyngor i gefnogi canolfannau dosbarth a lleol wedi symud ymlaen oherwydd problemau staffio o fewn y tîm ac anawsterau recriwtio.
- Mae nifer yr ymholiadau am amddiffyn oedolion yn parhau i gynyddu (cynnydd o 9.5% yn y galw yn 2024/25 o'i gymharu â 2023/24), gan ei gwneud hi'n fwyfwy anodd prosesu ymholiadau o fewn saith diwrnod.

---

### 4.1 Arwain yr ymateb i'r Argyfwng Tai

Mae'r Cyngor wrthi'n gweithio i ehangu argaeledd tai fforddiadwy, ynni-effeithlon a charbon isel ledled y ddinas. Hyd yn hyn, mae 1,834 o gartrefi wedi'u cwblhau ar yr holl lwybrau cyflawni, gan gynnwys trwy Cartrefi Caerdydd mewn partneriaeth â Wates Residential, ers dechrau'r rhaglen yn 2017, ac mae 364 o gartrefi newydd wedi'u darparu yn ystod y flwyddyn. Yn ogystal, mae 71 o safleoedd datblygu wedi'u nodi sy'n gallu darparu hyd at 4,700 o gartrefi newydd – ymhell uwchlaw targed y Cyngor o 4,000 o gartrefi erbyn 2035. Ar ôl cwblhau'r broses ddeialog gystadleuol ar gyfer yr ail bartneriaeth dai, cymeradwyodd y Cabinet y datblygwr a ffefrir ym mis Rhagfyr 2024, a chynhaliwyd penodiad ffurfiol Partneriaethau Lovell ym mis Ionawr 2025.

Mae'r gwaith yn parhau i adfer cartrefi gwag i'w defnyddio, gan wella'r stoc dai sydd ar gael. Mae'r Cyngor wedi cynyddu'r premiwm Treth Gyngor ar eiddo gwag hirdymor. O ddechrau 2024/25, mae'r premiymau newydd yn 100% ar ôl 12 mis, yn 200% ar ôl 24 mis ad yn 300% ar ôl 36 mis. Y gobaith yw y bydd y cynnydd hwn dros amser yn annog perchnogion tai i adfer yr eiddo gwag hirdymor hyn fel y gellir eu meddiannu. Yn chwarter cyntaf y flwyddyn cynhaliwyd ymgyrch bostio flynyddol i holl berchnogion eiddo gwag. Derbyniwyd cyfradd ymateb uwch na'r arfer (17.8%), gan alluogi'r gwasanaeth i ddarparu cyngor a chymorth pwrpasol ar sut i adfer eiddo gwag i'w defnyddio. O ganlyniad i'r gwaith rhagweithiol hwn, yn ystod 2024/25 cafodd 162 o eiddo sector preifat gwag eu hadfer i'w defnyddio neu anheddau ychwanegol eu creu ledled y ddinas. Roedd 153 o'r eiddo hyn wedi bod yn wag ers dros 12 mis.

Gwnaed cynnydd da o ran codi safonau tai yn y sector rhentu preifat wrth i gynllun Rhentu Doeth Cymru fynd i'r afael ag asiantau a landlordiaid twyllodrus. Mae'r Cyngor hefyd wedi parhau i ymyrryd lle mae angen cymryd camau gorfodi yn erbyn landlordiaid neu lle mae angen mynd i'r afael â pheryglon i ddiogelwch mewn cartrefi.

Mae'r Cyngor yn cyflwyno atebion tai arloesol i fynd i'r afael â materion fel gorlenwi, tanfeddiannu, diffyg llety teuluol a diffyg eiddo wedi'i addasu. Mae strategaeth newydd wedi'i datblygu i hyrwyddo cyfnewidiadau cydfuddiannol, ac mae'r swyddog sicrhau maint cywir yn gweithio ar sawl pariad posibl. Disgwylir canlyniadau'r rhain yn 2025/26. Mae cyfarfodydd misol yn parhau i nodi aelwydydd a allai elwa o estyniadau, ac mae meini prawf penodol yn cael eu sefydlu ar gyfer atgyfeiriadau i'r cynllun estyniadau. Hyd yn hyn, mae naw newid adeileddol wedi'u cwblhau i ehangu eiddo a mynd i'r afael â materion gorlenwi.

Lansiwyd Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) newydd ar gyfer 2023 ym mis Hydref y flwyddyn honno gyda phob landlord cymdeithasol yng Nghymru yn gyfrifol am gynnal a chadw eu cartrefi'r i'r safonau hyn. Mae SATC 2023 yn cynnwys holl ofynion y safon flaenorol ond gyda mwy o bwyslais ar fynd i'r afael â datgarboneiddio yn y stoc tai cymdeithasol a sicrhau bod cartrefi o ansawdd uwch ac yn fwy fforddiadwy i'w gwresogi. Mae trefniadau rheoli prosiect clir ar waith i oruchwylio gweithredu'r safon newydd. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i ddeall y safon newydd yn llawn a'r heriau cysylltiedig o ran materion ariannol a chyflawni. Bydd cost gweithredu'r safon newydd yn sylweddol a bydd cyllid ychwanegol yn hanfodol i ymgymryd â'r rhaglen waith angenrheidiol. Mae polisi cydymffurfio â SATC wedi'i gwblhau a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ynghyd â'r costau amcangyfrifedig ar gyfer cyflawni'r safon. Mae cronfa ddata asedau newydd yn cael ei hadeiladu, ac mae arolygon o'r stoc dai wedi dechrau. Mae 10% o'r stoc eisoes wedi'i arolygu gyda tharged i gwblhau o leiaf 10% yn y flwyddyn i ddod.

Yn anffodus, bu gostyngiad o ran boddhad tenantiaid y Cyngor ar y Cyngor fel eu landlord i 66.2% o'r ymatebwyr i Arolwg Tenantiaid 2024, sef gostyngiad 7.2% ar ganlyniad arolwg 2023. Mae adborth o'r arolwg wedi'i adolygu ac mae camau gweithredu i gynyddu boddhad yn cael eu gweithredu yng Nghynllun Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth ar gyfer 2025/26.

Arweiniodd galw uchel am atgyweiriadau ymatebol at ôl-groniad sylweddol o waith gan arwain at fwy o gwynion gan denantiaid. Mae cynnydd da wedi'i wneud o ran lleihau'r ôl-groniad o uchafbwynt ym mis Mehefin 2024 o 4,372 o swyddi heb eu dyrannu i 1,873 ar ddiwedd mis Mawrth 2025. Cafodd gwaith ei flaenoriaethu'n ofalus a, dros y flwyddyn, cwblhawyd 98% (yn erbyn targed o 95%) o atgyweiriadau brys i eiddo'r Cyngor ar amser (o fewn dwy awr) a chwblhawyd 76% o atgyweiriadau brys ar amser yn erbyn targed o 70%. Fodd bynnag, dylid nodi bod yr amser targed ar gyfer atgyweiriadau brys wedi'i gynyddu o 5 diwrnod i 15 diwrnod yn ystod y flwyddyn i ymateb i'r lefelau uchel iawn o alw. Mae cynllun gweithredu llawn wedi'i roi ar waith i wella pob agwedd ar y gwasanaeth atgyweiriadau ymatebol. Mae cwynion am y gwasanaeth yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac mae meysydd i'w gwella yn cael eu nodi a'u datrys, ac ar hyn o bryd mae digwyddiad Llais y Tenantiaid am atgyweiriadau wedi'i gynllunio ar gyfer Chwarter 1 2025/26 a fydd yn cynnwys yr Academi Atgyweiriadau, atgyweiriadau ar-lein ac atgyweiriadau cyffredinol. Hefyd, o ganlyniad i adnoddau ychwanegol a newidiadau i'r broses yn y Tîm Cartrefi Sych, cyflawnwyd gostyngiad o 52% yn nifer yr achosion o leithder yn eiddo'r Cyngor, gan leihau'r ffigur o 1,446 ym mis Ebrill 2024 i 692 o achosion ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Mae'r Academi Atgyweiriadau wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth i Mewn i Waith i dderbyn ymgeiswyr profiad gwaith. Mae ymgeiswyr wedi cael eu paru'n llwyddiannus â gweithredwyr ar draws gwahanol grefftau ac mae adborth cadarnhaol wedi'i dderbyn gan fentoriaid ac ymgeiswyr. Mae gwaith wedi cael ei wneud i nodi bylchau mewn setiau sgiliau i'r dyfodol a defnyddio gwybodaeth a sgiliau gweithredwyr presennol i hyfforddi prentisiaid y dyfodol. O ganlyniad, mae dau brentis gosod brics wedi'u penodi, ac mae pob un o'r chwe swydd prentis wedi'u llenwi.

Mae diogelwch tân ym mhob cartref yn brif flaenoriaeth. Mae'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a sefydliadau rhanddeiliaid wrth ddatblygu eu Rhaglen Diogelwch Adeiladau ar gyfer blociau fflatiau canolig ac uchel yn y sector preifat.  Ar ôl cwblhau'r gwaith ymgynghorol, mae'r ffocws ar sut mae cynghorau'n gallu darparu'r adnoddau ar gyfer y drefn arfaethedig. Cydnabyddir bod prinder swyddogion cymwys addas ar gael a bwlch sgiliau sylweddol a fydd yn cymryd cryn amser i'w datrys. Mae'r Tîm Arolygu ar y Cyd (TAC) a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn datblygu atodlen adeiladau uchel y bydd yn eu harolygu yn ystod 2025/26, gyda'r amserlen yn cael ei chytuno gan grŵp llywio'r TAC. Mae SRS ynghyd â chydweithwyr yn Abertawe yn trafod materion gorfodi adnoddau sy'n deillio o arolygiadau uchel y TAC.

O ran eiddo'r Cyngor, mae gwaith ar y gweill i ddisodli'r cladin ar flociau uchel, gyda thri bloc wedi'u cwblhau hyd yma a chyllid wedi'i sicrhau ar gyfer gwaith ar ddau floc arall. Yn ogystal ag ymweliadau rheolaidd â gwahanol flociau fflatiau uchel gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru, mae hyfforddiant gwasanaeth tân byw wedi'i gwblhau yn Trem y Môr ac mae asesiadau risg tân ar gyfer blociau fflatiau isel a blociau fflatiau anghymunedol yn parhau i gael eu cynnal. Mae adolygiad llawn o'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn cynnal Asesiadau Risg Tân, ac yn cofnodi ac yn cyfathrebu camau gweithredu tân, ar y gweill gyda'r bwriad o wella amseroedd ymateb, a chynyddu gwelededd camau gweithredu pendant a'u blaenoriaethu'n effeithiol.

## 4.2 Buddsoddi mewn cymunedau

Bob blwyddyn, mae gwasanaethau llyfrgelloedd ledled Cymru yn cael eu hasesu yn erbyn Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru sy'n cael eu gweinyddu gan Lywodraeth Cymru. Canmolwyd darpariaeth Caerdydd am y gwasanaethau o'r safon uchaf a ddarperir i breswylwyr ledled y ddinas. Mae Caerdydd wedi bodloni pob un o 13 elfen graidd y safonau yn llawn ac, o'r saith dangosydd ansawdd sydd â thargedau, mae'n cyflawni chwech yn llawn ac un yn rhannol. Nododd yr asesiad blynyddol fod Caerdydd yn cynnig gwasanaeth o ansawdd uchel i'w gwsmeriaid. Mae cymorth i ddefnyddwyr a phresenoldeb mewn digwyddiadau yn parhau i fod yn gryfderau allweddol i'r gwasanaeth a nodwyd bod staff yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod y rhain yn gynhwysol i gwsmeriaid ag ystod eang o anghenion a diddordebau.

Mae ystod o ddangosyddion perfformiad yn dangos bod y rhwydwaith presennol o lyfrgelloedd a hybiau yn asedau cymunedol gwerthfawr iawn, gan fod y ddau yn derbyn llawer o ymwelwyr – gyda dros 2.3 miliwn o ymwelwyr wyneb yn wyneb wedi'u cofnodi yn 2023/24, 100,000 yn fwy nag yn 2023/24 – ac yn sgorio'n dda o ran boddhad cwsmeriaid. Fodd bynnag, mae dangosyddion perfformiad sy'n mesur gweithgarwch rhithwir i gyd yn is na'r targed. Yn anffodus, oherwydd gosod System Rheoli Llyfrgelloedd newydd, nid oedd y catalog cyhoeddus sy'n wynebu'r cyhoedd gyda dolenni i'r holl adnoddau digidol ar gael am gyfnod o bum wythnos sydd wedi effeithio ar nifer yr ymweliadau â'n llyfrgell ddigidol a'r eitemau wedi'u lawrlwytho ohoni. Ar ôl rhagori ar y targed am y ddwy flynedd ddiwethaf, roedd nifer yr achlysuron yr edrychwyd  ar dudalennau gwe'r hybiau yn llawer llai na'r targed – ychydig yn is na 208,000 yn erbyn targed o 420,000.  Yn dilyn ymchwiliad, credir ei bod hi'n debygol bod nifer yr achlysuron yr edrychir ar dudalen we yn parhau ar y gyfradd flaenorol. Fodd bynnag, mae

ychwanegu datganiad polisi cwcis newydd at holl wefannau'r Cyngor, gan gynnwys gwefan yr hybiau, yn caniatáu i ddefnyddwyr wrthod dadansoddeg sy'n golygu nad yw rhai achlysuron lle mae rhywun wedi edrych ar dudalen we yn cael eu cofnodi mwyach.

Mae cynnydd yn parhau i gael ei wneud gyda datblygiad parhaus yr Hybiau Cymunedol, Ieuenctid a Lles. Mae penaethiaid tymhorau wedi'u cytuno ar gyfer Hyb Iechyd a Lles newydd Trelái a Chaerau sy'n cael ei ddarparu mewn partneriaeth â BIP Caerdydd a'r Fro. Disgwylir i'r achos busnes llawn gael ei gyflwyno erbyn mis Awst 2025. Mae ymgysylltu â phobl ifanc wedi digwydd ar gyfer y prosiect Mannau Trelái i Bobl Ifanc. Mae'r camau nesaf yn cael eu trafod ag Aelodau'r Cabinet a chynghorwyr ward. Mae cynlluniau ar gyfer Hyb Ieuenctid Canol y Ddinas wedi symud ymlaen, gyda gwaith dylunio Cam 3 Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain yn tynnu at ei ddiweddd 2024. Fodd bynnag, ni all y prosiect symud ymlaen nes bod materion ynglŷn â'r eiddo sy'n cael ei ddal mewn ymddiriedolaeth yn cael eu datrys. Cytunwyd ar gynnig partneriaeth ar gyfer Cynllun Hyb Glan-yr-afon gyda BIP Caerdydd a'r Fro yn gynnar yn 2025. Mae briff prosiect wedi'i baratoi ac mae'n mynd allan i dendro ar gyfer tîm dylunio amlddisgyblaethol. Mae'r gwaith i gydlynu piblinell flaenoriaeth a rennir o gynlluniau iechyd, tai ac adfywio integredig ar gyfer dylunio a chyflawni ar safleoedd strategol fel y rhai yn Llys-faen a Phlasdŵr a Hyb Llanfihangel yn mynd rhagddo'n dda gyda llywodraethu ffurfiol a bwrdd newydd wedi'u cytuno â BIP Caerdydd a'r Fro.

Sicrhawyd cyllid allanol gwerth bron £2.7 miliwn i gyflawni mentrau adfywio mewn cymunedau ledled y ddinas. Yn anffodus nid yw'r gwaith ar y Strategaeth Adfywio newydd wedi symud ymlaen oherwydd problemau staffio o fewn y tîm ac anawsterau recriwtio, er i'r swydd gael ei llenwi o'r diwedd yng nghanol mis Mawrth. Disgwylir i'r Strategaeth gael ei chwblhau erbyn mis Medi 2025. Mae materion tebyg hefyd wedi oedi cwblhau cynllun creu lleoedd Coridor Busnes Glan-yr-afon a dechrau gwaith cwmpasu i lywio cynllun creu lleoedd newydd ar gyfer Coridor Busnes y Rhath/Adamsdown. Mae cais am gyllid i'r cynllun Trawsnewid Trefi wedi'i baratoi ar gyfer cynllun adfywio Heol Ddwyreiniol y Bont-faen. Fodd bynnag, ni ellir cyflwyno hwn nes bod cynllun creu lleoedd Coridor Busnes Glan-yr-afon wedi'i adnewyddu'n cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w ystyried.

## 4.3 Sicrhau bod plant ac oedolion yn cael eu diogelu rhag y perygl o niwed a cham-drin

Mae ymwybyddiaeth gorfforaethol o ddiogelu yn uchel, ac mae canran y staff sydd wedi cwblhau Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Diogelu yn 93.6%, y gyfradd uchaf a gyflawnwyd hyd yma ac ymhell yn uwch na'r targed o 85%.

Er bod y Cyngor wedi methu cyrraedd ei darged i gwblhau'r holl ymholiadau amddiffyn oedolion o fewn saith diwrnod, ar draws 2024/25 cwblhawyd 97.7% o fewn yr amser hwn, sy'n parhau i fod yn berfformiad da iawn. Cafwyd achosion o oedi oherwydd prinder staff a chynnydd sylweddol yn y galw (cynnydd o tua 9% mewn ymholiadau o'i gymharu â 2023/24, gyda rhai uchafbwyntiau sylweddol mewn rhai misoedd).

Mae'r model Diogelu Pobl Ifanc rhag Camfanteisio (SAFE) yn parhau i gael ei weithredu'n effeithiol. Mae hyn wedi cynnwys sawl digwyddiad rhwydweithio a chodi ymwybyddiaeth – wyneb yn wyneb ac ar-lein – gyda ffocws ar faterion allweddol fel 'cogio', troseddau cyllyll, a thrais yn erbyn menywod a merched.

Cymeradwywyd Strategaeth Byw'n Dda gydag Anabledd Dysgu i Oedolion[7] y Cyngor gan y Cabinet ym mis Mawrth 2025. Mae'r Strategaeth yn amlinellu'r ffordd orau y gall y Cyngor ymateb i'r galw, a chefnogi anghenion oedolion ag anableddau dysgu, yr amcangyfrifir eu bod yn ffurfio tua 2-3% o'r boblogaeth.

[7] Strategaeth Byw'n Dda gydag Anabledd Dysgu i Oedolion 2024-2029 Caerdydd

Mae gan Wasanaethau Oedolion y Cyngor gynlluniau uchelgeisiol i ddatblygu cynlluniau byw â chymorth newydd, gyda chynllun pum mlynedd ar waith mewn partneriaeth â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a thîm datblygu tai y Cyngor ei hun. Mae peth oedi wedi cael ei brofi eleni gydag amserlenni ar gyfer cynlluniau adeiladu newydd ond mae cynnydd da yn dal i gael ei wneud o ran nodi cynlluniau piblinellau newydd. Mae'r Cyngor hefyd wedi cytuno ar safle newydd a ffefrir ar gyfer y Gwasanaeth Dydd Anghenion Cymhleth, sy'n darparu cymorth i unigolion ag anabledd dysgu a phroblemau iechyd neu ymddygiad sy'n digwydd ar yr un pryd. Mae gwaith dylunio pensaernïol wedi dechrau ar y Ganolfan Ddydd newydd ar gyfer y gwasanaeth.

Yn unol â'r Fframwaith Hyfforddi Awtistiaeth Cenedlaethol i Gymru, mae pedair haen hyfforddiant wedi'u gosod yn seiliedig ar y lefel o ymwybyddiaeth sy'n ofynnol mewn gwahanol rolau sector cyhoeddus. Mae fframwaith cyflawni ar gyfer yr hyfforddiant hwn ar waith ar gyfer 2025/26, sydd hefyd yn darparu cynnwys ychwanegol am niwroamrywiaeth, trawma ac ADCG. Yn dilyn addewid y Cyngor i weithio tuag at ddod yn ddinas sy'n deall niwrowahaniaeth ym mis Medi 2023, mae gwaith yn cael ei wneud i gynhyrchu Strategaeth Deall Niwrowahaniaeth. Disgwylir i hyn gael ei ystyried gan y Cabinet yn haf 2025.

Mae Cyngor Caerdydd yn gweithio'n agos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i gefnogi'r rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl. Ym mis Tachwedd 2024, lansiwyd gwasanaeth Noddfa Seibiant Iechyd Meddwl y gellir ei gyrchu trwy linell ffôn 111 y GIG. Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cymorth anghlinigol yn y gymuned sy'n seiliedig ar drawma fel dewis arall i fynd i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Chwe mis ar ôl mynd yn fyw, mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n cynnal adolygiad gwerthuso o'r gwasanaeth, gyda chanfyddiadau cychwynnol yn awgrymu y gellid gwneud mwy i gynyddu'r niferoedd sy'n cael mynediad i'r gwasanaeth.

Mae gwaith wedi'i dargedu i leihau anghydraddoldebau iechyd ledled y ddinas wedi bod yn mynd rhagddo trwy gydol y flwyddyn mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan ganolbwyntio ar bwysau ac ymarfer corff iach, brechiadau plentyndod a sgrinio'r coluddyn. Cydnabuwyd y dull partneriaeth o gynyddu cyfraddau brechu sydd ar waith yng Nghaerdydd gan Wobrau Mae Brechu'n Achub Bywydau 2025, gyda Chaerdydd yn ennill Gwobr y Tîm, dan arweiniad y Tîm Iechyd Cyhoeddus lleol.

## 4.4 Creu cymunedau diogel a chynhwysol

Yn ystod 2024/25 mae'r Tîm Diogelwch Cymunedol wedi datblygu ymhellach eu dull rhagweithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth o dargedu materion lleol gan ddefnyddio dangosfyrddau monitro perfformiad lleol, ynghyd â'r hyn sy'n gweithio o ran ymyriadau a gyflwynir. Mae proffiliau ward wedi'u targedu yn cael eu creu ar gyfer yr ardaloedd sydd â'r galw mwyaf: Adamsdown a'r Sblot; Butetown; Trelái a Chaerau; a chanol y ddinas. Bydd y proffiliau hyn yn cofnodi'r holl brosiectau arfaethedig mewn ward(iau), yn monitro effeithiolrwydd ymyriadau ac yn nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg, gan ddarparu dull rhagweithiol o ymdrin â materion troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol hirdymor. Mae'r gwaith yn cael effaith gadarnhaol; mae canran y preswylwyr sy'n cytuno bod gwasanaethau cyhoeddus yn delio'n llwyddiannus ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddu yn eu hardal leol wedi cynyddu o 26% yn 2023/24 i 30% yn 2024/25.

Mae Caerdydd yn falch o fod yn ddinas agored a chynhwysol a bydd yn parhau i arwain fel Dinas Noddfa wrth groesawu ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Fe wnaeth penderfyniad y Swyddfa Gartref ddiwedd 2023 i gyflymu gwasgariad lloches arwain at bwysau galw sylweddol ar yr awdurdod lleol. Ar ddechrau 2024/25, cyflwynwyd dull gweithredu dwys newydd i gefnogi pobl sydd wedi ennill statws ffoaduriaid yn ddiweddar gyda'u hanghenion tai ac anghenion eraill. Ymgysylltodd y Cyngor â landlordiaid y sector preifat a chysylltodd gleientiaid â gwasanaethau cymorth perthnasol megis y Gwasanaethau i Mewn i Waith a Chynghori, SSIE (Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill) ac Addysg Oedolion. Mae'r dull wedi'i dargedu hwn wedi lleihau hyd arhosiad ffoaduriaid mewn llety dros dro 50%.

Roedd heriau recriwtio'n cael effaith ar gyflawni'r Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ranbarthol ar gyfer 2023-28. Fodd bynnag, mae'r swydd ymgynghorydd rhanbarthol newydd bellach wedi'i llenwi ac mae deiliad y swydd yn gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i gytuno ar ddulliau a sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni. Bydd y gwaith ar gam-drin ar sail anrhydedd yn parhau i'r flwyddyn nesaf gydag ychydig o oedi cyn cwblhau'r Strategaeth Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod. Er mwyn ailgomisiynu'r ddarpariaeth gwasanaeth arbenigol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, cynhaliwyd adolygiad o ddarpariaeth gyfredol gwasanaeth RISE. Yn dilyn canfyddiadau'r adolygiad a'r digwyddiad marchnata dilynol a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr, penderfynwyd symud ymlaen â chomisiynu darpariaeth arbenigol o dan ddull system gyfan o gyflawni ar y cyd. Roedd achosion o oedi byr yn gynnar yn 2025 oherwydd ymgorffori deddfwriaeth comisiynu newydd a dau o'r contractwyr presennol yn uno. Disgwylir i'r comisiynu fod yn ôl ar y trywydd iawn erbyn haf 2025.

Mae cynnydd da yn parhau i gael ei wneud yng Nghaerdydd i gyflawni pedwar maes y Strategaeth CONTEST genedlaethol (Atal, Diogelu, Paratoi, Mynd ar Drywydd). Mae Caerdydd yn faes blaenoriaeth Prevent ac mae Tîm Prevent y ddinas a ariennir gan y Swyddfa Gartref yn gweithio'n rhagweithiol i ddiogelu unigolion sydd mewn perygl o radicaleiddio. Cafodd y tîm sgoriau 'rhagorol' ar draws pob maes yn Asesiad Perfformiad 2024/25 y Swyddfa Gartref ac mae wedi sicrhau cyllid i arwain gwaith rhanbarthol yn 2025/26.

Mae Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir wedi gwneud cynnydd da wrth gyflawni'r camau gweithredu a gynhwysir yn eu Cynllun Busnes 2024/25 ac i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles economaidd defnyddwyr, busnesau a phreswylwyr. Mae 27 o erlyniadau llwyddiannus wedi'u cwblhau am amrywiaeth o droseddau gan gynnwys tai, lles anifeiliaid, masnachwr twyllodrus, iechyd a diogelwch, gwerthu dan oed ac achosion fêps anghyfreithlon. Enillodd 95.8% o'r safleoedd bwyd a arolygwyd yn ystod y flwyddyn sgôr hylendid bwyd o 3 neu uwch.

## 4.5 Hyrwyddo'r Gymraeg

Gweledigaeth Cyngor Caerdydd yw creu prifddinas wirioneddol ddwyieithog, ac mae cynnydd yn parhau i gael ei wneud o ran hyrwyddo'r Gymraeg, o fewn y Cyngor ac ar draws y ddinas. Ar 31 Mawrth 2025, nododd 1480 o weithwyr fod sgiliau Cymraeg ganddynt. Mae hyn yn gynnydd o 10% ers 2023/24 (1,344) ac mae'n cynrychioli 18.82% o'r gweithlu corfforaethol. Os cynhelir y cynnydd presennol, bydd canran gweithlu Cyngor Caerdydd sydd â sgiliau Cymraeg yn 21.7% erbyn 2027.

Mae 1,417 o aelodau staff Cyngor Caerdydd wedi cwblhau cyrsiau Cymraeg yn 2024/25 gyda chyfanswm o 4,775 wedi cwblhau cyrsiau Cymraeg ers 2022. Mae hyn yn 59% o'r gweithlu presennol sy'n golygu bod Cyngor Caerdydd eisoes wedi cyrraedd ei darged ar gyfer 2027.

Mae'r Cyngor wedi cydlynu partneriaeth Cymraeg i Bawb sy'n hyrwyddo mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg ledled De-ddwyrain Cymru. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru yn gynnar yn 2025 y bydd cyllid ar gael i ehangu'r cynllun peilot hwn ledled Cymru gyfan. Cynhelir trydedd ffair yrfaoedd Gymraeg flynyddol, o'r enw Gyrfa Gymraeg, ym mis Mehefin 2025. Wedi'i chynnal ar y cyd â cholegau a phrifysgolion Caerdydd, mae'r ffair yn rhoi cyfle i ddisgyblion Blwyddyn 12 o bob cwr o Dde Cymru ddysgu mwy am gyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth Cymraeg.

## 4.6 Cefnogi chwaraeon llawr gwlad a chymunedol ar draws y ddinas

Ymgorfforwyd Partneriaeth Chwaraeon Rhanbarthol Canolbarth y De yn swyddogol fel y Central South Active Partnership Limited (CSAP) ym mis Awst 2024. Trwy Gytundeb Menter ar y Cyd y Cyngor â Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd, mae gan y Cyngor gynrychiolaeth yn y CSAP ac mae ganddo ymrwymiad i ddiogelu'r gyllideb bresennol ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf gyda photensial ar gyfer twf. Mae'r Cytundeb Menter ar y Cyd wedi'i adolygu yn dilyn y digwyddiad dathlu 10 mlynedd i sicrhau ei fod yn addas i'r diben i ddarparu Strategaeth Gweithgarwch Corfforol a Chwaraeon Caerdydd 2022-27[8] ac yn integreiddio â rhanbartholi datblygu chwaraeon; mae'r cytundeb diwygiedig wrthi'n cael ei gwblhau.

Mae clybiau chwaraeon cymunedol lleol yn parhau i gael eu cefnogi gan y Cyngor a'i bartneriaid. Mae swyddogion datblygu Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd, Criced Morgannwg a Rygbi Caerdydd yn gweithio mewn partneriaeth â Chwaraeon Caerdydd i gyflawni'r cynllun chwaraeon blynyddol trwy'r Cytundeb Menter ar y Cyd â Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd. Mae rhai o'r prosiectau lefel uchel sy'n cael eu cyflawni yn y cynllun yn blaenoriaethu menywod a merched, a meysydd amddifadedd. Maen nhw'n mynd i'r afael â gweithgareddau gangiau gan gynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau cyllyll trwy ymyriadau chwaraeon, ac yn ceisio integreiddio cymunedau ethnig amrywiol trwy weithgarwch corfforol a gweithgareddau chwaraeon. Mae gweithgareddau newydd ar gyfer pobl dros 60 oed wedi cael eu cyflwyno megis pêl-droed cerdded, 'ymarfer corff pengwin' a rygbi cerdded gyda chysylltiadau â'r tîm atgyfeirio cleifion gan feddygon teulu i wneud ymarfer corff. Mae cystadlaethau ysgolion ar gyfer chwaraeon 'anhraddodiadol' yn parhau i gael eu cefnogi'n dda gan ysgolion. Mae gwaith wedi'i dargedu i leihau'r bwlch rhwng y rhywiau rhwng chwaraeon dynion a menywod yn gweithio'n dda trwy amrywiol fentrau merched.

Gyda chyllid wedi'i sicrhau gan Lywodraeth Cymru i osod paneli solar ar safleoedd canolfannau hamdden, dechreuodd y gwaith yng nghanolfannau hamdden Maendy, y Tyllgoed a STAR yn gynnar yn 2025. Disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau yn hydref 2025 gan gynnwys toeau newydd ar ganolfannau Maendy a'r Tyllgoed. Mae ceisiadau am grantiau ychwanegol hefyd wedi'u cyflwyno a fydd yn gwella'r prosiect ymhellach mewn perthynas â storio batris. Fe wnaeth GLL ailagor rhannau o Ganolfan Hamdden Pentwyn ym mis Awst 2024 gan gynnwys cyfleusterau campfa wedi'u huwchraddio gyda rhaglen weithgareddau newydd. Dechreuodd gwaith ar y pwll nofio 25 metr newydd, a fydd â dyfnder addasadwy ac yn cael ei gynhesu gan bwmp gwres ffynhonnell aer, ym mis Chwefror 2025. Mae'r safle yn parhau i fod ar agor i'r cyhoedd trwy'r amser, a disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn.

---

8 Strategaeth Gweithgarwch Corfforol a Chwaraeon

## 4.7 Darparu parciau a mannau cyhoeddus o ansawdd uchel

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran gwella mannau cyhoeddus a gwyrdd yng Nghaerdydd. Mae ugain o barciau a mannau gwyrdd sy'n cael eu rheoli gan Gyngor Caerdydd wedi derbyn Baneri Gwyrdd nodedig gan gynnwys, am y tro cyntaf, Barc Cathays a Pharc y Maltings yn y Sblot sydd newydd ei adnewyddu. Mae ardal chwarae 'naturiol' newydd ym Mharc y Sanatoriwm yng Nghaerdydd wedi'i chreu ac mae'r gwaith ar y parc sglefrfyrddio 1,000m2 gerllaw Canolfan Hamdden y Dwyrain yn Llanrhymni yn datblygu'n dda. Cymerodd y gwaith i ddatblygu Dinas Barciau Genedlaethol ar gyfer Caerdydd gam ymlaen yn gynnar yn 2025 pan enillodd trefnwyr mudiad Dinas Barciau Genedlaethol Caerdydd statws 'Egin Ddinas Barciau Genedlaethol'.

Cymeradwyodd y Cyngor gynlluniau ym mis Tachwedd i ddiogelu un ar ddeg o barciau ledled y ddinas yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus gyda dros 95% o'r 906 o ymatebwyr o blaid y cynigion. Mae'r gwaith angenrheidiol bellach yn cael ei wneud i gwblhau dynodi'r parciau fel Meysydd Chwarae Cymru. Bydd Cyngor Caerdydd yn parhau i fod yn berchen ar y safleoedd ac yn gyfrifol am eu rheoli a'u cynnal. Mae'r un ar ddeg o barciau hyn yn ymuno â'r deg safle sy'n eiddo i'r cyngor a dau safle a reolir gan gynghorau cymuned sydd eisoes wedi'u gwarchod yn barhaol gan Meysydd Chwarae Cymru yng Nghaerdydd.

Mae'r gwaith i gynyddu brigdwf Caerdydd wedi bod yn llwyddiannus iawn gyda 36,552 o goed a thua 3km o wrychoedd newydd wedi'u plannu rhwng mis Tachwedd 2024 a mis Mawrth 2025 gyda chymorth gan fwy na 4,200 o wirfoddolwyr. Plannwyd 280 o goed lled-aeddfed newydd ar strydoedd lle mae prinder brigdwf neu ddim brigdwf. Ers ei sefydlu yn 2021, mae prosiect Coed Caerdydd wedi arwain at blannu 118,000 o goed newydd mewn 280 o wahanol safleoedd ledled y ddinas, gan gynnwys parciau, ysgolion a thir priffyrdd.



# Amcan Lles 5:

## Prifddinas sy'n gweithio dros Gymru


### Ein blaenoriaethau yn 2024/25 oedd:


5.1 Arwain y datblygiad economaidd yng Nghymru

5.2 Arwain y datblygiad economaidd yng Nghaerdydd

5.3 Cefnogi'r sector diwylliannol a'r rhaglen digwyddiadau mawr

**Crynodeb o Sefyllfa Perfformiad y Cynllun Corfforaethol ar Ddiwedd y Flwyddyn**




Mae'r camau a'r DPAau sydd wedi'u marcio'n Goch yn Chwarter 4 yn cael eu trafod yn y naratif isod, a gellir dod o hyd i'r sylwadau a'r canlyniadau llawn yn erbyn pob cam a DPA yn y Dangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol.

## Asesiad Cyffredinol

Mae'r Cyngor o'r farn ei fod wedi gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus a phreifat i gyflawni ei ymrwymiadau i wneud Caerdydd yn brifddinas sy'n gweithio dros Gymru. Mae hyn yn cynnwys ehangu canol y ddinas ymhellach fel canolfan fasnachol a datblygu Bae Caerdydd yn gyrchfan hamdden. Yn benodol, mae prosiectau adfywio Arena Dan Do a Glanfa'r Iwerydd yn ehangach yn fuddsoddiadau mawr yn economi'r ddinas a fydd yn sbardun ar gyfer cam nesaf y gwaith i ddatblygu Bae Caerdydd.

Mae perfformiad economaidd Caerdydd yn parhau i fod y cryfaf yng Nghymru ac mae'n cymharu'n dda â Dinasoedd Craidd y DU, gyda thueddiadau hirdymor yn dangos cynnydd calonogol. Mae diweithdra wedi gostwng mwy na hanner dros y degawd diwethaf (o 10.3% yn 2012 i 3.9% yn 2024), er bod y gyfradd wedi bod yn fwy amrywiol ers y pandemig ac mae'n parhau i fod ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru (3.2%) a'r DU (3.8%). Mae'r Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC) y pen yn parhau i ddilyn tuedd i fyny (cynnydd 20.4% rhwng 2018 a 2023 i £40,064), sy'n rhagori ar y cynnydd a welwyd ledled Cymru a'r DU. Mae incwm gwario gros aelwydydd hefyd wedi cynyddu dros amser (£19,106 yn 2022), er ei fod yn parhau i fod yn is na chyfartaledd y DU (£22,789).

Mae'r Cyngor hefyd yn cydnabod bod yr amodau economaidd ehangach yn parhau i fod yn heriol Mae pwysau chwyddiant, cyfraddau llog cynyddol ac ansicrwydd byd-eang yn cyflwyno risgiau i uchelgeisiau adfywio'r Cyngor ac yn parhau i effeithio ar hyder busnes a buddsoddiad yn y ddinas.

Mae'r Cyngor o'r farn bod cyflawni twf economaidd cynaliadwy a chynhwysol yng Nghaerdydd yn ganolog i wella ansawdd bywyd i bob dinesydd a chymuned, i fynd i'r afael â thlodi ac i gyflwyno dull ataliol i leddfu'r pwysau ar yr holl wasanaethau cyhoeddus yng Nghaerdydd, y Brifddinas-Ranbarth ac yng Nghymru. Dros y flwyddyn i ddod, bydd y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid ar draws pob sector yn y ddinas i ailddatgan yr achos hwn trwy weledigaeth a naratif wedi'i hadnewyddu ar y cyd ar gyfer llwyddiant economaidd yng Nghaerdydd.

## Meysydd Cynnydd

- Mae buddsoddiadau seilwaith mawr wedi symud ymlaen, gan gynnwys sicrhau £40 miliwn ar gyfer Rhaglen Gwella Caerdydd Canolog a bwrw ymlaen â gwaith galluogi ar gyfer yr Arena Dan Do newydd ym Mae Caerdydd.
- Mae dros 100 o fusnesau wedi cael eu cefnogi trwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, gyda Chaerdydd yn cael ei chydnabod yn brif ganolfan y DU ar gyfer twf busnes yn 2025.
- Yn ystod y flwyddyn, chwaraeodd y Cyngor ran weithredol yn y gwaith o greu a diogelu 5,822 o swyddi, gan ragori'n sylweddol ar y targed, sef 750.
- Cafodd Caerdydd a'r rhanbarth ehangach eu hyrwyddo'n rhyngwladol yn MIPIM 2025 a thrwy ddigwyddiadau proffil uchel fel Wythnos Cymru yn Llundain, gan helpu i ddenu buddsoddiad byd-eang.
- Mae'r ddinas wedi parhau i arwain ar ddiwylliant a digwyddiadau, gan gyflwyno Gŵyl Dinas Gerdd gyntaf Caerdydd, paratoi ar gyfer Pencampwriaeth Ewropeaidd UEFA 2028 a sicrhau Eisteddfod Genedlaethol 2028.

## Meysydd Her a Risg

- Mae'r ddinas yn parhau i wynebu pwysau sylweddol gan amodau economaidd cenedlaethol, gan gynnwys chwyddiant uchel, cyfraddau llog cynyddol a chyllidebau sector cyhoeddus cyfyngedig, sydd i gyd yn effeithio ar fuddsoddi, adfywio a darparu gwasanaethau. Bydd sicrhau cyllid hirdymor a denu buddsoddiad parhaus yn hanfodol i gynnal momentwm.
- Mae darparu lle swyddfeydd Gradd A newydd yn parhau i fod yn her, heb unrhyw ymrwymiadau newydd yn 2024/25 gan fod costau adeiladu a chyllid uchel yn parhau i gyfyngu ar hyfywedd datblygu ar lefelau rhent presennol. Bydd cefnogi amodau'r farchnad a hyder buddsoddwyr yn allweddol i ddatgloi datblygiad masnachol yn y dyfodol.
- Mae'r ansicrwydd ynglŷn â pharhad y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn peri risg allweddol i allu Caerdydd i gynnal mentrau datblygu economaidd lleol, cymorth busnes ac adfywio y tu hwnt i 2025/26.
- Mae cau Neuadd Dewi Sant a Neuadd y Ddinas yn achosi pwysau ariannol i'r gyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd oherwydd colli incwm. Disgwylir i'r heriau hyn barhau nes bod y gwaith adnewyddu wedi'i gwblhau a'r ddau leoliad yn ailagor.

---

### 5.1 Arwain y datblygiad economaidd yng Nghymru

Mae Caerdydd yn parhau i fod yn bwerdy economaidd Cymru, gan chwarae rôl hanfodol wrth greu swyddi a chyfoeth i'r ddinas a'r rhanbarth ehangach. Mae'r ddinas yn cyfrif am 19% o Werth Ychwanegol Crynswth Cymru ac mae'r Brifddinas-ranbarth ehangach yn cyfrannu dros hanner cyfanswm allbwn economaidd y wlad. Yn gyffredinol, mae GYC y pen yng Nghaerdydd wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn, gan gyrraedd £40,064 yn 2023 (y data diweddaraf sydd ar gael), yn uwch na chyfartaledd Cymru a'r DU. Fodd bynnag, er gwaethaf sylfeini economaidd cadarn y ddinas, mae ei chynhyrchiant yn parhau i fod ar ôl rhai o ddinasoedd mawr y DU[9] . Mae cyfradd diweithdra bresennol[10] y ddinas yn 3.9%, ychydig yn uwch na chyfartaledd y DU, sef 3.8%.

Trosglwyddodd partneriaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC) yn llwyddiannus i Gydbwyllgor Corfforaethol ym mis Ebrill 2024, gyda chyfrifoldebau newydd ar gyfer trafnidiaeth ranbarthol a chynllunio strategol, gan wella'n sylweddol allu'r rhanbarth i gydlynu a gweithredu mentrau strategol gyda'r nod o wella lles economaidd. Yn unol â hyn, mae'r Cynllun Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yn canolbwyntio ar gynlluniau ac ymyriadau allweddol i'w datblygu a'u cyflwyno dros y pum mlynedd nesaf, hyd at 2030, wrth nodi cynigion tymor hwy ar gyfer cyllid datblygu.

Cymerodd P-RC ran yn llwyddiannus yn MIPIM, digwyddiad eiddo tirol rhyngwladol, ym mis Mawrth 2025, gyda Chaerdydd a'r rhanbarth ehangach yn cael eu hyrwyddo fel cyrchfan fuddsoddi allweddol. Er bod y prosiect wedi'i ariannu gan P-RC, fe'i cyflwynwyd fel cynnig "Buddsoddi yng Nghaerdydd" a menter ehangach i P-RC. Mae hyn yn cyd-fynd â'r ymdrechion hyrwyddo lleoedd rhanbarthol parhaus, gan gynnwys datblygu argymhellion sy'n ymwneud â thwristiaeth, y disgwylir iddynt gael eu hadrodd i P-RC yn ddiweddarach yn 2025.

---

9 O brif ddinasoedd y DU, Caerdydd sydd â'r trydydd GYC uchaf fesul awr a weithiwyd a'r pumed GYC uchaf fesul swydd a llenwyd. Mae'r swyddi hyn wedi aros yn gymharol gyson dros y degawd diwethaf.

10 Ar sail data mis Ionawr 2024 i fis Rhagfyr 2024.

Sicrhawyd cymeradwyaeth i ddatblygu cynlluniau i greu Parth Buddsoddi o amgylch Caerdydd a Chasnewydd fel rhan o Gyllideb Hydref 2024 y DU. Mae'r gwaith yn parhau i ddatblygu'r cynnig Parth Buddsoddi, sy'n dal i aros am gymeradwyaeth gan Lywodraeth y DU a Chymru. Mae P-RC wedi cefnogi cynnig sy'n cynnwys De Caerdydd a Pharc Caerdydd fel parthau Ardrethi Annomestig.

Mae'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn parhau i fodloni'r disgwyliadau, gyda chynnydd sylweddol wedi'i wneud wrth gyflawni prosiectau. Mae dros 100 o fusnesau bellach wedi elwa o gynlluniau grant busnes, ac mae mwy na £1 miliwn wedi'i ddosbarthu i fusnesau lleol, gyda Chaerdydd yn derbyn dyraniad pellach o £14 miliwn ar gyfer 2025/26. Mae'r dyraniadau refeniw ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin ar gyfer 2025/26 wedi'u cadarnhau, yn seiliedig ar y strategaeth a amlinellwyd yn adroddiad y Cabinet o fis Hydref 2024. Mae ymdrechion i sicrhau parhad tymor hwy o gyllid rhanbarthol, tebyg i'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, y tu hwnt i 2025/26 yn parhau.

## 5.2 Arwain y datblygiad economaidd yng Nghaerdydd

Mae Caerdydd yn parhau i arwain datblygiad economaidd yng Nghymru trwy raglen eang o adfywio, buddsoddi mewn seilwaith a gweithgarwch cymorth busnes. Er gwaethaf pwysau ariannol parhaus, gan gynnwys chwyddiant a chyfyngiadau ariannu, mae cynnydd wedi'i wneud ar draws ystod eang o gynlluniau datblygu dinasoedd.

Cyflawnwyd carreg filltir bwysig gyda Chabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC) yn cymeradwyo'r achos busnes llawn ar gyfer Rhaglen Gwella Caerdydd Canolog, gan ddatgloi gwerth £40 miliwn o arian buddsoddi. Bydd hyn yn gwella ein capasiti a'n hygyrchedd yng Ngorsaf Ganolog Caerdydd yn sylweddol, gyda'r gwaith ar y trywydd iawn i'w gwblhau erbyn haf 2028, cyn i Gaerdydd gynnal Pencampwriaeth Ewropeaidd UEFA 2028.

O ganlyniad i brosiectau cymorth busnes a mewnfuddsoddi lle mae'r Cyngor wedi chwarae rhan weithredol ynddynt, mae 5,822 o swyddi newydd wedi'u creu a'u diogelu yn ystod y flwyddyn – sy'n uwch o lawer na'r targed o 750. Mae hyn yn adlewyrchu effaith ymyriadau wedi'u targedu a gweithio mewn partneriaeth i yrru twf economaidd a sicrhau buddsoddiad yn y ddinas.

Mae adfywio canol y ddinas wedi parhau trwy fentrau fel Cwr y Gamlas, gyda gwaith Cam 1 wedi'i gwblhau a dyluniad cysyniad ar gyfer Cam 2 wedi'i ddatblygu. Mae'r Cyngor yn archwilio ffynonellau buddsoddi amgen – gan gynnwys cyfraniadau Adran 106 fel rhan o ddull adfywio ardal ehangach – i gefnogi cam nesaf y prosiect. Yn ogystal, mae gwaith ar Farchnad Caerdydd yn mynd rhagddo, gydag amseriad y gwaith yn cael ei adolygu er mwyn osgoi tarfu yn ystod cyfnod masnachu Nadolig 2025.

Cyrhaeddodd nifer yr ymwelwyr yng nghanol y ddinas 44.8 miliwn yn ystod y flwyddyn, ychydig y tu ôl i'r targed o 45 miliwn. Er bod hyn yn adlewyrchu heriau parhaus wrth adfer lefelau gweithgarwch yr adeg cyn y pandemig, mae tueddiadau cyffredinol yn parhau i fod yn gadarnhaol ar y cyfan. Fodd bynnag, mae darparu lle swyddfeydd 'Gradd A' yn parhau i wynebu heriau. Yn 2024/25, nid ymrwymwyd i unrhyw le swyddfeydd Gradd A newydd (yn erbyn targed dwy flynedd dreigl o 200,000 troedfedd sgwâr). Mae swyddogion y Cyngor yn parhau i weithio'n agos gyda buddsoddwyr, datblygwyr, meddianwyr a chynghorwyr eiddo i ddod â chyfleoedd masnachol ymlaen. Mae ymgysylltu â'r farchnad wedi tynnu sylw at y ffaith bod costau adeiladu a chyllid uchel – o'u gosod yn erbyn prif renti presennol Caerdydd – wedi cyfyngu ar hyfywedd datblygiadau newydd. Er gwaethaf hyn, mae'r galw rhagamcanedig am lety swyddfa o ansawdd uchel yn parhau i fod yn gryf, gyda gwerthoedd rhent yn disgwyl cynyddu'n raddol dros y ddwy flynedd nesaf. Disgwylir hefyd i brosiectau seilwaith strategol, gan gynnwys Rhaglen Gwella Caerdydd Canolog a Cledrau Croesi, wella cysylltedd a rhoi hwb i'r achos buddsoddi masnachol yn y tymor canolig.

Ym Mae Caerdydd, mae cynigion datblygu yng Nglanfa'r Iwerydd yn mynd rhagddo, gyda phenderfyniadau allweddol y Cabinet yn cael eu disgwyl yn haf 2025. Er bod disgwyl cau ariannol ar gyfer yr Arena Dan Do newydd yn gynnar yn 2025/26, mae gwaith galluogi wedi mynd rhagddo'n dda ac mae disgwyl iddo gael ei gwblhau erbyn haf 2025, gyda'r gwaith adeiladu wedi'i drefnu i ddechrau yn hydref 2025. Mae ymgysylltu â'r datblygwr ar gyfer y Dociau Sych yn parhau, er bod cynnydd yn parhau i fod yn ddibynnol ar hyfywedd ariannu. Mae gweithgarwch cynllunio yn mynd rhagddo ar gyfer cynllun y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol, gydag adroddiad y Cabinet yn cael ei ddisgwyl yn ddiweddarach yn 2025 am seilwaith ynni a pharcio ceir i gefnogi cynaliadwyedd hirdymor y safle. Yn y cyfamser, mae gwaith adfer ac ailddefnyddio adeiladau hanesyddol ar Stryd Bute yn mynd rhagddo, gan gynnwys gwaith ar y Tollty a'r Hen Swyddfa Bost.

Yn nwyrain y ddinas, cymerwyd cam pwysig ymlaen gyda chymeradwyaeth Llywodraeth Cymru o gais cynllunio amlinellol Parc Caerdydd yn dilyn y broses alw i mewn. Bydd y datblygiad yn darparu gorsaf reilffordd newydd, safle parcio a theithio a pharc busnes defnydd cymysg. Mae cynigion bellach yn cael eu datblygu i gynnwys Parc Caerdydd o fewn y Parth Buddsoddi, gyda'r safle o bosibl yn elwa o gadw ardrethi i gefnogi datblygiad pellach.

## 5.3 Cefnogi'r sector diwylliannol a'r rhaglen digwyddiadau mawr

Mae'r gwaith i wella arlwy digwyddiadau a diwylliannol Caerdydd wedi parhau trwy gydol y flwyddyn, gan helpu i gadarnhau statws y ddinas fel cyrchfan flaenllaw ar gyfer digwyddiadau proffil uchel. Yn sgîl lansiad llwyddiannus Gŵyl Dinas Gerdd Caerdydd ym mis Medi 2024 – a roddodd lwyfan i dros 200 o artistiaid mewn 25 lleoliad – mae gwerthusiad llawn bellach ar y gweill. Mae cais newydd am gyllid i Lywodraeth Cymru yn cael ei ddatblygu i sicrhau cymorth sawl blwyddyn i'r ŵyl.

Mae'r paratoadau yn mynd rhagddynt ar gyfer Pencampwriaeth Ewropeaidd UEFA 2028, gan gynnwys ymgysylltu'n weithredol â gefeilldinas Caerdydd, Stuttgart, a gynhaliodd dwrnamaint 2024. Mae Caerdydd hefyd wedi cael ei chadarnhau'n ffurfiol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fel y ddinas a fydd yn cynnal Eisteddfod Genedlaethol 2028, gan nodi deng mlynedd ers i'r digwyddiad gael ei gynnal ddiwethaf yn y brifddinas.

Yn dilyn y cytundeb prydles a lofnodwyd ym mis Ebrill 2024, mae'r cynnydd yn parhau o ran trosglwyddo Neuadd Dewi Sant i'r Academy Music Group (AMG). Mae'r lleoliad wedi bod ar gau ers mis Medi 2023, ar ôl i arolygiad ddatgelu'r angen i ailosod paneli to yr adeilad. Cyflwynwyd y cais cynllunio cyntaf, oedd yn cynnwys mân newidiadau i'r awditoriwm i ganiatáu lle sefyll a seddi symudadwy, ym mis Rhagfyr 2024. Disgwylir i geisiadau cynllunio pellach sy'n gysylltiedig â threftadaeth gael eu penderfynu yn fuan, gan alluogi gwaith adnewyddu i ddechrau ar y safle.

Yn y cyfamser, mae Neuadd y Ddinas hefyd yn parhau i fod ar gau ar gyfer gwaith cynnal a chadw hanfodol ac ni ddisgwylir iddi ailagor tan ddechrau 2026. Mae cau'r adeiladau hyn wedi arwain at golli incwm sylweddol o fewn Diwylliant, Lleoliadau a Digwyddiadau ac wedi arwain at orwariant blynyddol o £1.912 miliwn yn y gyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd.

Wrth edrych ymlaen, mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu Strategaeth Dwristiaeth newydd ar gyfer y ddinas, gan gynnwys ymgysylltu â Caerdydd AM BYTH ynglŷn â hyrwyddo lleoedd ac ymgynghoriad sydd ar ddod ar Ardoll Twristiaeth bosibl. Ar yr un pryd, mae Strategaeth Ddiwylliannol newydd yn cael ei datblygu, gan ddisgwyl y bydd y ddwy strategaeth wedi'u cwblhau erbyn diwedd 2025.


INEOS GRENADIER
MAINDY FLYERS
MAINDY FLYERS
INEOS GRENADIER

# Amcan Lles 6:

## Caerdydd Un Blaned

### Ein blaenoriaethau yn 2024/25 oedd:

6.1 Ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd

6.2 Trawsnewid systemau trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol Caerdydd

6.3 Rhoi cynaliadwyedd a lles wrth wraidd twf y ddinas

6.4 Gwella amddiffynfeydd rhag llifogydd Caerdydd

6.5 Adeiladu gwydnwch yn ein rhwydwaith priffyrdd

6.6 Gwneud Caerdydd yn ddinas ailgylchu o'r radd flaenaf

6.7 Gweithio fel un tîm i gadw ein strydoedd yn lân

**Crynodeb o Sefyllfa Perfformiad y Cynllun Corfforaethol ar Ddiwedd y Flwyddyn**




Mae'r camau a'r DPAau sydd wedi'u marcio'n Goch yn Chwarter 4 yn cael eu trafod yn y naratif isod, a gellir dod o hyd i'r sylwadau a'r canlyniadau llawn yn erbyn pob cam a DPA yn y Dangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol.

## Asesiad Cyffredinol

Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth gyflawni'r Strategaeth Un Blaned, gyda chynnydd amlwg o ran lleihau ôl troed carbon y Cyngor a chyflawni prosiectau trafnidiaeth gynaliadwy, ôl-osod tai, ac ailgylchu ac ynni adnewyddadwy. Er bod cynnydd da yn cael ei wneud, mae'n dod yn amlwg y bydd cyrraedd sefyllfa carbon sero-net erbyn 2030 yn heriol i'r Cyngor a'r ddinas ac mae bron yn sicr na fydd yn digwydd heb newid cam mewn buddsoddiad gan y llywodraeth a'r sector preifat.

Yn dilyn cyhoeddi ei Strategaeth Ailgylchu 2022-25, mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio i weithredu rhaglen waith fawr i ddiwygio gwasanaethau gwastraff a chasglu er mwyn gwella effeithlonrwydd a gwydnwch. Mae'r perfformiad ailgylchu diwedd blwyddyn ar gyfer 2024/25 wedi cael ei adrodd dros dro yn 64.01%. Er bod hyn yn dangos gwelliant parhaus – yn uwch na 56% yn 2019/20 a 60% yn 2023/24 – mae'n llai na'r targed statudol, sef 70%. Fel yr awdurdod lleol mwyaf yng Nghymru, mae gan Gaerdydd nodweddion penodol iawn sy'n gwneud cyrraedd targedau ailgylchu statudol yn heriol, ac mae gwaith pellach ar y gweill i gyrraedd y targed o 70%.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod perfformiad yn erbyn y prif ddangosyddion glendid strydoedd wedi methu bwrw'r targed. Mae argaeledd y gweithlu wedi effeithio ar berfformiad yn ystod y cyfnod, ac mae'r gwasanaeth yn cael ei ailstrwythuro i fynd i'r afael â meysydd heriol ac achosion sylfaenol glendid strydoedd gwael. Ar ôl cael eu cyflwyno, disgwylir i'r trefniadau gweithlu newydd, sy'n gysylltiedig â threfniadau perfformiad uwch, gael effaith gadarnhaol ar berfformiad.

Er bod nifer y digwyddiadau tipio anghyfreithlon wedi gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn, roedd nifer y digwyddiadau yr ymatebwyd iddynt o fewn pum diwrnod gwaith yn 91% yn 2024/25 – yn is na'r targed o 95%. Ar ôl rhagori ar 95% bob blwyddyn ers cyflwyno'r dangosydd yn 2019/20, mae'r gwasanaeth bellach yn cyflwyno cyfres o gamau gweithredu i wella perfformiad.

## Meysydd Cynnydd

- Mae allyriadau gweithredol y Cyngor – ac eithrio caffael – wedi gostwng 18 % o'u cymharu â llinell sylfaen 2019/20, gyda gostyngiad 19 % yn y flwyddyn ddiweddaraf wedi'i yrru gan ostyngiadau mewn goleuadau stryd a rheoli gwastraff.
- Mae Cam 1 Rhwydwaith Gwres Caerdydd ar fin cael ei gwblhau, a ddisgwylir y bydd y cwsmeriaid cyntaf yn cael eu cysylltu a'u cyflenwi â gwres o ddiwedd hydref 2025.
- Mae Cynllun Ynni Ardal Leol (CYAL) Caerdydd wedi'i gyhoeddi, sy'n darparu llwybr i ddatgarboneiddio system ynni'r ddinas.
- Mae cynnydd da wedi'i wneud o ran cyflawni rhaglen y Cyngor ar gyfer buddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol: mae Cam 1A Cledrau Croesi Caerdydd wedi sicrhau cymeradwyaeth Achos Busnes Llawn gan Lywodraeth y DU; mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu dyluniad cysyniad coridorau bysus arfaethedig; ac mae Cam 1 Llwybr Beicio Parc y Rhath wedi'i gwblhau, gan barhau i ehangu llwybrau beicio Caerdydd.
- Mae ansawdd aer Caerdydd yn parhau i wella, gyda lefelau llygryddion ymhell yn is na'r terfynau cyfreithiol. Mae crynodiadau $NO_{2}$ $_2$cyfartalog[11] blynyddol ledled y ddinas wedi gwella'n sylweddol, gan ostwng o 19.7µg/m³ yn 2019 i 9.6µg/m³ yn 2024, ac mae crynodiadau $PM_{10}$ blynyddol ledled y ddinas wedi gostwng o 10.5µg/m³ yn 2023 (blwyddyn gyntaf y cofnodi) i 8.5µg/m³ yn 2024. Mae'r ddinas wedi cael ei chydnabod fel un o'r 10 dinas orau yn y DU ar gyfer aer glân gan Auto Trader, yr unig ddinas yng Nghymru i dderbyn y clod hwn.
- Derbyniodd Caerdydd Wobr Aur Lleoedd Bwyd Cynaliadwy ym mis Hydref 2024, y lle cyntaf yng Nghymru i gyflawni tair haen y wobr.
- Mae'r adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) wedi symud ymlaen yn dda. Mae ymgynghoriad ffurfiol ar y Cynllun Adnau wedi'i gwblhau, gyda ffocws ar ymgysylltu â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y broses gynllunio.

## Meysydd Her a Risg

- Mae modelu'n dangos cynnydd mewn allyriadau sy'n gysylltiedig â chaffael y Cyngor, gan arwain at gynnydd net o 20 % mewn allyriadau gweithredol cyffredinol yn erbyn gwaelodlin 2019/20. Er bod angen edrych ar y data yn ofalus, mae hyn yn tynnu sylw at yr angen i ganolbwyntio ar leihau allyriadau o fewn cadwyni cyflenwi'r Cyngor.
- Er gwaethaf y cynnydd da, bydd angen cymorth gan Lywodraeth Cymru a'r DU i sicrhau sefyllfa sero-net o fewn y Cyngor ac ar draws y ddinas ehangach.

---

[11] Yn lleoliadau monitro ymyl ffordd

- Mae nifer o brosiectau o fewn yr Amcan Lles, yn enwedig ynglŷn â thrafnidiaeth ac amddiffynfeydd rhag llifogydd, wedi wynebu oedi oherwydd cymhlethdodau dylunio, heriau cyflawni a sicrhau cyllid hirdymor, tra bod costau cynyddol hefyd yn bryder.
- Mae cyfyngiadau adnoddau parhaus wedi arwain at oedi parhaus wrth adolygu Blaengynllun y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau (BRED) a Rhestr Leol Caerdydd o Adeiladau a Safleoedd o Ddiddordeb Pensaernïol neu Hanesyddol.
- Mae'r DPAau teithio llesol uchelgeisiol wedi methu bwrw'r targed: roedd dulliau teithio cynaliadwy yn cyfrif am 49% o deithiau i'r gwaith yn 2024/25 – heb newid o 2023/24 ond yn is na'r nod o 58% ac yn is na'r uchafbwynt cyn y pandemig o 51% yn 2019/20. Fodd bynnag, mae ffigurau diweddar yn eithrio codiad mawr yn y niferoedd sy'n gweithio gartref – o 8% cyn y pandemig i 35% heddiw – sydd, pan gaiff ei gynnwys yn y rhaniad moddol, yn codi teithio cynaliadwy i 65%, yn uwch na'r targed.
- Roedd perfformiad ailgylchu diwedd y flwyddyn yn 64.1%, sy'n llai na'r targed o 70%.
- Nid yw nifer y wardiau lle mae priffyrdd a thir a arolygwyd yn bodloni safon uchel neu dderbyniol o lendid yn cyrraedd targedau'r Cynllun Corfforaethol, ac mae canran y digwyddiadau tipio anghyfreithlon yr adroddwyd amdanynt oedd wedi'u clirio o fewn pum diwrnod gwaith hefyd wedi colli'r targed.

---

## 6.1 Ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd

Ers datgan Argyfwng Hinsawdd yn 2019 a chyhoeddi Strategaeth Un Blaned (SUB) Caerdydd yn 2021, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddod yn garbon niwtral yn ei weithrediadau a gweithio mewn partneriaeth i gyflawni dinas garbon niwtral. Ym mis Chwefror 2025, cyhoeddodd y Cyngor ei drydydd adolygiad blynyddol o'r Strategaeth SUB. Mae'r adolygiad yn tynnu sylw at y ffaith bod allyriadau gweithredol y Cyngor – ac eithrio caffael – wedi gostwng 18% yn erbyn gwaelodlin 2019/20, gan gynnwys gostyngiad 19% yn y flwyddyn adrodd ddiweddaraf. Mae'r gostyngiadau hyn yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed ar draws sawl maes gwasanaeth, yn enwedig mewn goleuadau stryd a rheoli gwastraff.

Fodd bynnag, mae modelu'n dangos cynnydd sylweddol mewn allyriadau sy'n gysylltiedig â chaffael, sy'n gwrthbwyso'r enillion hyn ac yn arwain at gynnydd net o 20% mewn allyriadau gweithredol cyffredinol. Mae'r cynnydd hwn yn ganlyniad i lefelau uchel o wariant – sy'n gysylltiedig â chwyddiant, galw cynyddol am wasanaethau, a phrosiectau cyfalaf ar raddfa fawr – a newidiadau cenedlaethol diweddar yn y ffordd y cyfrifir allyriadau caffael, gydag ystod llawer ehangach o weithgarwch bellach wedi'i gipio. Er bod y newidiadau hyn yn gwella cywirdeb, maent hefyd yn gwneud cymariaethau blwyddyn i flwyddyn yn fwy heriol ac yn cyfrannu'n sylweddol at y cynnydd yr adroddwyd amdano. Serch hynny, mae'r data yn tynnu sylw at yr angen i leihau allyriadau yng nghadwyni cyflenwi'r Cyngor.

Er mwyn cefnogi hyn, mae gwaith ar y gweill i ymgorffori ystyriaethau carbon yn fframwaith llywodraethu'r Cyngor, gyda rhaglen newid yn cael ei threialu yn 2025/26. Mae hyn yn cynnwys dangosfwrdd rheoli rhyngweithiol newydd sydd wedi'i ddylunio i ddelweddu maint a math yr allyriadau carbon a gynhyrchir gan gyfarwyddiaeth a Phecyn Cymorth Sero Net i arwain swyddogion wrth gyflawni prosiectau a gwasanaethau carbon isel.

Mae'r diweddariadau am brosiectau blaenoriaeth yn cynnwys:

- **Rhwydwaith Gwres:** Cynnydd sylweddol o ran adeiladu Rhwydwaith Gwres Caerdydd, a fydd yn darparu gwres carbon isel i adeiladau a datblygiadau mawr yn y Bae. Mae gwaith gosod mecanyddol ar safle Viridor wedi'i gwblhau, ac mae'r gwaith ar fin cael ei gwblhau ar ran olaf y rhwydwaith pibellau. Mae seilwaith dros dro wedi'i sefydlu i alluogi darparu dŵr a phŵer i'r ganolfan ynni wrth gefn, gan liniaru oedi sy'n gysylltiedig â hawliau mynediad trydydd parti. Disgwylir i'r cwsmeriaid cyntaf gael eu cysylltu a'u cyflenwi â gwres o ddiwedd hydref 2025.

- **Cynllun Ynni Ardal Leol (CYAL):** Cyhoeddwyd CYAL ar gyfer y ddinas ym mis Gorffennaf 2024, ar ôl ymgysylltiad helaeth â rhanddeiliaid. Mae'r CYAL yn darparu llwybr cynhwysfawr ar gyfer datgarboneiddio system ynni'r ddinas a chyflawni sefyllfa sero net. Mae'r cynllun yn nodi blaenoriaethau brys, gan gynnwys ôl-osod adeiladau presennol ar gyfer effeithlonrwydd ynni ac ehangu cynhyrchu ynni adnewyddadwy. Bydd canfyddiadau'r CYAL yn llywio strategaeth a chynllun gweithredu diwygiedig, gwell tystiolaeth a mwy penodol i fynd i'r afael â'r Argyfwng Hinsawdd – y 'Cynnig Twf Gwyrdd' – a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn ddiweddarach yn 2025.

- **Rhaglen Ôl-osod Effeithlonrwydd Ynni Tai:** Mae'r cynnydd wedi parhau ar draws tai rhent preifat sy'n eiddo i'r Cyngor. Mae camau gorfodi uniongyrchol trwy Wasanaethau Rheoleiddio a Rennir wedi arwain at welliannau effeithlonrwydd ynni mewn 202 o gartrefi rhentu preifat – yn uwch na'r targed o 100. Fodd bynnag, dim ond 679 o fesurau a osodwyd yn nhai'r Cyngor eleni, sy'n llai na'r targed o 750. Mae'r diffyg hwn yn bennaf oherwydd atal uwchraddio to a ffenestri parhaus. Ond mae hefyd yn bwysig nodi y gall y ffigurau hyn gael eu diweddaru yn ôl-weithredol wrth i systemau data gael eu hadnewyddu. Yn fwy cyffredinol, cydnabyddir bod y defnydd o fesurau ôl-osod domestig ar draws y ddinas ehangach, yn ychwanegol at y rhai a ariennir yn uniongyrchol gan y Cyngor, yn parhau i fod yn is na'r lefelau sy'n ofynnol i fodloni ymrwymiadau sero-net. Mewn ymateb, cynhaliwyd ymchwil i nodi'r rhwystrau a'r cyfleoedd, a bydd gwaith ôl-osod domestig yn un o elfennau allweddol y Cynnig Twf Gwyrdd sydd ar ddod.

- **Cerbydau Trydan:** Ar hyn o bryd mae fflyd y Cyngor yn cynnwys 116 o gerbydau trydan, yn llai na'r targed o 130. Roedd cyfyngiadau'r gyllideb yn cyfyngu ar nifer cerbydau newydd y fflyd yn ystod y flwyddyn ond mae adolygiad cynhwysfawr o ddefnydd y fflyd ar fin cael ei gwblhau i flaenoriaethu cerbydau newydd yn y dyfodol. Mae Strategaeth Seilwaith Cerbydau Trydan, a gymeradwywyd ym mis Hydref 2024, yn amlinellu'r cyfleoedd ar gyfer cynyddu mynediad cyhoeddus i bwyntiau gwefru, ar sail rhagolygon galw. Mae ceisiadau cyllid wedi'u cyflwyno i Trafnidiaeth Cymru i ehangu seilwaith cerbydau trydan Caerdydd yn 2025/26.

- **Bwyd Iach, Lleol a Charbon Isel:** Derbyniodd Caerdydd Wobr Aur Lleoedd Bwyd Cynaliadwy ym mis Hydref 2024, y lle cyntaf yng Nghymru i gyflawni tair haen y wobr. Arweiniwyd y cynnig i'r wobr gan Bwyd Caerdydd, partneriaeth fwyd ledled y ddinas sy'n cynnwys unigolion a sefydliadau sy'n gweithio gyda'i gilydd i drawsnewid y system fwyd leol. Gan adeiladu ar y llwyddiant hwn, bydd y ddinas yn parhau i hyrwyddo newid tuag at opsiynau bwyd iachach a mwy cynaliadwy, gyda gwaith ar y gweill i ddatblygu Strategaeth Bwyd Caerdydd wedi'i diweddaru. Mae'r Cyngor a'i bartneriaid wedi parhau i gefnogi ystod eang o fentrau bwyd cynaliadwy, gan gynnwys rhaglen arloesi a ariennir gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae'r gwaith hwn wedi cefnogi datblygiad tyfu bwyd lleol, modelau dosbarthu carbon isel ac amgylcheddau bwyd iachach. Mae'r Cyngor hefyd wedi cydweithio â phartneriaid iechyd cyhoeddus i archwilio effaith cyfyngu ar hysbysebu bwyd â lefelau uchel o Fraster, Siwgr a Halen (HFSS), yn enwedig ger ysgolion. Mae polisïau sy'n cefnogi cynhyrchu bwyd lleol wedi'u cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd drafft.

- **Ynni Adnewyddadwy yn Aber Afon Hafren:** Ym mis Mawrth 2025, cyhoeddodd y Comisiwn Annibynnol ar Ynni Llanw yn Afon Hafren ei adroddiad terfynol gydag argymhellion ar gyfer ariannu a chyflawni cynlluniau morlynnoedd llanw. Denodd lansiad yr adroddiad sylw cenedlaethol, gyda digwyddiadau'n cael eu cynnal yn y Senedd a San Steffan.

## 6.2 Transforming Cardiff's public transport and active travel systems

Mae gweledigaeth trafnidiaeth y Cyngor yn nodi rhaglen drawsnewidiol o fuddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol. Er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud, mae nifer o brosiectau wedi cael eu hoedi oherwydd cymhlethdodau wrth ddylunio, cyflwyno a sicrhau cyllid hirdymor.

- **Cledrau Croesi Caerdydd:** Mae Cam 1A Cledrau Croesi Caerdydd wedi sicrhau cymeradwyaeth Achos Busnes Llawn gan Lywodraeth y DU, gyda'r gwaith bellach yn mynd rhagddo trwy'r cam Dylunio Manwl. Fodd bynnag, mae datblygu'r Achos Busnes ar gyfer Cam 2 wedi arafu oherwydd yr angen am waith modelu ac asesu ychwanegol. Mae cwblhau wedi'i dargedu bellach ar gyfer 2025/26, yn amodol ar sicrhau cyllid ychwanegol. Mae'r diffyg eglurder dros gyllid hirdymor ar gyfer cyfnodau dilynol, gwelliannau Metro, a gorsafoedd newydd yn parhau i fod yn fater allweddol. I liniaru hyn, mae'r gwaith yn parhau ar ddatblygu achosion busnes i gefnogi ceisiadau cyllid yn y dyfodol, ynghyd â chydweithrediad agos â Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae gwaith uwchgynllunio o amgylch Gorsaf Caerdydd Canolog hefyd yn parhau i sicrhau integreiddio â chynigion Cledrau Croesi.
- **Tacsis:** Ym mis Gorffennaf 2024, lansiodd y Cyngor Gynllun Grant Lleihau Allyriadau Hacni Caerdydd (CLlAHC), gan gefnogi gyrwyr i newid i gerbydau allyriadau is. Mae'r cynllun peilot bellach wedi cau, gan ddisgwyl adroddiad terfynol ac argymhellion yn Chwarter 1 2025/26. Mae Strategaeth Tacsis ddrafft hefyd wedi'i chynhyrchu, gydag ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'i gwblhau ym mis Rhagfyr 2024. Mae adolygiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y gweill ar hyn o bryd.
- **Gwasanaethau Bysus:** Mae adferiad ôl-bandemig o ran y defnydd o fysus yn parhau i fod yn her, gyda lefelau defnydd 10-20% yn is na'r ffigurau cyn Covid. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, cyhoeddodd y Cyngor Gynllun Seilwaith Blaenoriaeth Bysus drafft ym mis Mawrth 2024. Mae'r cynllun yn nodi Rhwydwaith Bysus Craidd o chwe choridor strategol, gyda'r nod o wella amseroedd teithiau a dibynadwyedd bysus i deithwyr. Mae hefyd yn hyrwyddo integreiddio â rhwydweithiau rheilffyrdd, rheilffyrdd ysgafn, beicio a cherdded. Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu cam dylunio cysyniad y coridorau bysus arfaethedig, sy'n mynd rhagddo, ond mae angen buddsoddiad pellach ar gyfer adeiladu.
- **Cynllun Croesi Pont Llanrhymni:** Ar ôl rhoi caniatâd cynllunio ym mis Mehefin 2024 a chwblhau'r cytundeb cyfreithiol Adran 106, mae trafodaethau wedi cael eu cynnal â datblygwyr ynghylch cyfleoedd datblygu ehangach. Cyflwynwyd cynnig diwygiedig ym mis Mawrth 2025, gyda'r nod o sicrhau darparu seilwaith allweddol, yn ogystal â buddion ychwanegol sy'n cefnogi Strategaeth Trafnidiaeth ehangach y Cyngor. Mae'r cynlluniau wedi'u diweddaru yn destun ystyriaeth gynllunio pellach.

- **Teithio Llesol:** Mae cynnydd sylweddol yn parhau i gael ei wneud ar rwydwaith beicio Caerdydd, gyda chymorth cyllid grant Llywodraeth Cymru. Mae Cam 1 Llwybr Beicio Parc y Rhath wedi'i gwblhau, gan gynnwys cyfleusterau croesi newydd ar gyffordd Heol Pen-y-lan, Heol Ninian, Heol Marlborough a Heol Wellfield, yn ogystal â llwybr newydd drwy Gae Rec y Rhath. Mae cynllunio cam cyntaf y llwybr beicio o ganol y ddinas ar hyd Heol Casnewydd i Laneirwg (Llwybr Beicio 2.1) ar y gweill, a bydd ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd yn dechrau yn ddiweddarach eleni. Mae'r rhan o'r llwybr o Landaf i Heol Llantrisant, sy'n croesi Rhodfa'r Gorllewin ac yn pasio i'r gogledd o gampws Prifysgol Fetropolitan Caerdydd (Llwybr Beicio 4.2) yn cael ei mireinio i fynd i'r afael â phryderon ecolegol a mynediad, gyda gwaith ymgysylltu cadarnhaol â rhanddeiliaid yn parhau. Mae gwaith dylunio cynnar hefyd ar y gweill ar lwybrau sy'n cysylltu Bae Caerdydd a Sgwâr Callaghan â'r Sblot a Thremorfa (Llwybrau Beicio 3.1 a 3.2). Disgwylir adeiladu Llwybr Beicio 3.2 yn 2025/26, i gyd-fynd â datblygiad newydd Ysgol Uwchradd Willows. Yn y cyfamser, mae'r llwybr arfaethedig i'r gorllewin o ganol y ddinas (Llwybr Beicio 5) yn cael ei ystyried fel rhan o astudiaeth ehangach Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (AATC) ar gyfer Coridor y Gorllewin. Yn ogystal â darparu seilwaith, mae ysgolion yn parhau i chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi'r newid i deithio llesol. Yn 2024/25, cefnogwyd cyfanswm o 128 o ysgolion i weithredu eu Cynlluniau Teithio Llesol, gan gyrraedd y targed blynyddol.

- **Perfformiad Teithio Cynaliadwy i'r Gwaith:** Mae canlyniadau'r Dangosydd Perfformiad Allweddol diweddaraf yn dangos cynnydd parhaus tuag at dargedau teithio cynaliadwy i'r gwaith, er bod rhai yn parhau i fod yn heriol oherwydd newidiadau mewn ymddygiad teithio ar ôl y pandemig. Mae'r rhaniad moddol ar gyfer teithiau i'r gwaith yn dangos bod 49% wedi teithio mewn dulliau cynaliadwy yn 2024/25, yn erbyn targed o 58%. Fodd bynnag, nid yw'r ffigur hwn yn adlewyrchu'r cynnydd sylweddol mewn gweithio gartref ers pandemig Covid-19, gyda 35% o bobl bellach yn gweithio gartref o gymharu ag 8% yn flaenorol. Pan fydd gweithio gartref yn cael ei gynnwys yn y cyfanswm teithio cynaliadwy, mae'r ffigur yn codi i 65%, yn uwch na'r targed. Ar gyfer dulliau penodol, mae cerdded yn cyfrif am 16% o deithiau gwaith, beicio am 11% a thrafnidiaeth gyhoeddus am 21%, o gymharu â thargedau o 18%, 17% a 23% yn y drefn honno. Mae'r canlyniadau hyn yn tynnu sylw at gymhlethdod newid ymddygiadau teithio a'r angen am fuddsoddiad a chymorth polisi parhaus.

- **Terfynau Cyflymder Diofyn 20mya yng Nghymru:** Mewn ymateb i adolygiad Llywodraeth Cymru o'r terfyn diofyn 20mya, mae'r Cyngor wedi asesu ceisiadau lleol am newidiadau gan ddefnyddio'r offeryn asesu cenedlaethol. O ganlyniad, mae pedair ffordd wedi'u nodi i ddychwelyd i derfyn 30mya. Mae'r broses Gorchymyn Rheoleiddio Traffig (GRhT) bellach ar y gweill, a disgwylir ei weithredu yn ystod Chwarteri 1 a 2 o 2025/26.

- **Opsiynau Codi Tâl ar Ddefnyddwyr Ffyrdd:** Yn dilyn penderfyniad y Cyngor ym mis Ebrill 2023 i archwilio cynlluniau talu defnyddwyr ffyrdd, mae gwaith datblygu opsiynau a chwmpasu ar gyfer yr Achos Busnes Amlinellol (ABA) wedi mynd rhagddo. Fodd bynnag, roedd cais am gyllid Llywodraeth Cymru i barhau â datblygu ABA yn 2025/26 yn aflwyddiannus, gan oedi cynnydd. Bydd y Cyngor yn parhau i geisio cyllid amgen, gan gynnwys trwy ymgysylltu â Chydbwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru, i gefnogi'r gwaith o ddatblygu achosion busnes.

## 6.3 Ansawdd Aer

Ansawdd aer gwael yw risg amgylcheddol fwyaf y DU i iechyd y cyhoedd. Mae'r prif lygryddion sy'n peri pryder – Nitrogen Deuocsid ($NO_2$) a Deunydd Gronynnol ($PM_{10}$ a $PM_{25.2}$) – yn cael eu hachosi'n bennaf gan drafnidiaeth ffyrdd, yn enwedig cerbydau disel.

Fe wnaeth Adroddiad Cynnydd Blynyddol Ansawdd Aer 2024, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2024, gyflwyno data monitro cadarnhaol ar gyfer 2023 a dangos gwelliant parhaus yn ansawdd aer Caerdydd. Mae'r duedd hon wedi'i chadarnhau gan ddata diweddaraf 2024/25, sy'n dangos bod lefelau llygryddion yn parhau i fod o fewn terfynau cyfreithiol. Mae'r duedd hon wedi'i chadarnhau gan ddata diweddaraf 2024/25, sy'n dangos bod lefelau llygryddion yn parhau i fod o fewn terfynau cyfreithiol.

Mae crynodiadau cyfartalog blynyddol o $PM_{10}$ ledled y ddinas – deunydd gronynnol llai na 0.01mm mewn diamedr – wedi'u cofnodi'n 8.5μg/m³, yn is o ddigon na'r targed o 15μg/m³. Yn yr un modd, roedd crynodiadau cyfartalog blynyddol o Nitrogen Deuocsid ($NO_2$) mewn lleoliadau monitro ar ochr ffyrdd ledled y ddinas yn 19.7μg/m³, o'i gymharu â tharged o 25μg/m³. O fewn Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (ARhAAau) dynodedig Caerdydd, roedd crynodiadau $NO_2$ ar gyfartaledd yn 27.6μg/m³ – gan aros o dan y targed o 30μg/m³.

Mae cynnydd hefyd wedi'i gofnodi ym mhob un o bedair Ardal Rheoli Ansawdd Aer Caerdydd – Canol y Ddinas, Stephenson Court, Pont Elái a Llandaf – lle mae lefelau llygryddion bellach yn is na'r trothwyon cyfreithiol, 27.6μg/m³ ar gyfartaledd yn 2024/25, yn is na'r targed o 30μg/m³. Enghraifft nodedig yw Stryd y Castell, lle mae ymyriadau trafnidiaeth hirdymor wedi lleihau lefelau $NO_2$ o dros 40μg/m³ i 30μg/m³. Er mai targed corfforaethol Stryd y Castell oedd 28μg/m³ – yn seiliedig ar ragolygon wedi'u modelu ar adeg y datblygwyd y Cynllun Aer Glân – mae 30μg/m³ yn parhau i fod o fewn yr ymyl gwall modelu gwreiddiol ac, yn bwysig, mae ymhell yn is na'r terfyn cyfreithiol o 40μg/m³. Ym mis Rhagfyr 2024, cymeradwyodd Llywodraeth Cymru gyllid i wneud y newidiadau hyn yn barhaol, gan helpu i gynnal a gwella gwelliannau ansawdd aer wrth wella amgylchedd y strydoedd.

Mae ymdrechion Caerdydd i wella ansawdd aer wedi cael eu cydnabod yn genedlaethol, gydag Auto Trader yn enwi'r ddinas yn un o'r 10 dinas orau yn y DU ar gyfer aer glân. Wrth edrych ymlaen, mae'r Cyngor yn adolygu ei Strategaeth Aer Glân a'i Gynllun Gweithredu. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys asesiadau wedi'u diweddaru o ARhAAau Caerdydd, rhagfynegi crynodiadau $NO_2$ yn y dyfodol ac ailedrych ar ffynonellau llygredd. Bydd y camau hyn yn cefnogi nodi ymyriadau wedi'u targedu i sicrhau cynnydd parhaus tuag at aer glanach i bob preswylydd.

## 6.4 Rhoi cynaliadwyedd a lles wrth wraidd twf y ddinas

Mae darparu cymunedau cynaliadwy o ansawdd uchel wedi'u cysylltu'n dda yn parhau i fod yn uchelgais craidd i Gaerdydd trwy ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol Newydd Caerdydd yn barhaus, a fydd yn llywio twf y ddinas hyd at 2036. Cymeradwywyd y CDLl Adneuo a'r Cytundeb Cyflenwi Diwygiedig gan y Cabinet a'r Cyngor ym mis Ionawr 2025, gydag ymgynghoriad ffurfiol wyth wythnos wedi'i lansio ar 18 Ionawr. Roedd y broses hon yn cynnwys ymgysylltu wyneb yn wyneb ac allgymorth rhagweithiol trwy'r cyfryngau cymdeithasol i sicrhau cyfranogiad cynhwysol, yn enwedig ymhlith grwpiau sydd wedi bod heb gynrychiolaeth ddigonol yn y broses gynllunio yn y gorffennol. Bydd yr holl ymatebion yn cael eu hystyried cyn cyflwyno'r Cynllun yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru i'w Archwilio yn hydref 2025.

Mae'r cynnydd wedi parhau ar draws safleoedd CDLl Strategol Caerdydd, gyda phob safle bellach yn dal caniatâd cynllunio dilys, naill ai'n llawn neu'n rhannol. Mae egwyddorion creu lleoedd a dylunio da yn parhau i fod wrth wraidd penderfyniadau cynllunio, wedi'u cefnogi gan welliannau mewn perfformiad gwasanaeth. Yn 2024/25, penderfynwyd ar 95.57% o geisiadau cynllunio deiliaid tai o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt, yn erbyn targed o 80%, ynghyd â 93.75% o geisiadau mawr, yn erbyn targed o 85%. Cynorthwywyd y perfformiad hwn trwy gyflwyno offer digidol newydd i wella effeithlonrwydd prosesu.

Yn unol ag uchelgeisiau'r ddinas ar gyfer twf cynhwysol, mae darparu tai fforddiadwy yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae 35.34% o dai sydd wedi'u cwblhau ar safleoedd tir glas wedi bod yn rhai fforddiadwy, gan ragori ar y targed o 30%. Ar safleoedd tir llwyd, canran y tai fforddiadwy a gwblhawyd oedd 17.01%, ychydig yn is na'r targed o 20%. Mae'r diffyg hwn yn adlewyrchu amodau presennol y farchnad dai, gan gynnwys cyfraddau llog uchel a llai o hyfywedd datblygu, sydd wedi effeithio ar gyflawni tir llwyd. Fodd bynnag, roedd 22.16% o'r holl dai a gwblhawyd yn 2024/25 yn fforddiadwy, gan ragori ar y targed blynyddol o 20%. Wrth edrych ymlaen, disgwylir y bydd ymrwymiad y Cyngor i ddarparu 2,800 o gartrefi fforddiadwy erbyn 2030, ynghyd â gwelliannau disgwyliedig mewn amodau'r farchnad, yn cefnogi mwy o ddarpariaeth tai fforddiadwy yn y blynyddoedd i ddod. Bydd cynnydd yn parhau i gael ei fonitro'n agos.

Er bod yr ymgynghoriad ynghylch Rhestr Leol Caerdydd o Adeiladau a Safleoedd o Ddiddordeb Pensaernïol neu Hanesyddol wedi'i gwblhau yn haf 2024, mae cynnydd wedi'i ohirio oherwydd heriau adnoddau o fewn y Gwasanaeth Cynllunio, gan gynnwys swyddi gwag mewn rolau cadwraeth allweddol. O ganlyniad, mae adrodd a chyfarwyddiadau Erthygl IV cysylltiedig wedi'u haildrefnu ar gyfer dyddiad diweddarach yn 2025, gyda recriwtio ar y gweill i sicrhau bod cynnydd yn ailddechrau yn 2025/26.

Mae Blaengynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau (DBGE) statudol y Cyngor hefyd wedi cael ei oedi. Fodd bynnag, ar ôl recriwtio Cynllunydd (Ecoleg) yn llwyddiannus ym mis Rhagfyr 2024, disgwylir i'r adolygiad ddechrau nawr yn 2025/26. Bydd y CDLl Newydd yn ymgorffori polisïau bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd gwell, wedi'u hategu gan asesiadau wedi'u diweddaru gan gynnwys Asesiad Seilwaith Gwyrdd ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

## 6.5 Gwella amddiffynfeydd Caerdydd rhag llifogydd

Gydag effeithiau cynyddol y newid yn yr hinsawdd, mae bygythiad llifogydd yn parhau i fod yn un o heriau amgylcheddol mwyaf arwyddocaol ac uniongyrchol i Gaerdydd. Mae'r Cyngor yn parhau i fynd i'r afael â'r risg hon trwy ystod o fesurau, wedi'u hategu gan ei ddyletswyddau statudol fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol. Mae'r cyfrifoldebau hyn wedi'u nodi yn Strategaeth Leol Caerdydd[12] ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 a Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009.

Mae Strategaeth Dŵr, Llifogydd a Draenio Cynaliadwy wedi'i diweddaru ar gyfer Caerdydd  i adlewyrchu dull mwy cynhwysfawr ar draws y ddinas o reoli perygl llifogydd. Cymeradwywyd y Strategaeth ddiwygiedig, sy'n nodi sut bydd y Cyngor yn asesu risgiau llifogydd ac yn buddsoddi mewn datrysiadau draenio cynaliadwy, gan y Cabinet ym mis Mai 2025.

Mae gwaith hefyd wedi mynd rhagddo ar welliannau amddiffyn rhag llifogydd arfordirol yn Nwyrain Caerdydd, gan fodloni gofynion manwl a chymhleth a nodir gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Mae ymateb i'r gofynion hyn, ynghyd â'r amser sydd ei angen i sicrhau'r cymeradwyaethau angenrheidiol, wedi effeithio ar gyflymder a chost adeiladu. Er mwyn helpu i liniaru hyn, mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda CNC, ymgynghorwyr a'r contractwr i gytuno ar newidiadau dylunio a fydd yn symleiddio adeiladu, yn defnyddio deunyddiau presennol ac yn lleihau'r angen am gloddio helaeth.

## 6.6 Adeiladu gwydnwch yn ein rhwydwaith priffyrdd

Gwnaed cynnydd sylweddol i wella cyflwr a gwydnwch seilwaith ffyrdd a throedffyrdd Caerdydd. Mae dangosyddion perfformiad allweddol yn parhau i ddangos canlyniadau cryf, gyda phob categori o gyflwr ffordd o fewn y targed. Y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn:

- Mae 3.63% o brif ffyrdd (A) mewn cyflwr gwael ar y cyfan, gan barhau i fod yn is na'r trothwy o 4%.
- Mae 4.42% o ffyrdd dosbarthedig (B) nad ydynt yn brif ffyrdd mewn cyflwr gwael, yn erbyn targed o lai na 6%.
- Mae 4.22% o ffyrdd dosbarthedig (C) nad ydynt yn brif ffyrdd mewn cyflwr gwael, sydd hefyd yn is na'r trothwy o 6%.

Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu effeithiolrwydd dull rheoli asedau'r Cyngor sy'n seiliedig ar risg, sy'n blaenoriaethu ymyriadau yn seiliedig ar ddirywiad asedau a chyflwr arwyneb. Mae'r dull strategol hwn yn sicrhau bod adnoddau'n canolbwyntio ar ddarparu'r gwerth mwyaf a darparu'r gwydnwch mwyaf.

Yn ogystal, mae data diwedd blwyddyn yn dangos cynnydd sylweddol mewn gweithgarwch gorfodi parcio sifil, gan gefnogi'r nodau ehangach o effeithlonrwydd a diogelwch rhwydwaith. Mae amseroedd patrolio a nifer yr Hysbysiadau Tâl Cosb a gyhoeddwyd wedi cynyddu 19% o'u cymharu â 2023/24, 38% yn 2022/23, a 57% yn 2021/22. Mae'r duedd i fyny hon yn adlewyrchu gwelliannau parhaus mewn adleoli gweithrediadol a buddion offer adrodd gwell ac ymgysylltu â'r cyhoedd.

[12] Strategaeth Perygl Llifogydd

## 6.7 Gwneud Caerdydd yn ddinas ailgylchu o'r radd flaenaf

Yn ystod 2024/25, mae Caerdydd wedi parhau i gymryd camau tuag at ddod yn un o ddinasoedd ailgylchu mwyaf blaenllaw'r byd. Cyrhaeddwyd carreg filltir bwysig gyda lansiad llwyddiannus Cam 5 y cynllun ailgylchu ar wahân ar 6 Mawrth 2025, gan nodi cyflwyniad llawn system ailgylchu ar wahân ledled y ddinas. O ganlyniad, mae 132,000 o aelwydydd bellach yn gwahanu eu deunyddiau ailgylchadwy gan ddefnyddio sachau amldro a chadi eitemau gwydr, gan wella ansawdd deunyddiau a chynyddu cyfraddau ailgylchu.

Roedd perfformiad ailgylchu diwedd y flwyddyn yn 64.01%, sy'n llai na'r targed statudol o 70%. Fodd bynnag, mae arwyddion cadarnhaol o welliant: cyrhaeddodd cyfraddau ailgylchu sych eu lefelau uchaf ers 2018/19, a chyrhaeddodd perfformiad compostio ei lefel uchaf yn Chwarter 4. Roedd nifer o ffactorau allanol yn effeithio ar y perfformiad cyffredinol, gan gynnwys stoc o ddeunydd ailgylchadwy yn aros i'w brosesu a deunydd wedi'i ddifetha nad oedd modd adrodd amdano. Fe wnaeth perfformiad canolfannau ailgylchu fethu bwrw ei darged o drwch blewyn, gydag 84.60% o wastraff wedi'i ailddefnyddio neu ei ailgylchu yn erbyn targed o 85%. Roedd y diffyg hwn yn bennaf oherwydd lefelau uwch na'r disgwyl o wastraff gweddilliol yng Nghanolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref Clos Bessemer.

Er mwyn cyrraedd y targed ailgylchu statudol o 70%, mae'r Cyngor wedi datblygu rhaglen ymyriadau strategol. Mae cynllun cyflawni 2025/26 yn cynnwys estyn casgliadau gwastraff gardd i 52 wythnos, rhoi diwedd ar y gwasanaeth 'Talu wrth Daflu', cael gwared ar wastraff cyffredinol i gwsmeriaid masnach yn unig, ymgorffori ailgylchu ar wahân yn llawn a gwella cyfathrebu, addysg a gorfodi.

## 6.8 Gweithio fel un tîm i gadw ein strydoedd yn lân

Mae'r Cyngor yn parhau i weithredu rhaglen ddiwygio gynhwysfawr ar gyfer ei wasanaethau glanhau a gorfodi Strydlun, gyda ffocws penodol yn 2024/25 ar ddigideiddio gweithrediadau glanhau. Mae datrysiad meddalwedd wedi'i ddiweddaru wedi'i lansio i wella'r gwasanaethau hyn sy'n darparu mewnwelediadau amser real i berfformiad gwasanaeth, yn nodi meysydd i'w gwella a'u hoptimeiddio ac yn symleiddio dyrannu gwaith wedi'i drefnu i dimau glanhau, gan sicrhau darparu gwasanaeth amserol. Er bod ychydig o oedi wedi bod wrth integreiddio'r system gydag apiau dyfeisiau symudol a bwrdd gwaith, disgwylir y bydd popeth yn gwbl weithredol erbyn Chwarter 2 2025/26.

Yn ogystal ag ymdrechion digideiddio, mae gwasanaethau glanhau a gorfodi yn cael eu hailstrwythuro, gyda Rhaglen Gwella Glanhau bellach ar waith i wella darpariaeth gwasanaethau ledled y ddinas. Fel rhan o hyn, mae Strategaeth Biniau Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon newydd yn cael ei datblygu i hyrwyddo safonau cyson a llywio gorfodi.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod perfformiad yn erbyn y prif ddangosyddion glendid strydoedd wedi methu bwrw'r targed. Mae argaeledd y gweithlu wedi effeithio ar berfformiad yn ystod cyfnod yr ailstrwythuro, gyda recriwtio i swyddi yr effeithir arnynt wedi'i atal nes bod y broses wedi'i chwblhau. Bydd yr ailstrwythuro yn ailalinio â gweithgareddau Gwasanaethau Cymdogaeth i fynd i'r afael â meysydd her a mynd i'r afael ag achosion sylfaenol glendid strydoedd gwael. Fel rhan o'r diwygiadau gwasanaeth hyn, bydd y system ddigidol newydd yn galluogi defnyddio gweithgarwch glanhau yn fwy effeithiol mewn ardaloedd â'r flaenoriaeth uchaf. Mae'r gwaith ailstrwythuro wedi cael ei oedi sawl gwaith, gan gynnwys yn ystod cyfnod o weithredu diwydiannol yn ystod 2023/24, ac mae effaith yr oedi hwn yn cael ei hadlewyrchu yn y metrigau perfformiad. Fodd bynnag, disgwylir i'r gwaith ailstrwythuro gael ei gwblhau bellach erbyn mis Hydref 2025 ac mae recriwtio i swyddi glanhau a gorfodi amgylcheddol allweddol yn digwydd ar hyn o bryd. Mae cyflwyno mesurau eraill hefyd wedi'u cyflwyno i wella perfformiad y strydlun, gan gynnwys cyflwyno sachau gwrth-wylanod ar gyfer cartrefi sy'n defnyddio bagiau du,

ac addysg a gorfodi wedi'u targedu ar gyfer strydoedd problemus. Mae'r gwaith yn parhau i ddeall y rhesymau dros y gostyngiad yng nglendid strydoedd mewn partneriaeth â Cadwch Gymru'n Daclus.

Er bod nifer yr achosion tipio anghyfreithlon yn 2024/25 (5,593) wedi gostwng o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (5,931), mae nifer yr achosion tipio anghyfreithlon yr ymatebwyd iddynt o fewn pum diwrnod gwaith wedi gostwng, yn dilyn cyfnod parhaus o berfformiad da iawn. Mae perfformiad yn ystod 2024/25 wedi dioddef oherwydd lefelau absenoldeb salwch a diffyg adnoddau sy'n cyfyngu ar allu'r gwasanaeth i ôl-lenwi swyddi. Nododd archwiliad lleol hefyd gyfleoedd ar gyfer gwella cynhyrchiant ac mae mesurau yn cael eu symud ymlaen ar hyn o bryd i ddatgloi mwy o gapasiti o fewn y gweithlu, gyda'r nod o wella perfformiad.



# Amcan Lles 7:

## Moderneiddio ac Integreiddio ein Gwasanaethau Cyhoeddus

### Ein blaenoriaethau yn 2024/25 oedd:

7.1 Darparu adeiladau symlach a gwyrddach i'r Cyngor

7.2 Gwella cynnig digidol y Cyngor a gwella'r defnydd o ddata


7.3 Cefnogi gweithlu medrus a chynhyrchiol iawn gyda lles staff wrth ei wraidd

7.4 Defnyddio pŵer pwrs y wlad i gefnogi economi'r ddinas

7.5 Sicrhau bod y Cyngor yn cynrychioli ac yn ymateb i amrywiaeth cymunedau Caerdydd

**Crynodeb o Sefyllfa Perfformiad y Cynllun Corfforaethol ar Ddiwedd y Flwyddyn**




Mae'r camau a'r DPAau sydd wedi'u marcio'n Goch yn Chwarter 4 yn cael eu trafod yn y naratif isod, a gellir dod o hyd i'r sylwadau a'r canlyniadau llawn yn erbyn pob cam a DPA yn y Dangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol.

## Asesiad Cyffredinol

Yn gyffredinol, mae'r Cyngor yn parhau i wneud cynnydd o ran moderneiddio ac integreiddio ei gymorth a'i wasanaethau corfforaethol a galluogi. Mae hyn yn cael ei gefnogi gan berfformiad, llywodraethu, rheoli ariannol a fframwaith ehangach a diwylliant perfformiad sy'n cefnogi trafodaethau agored a gonest, sy'n canolbwyntio ar wella. Mae'r Cyngor o'r farn ei fod yn rheoli ei gyllid yn effeithiol, ac un o nodweddion allweddol y Cyngor yw dealltwriaeth gorfforaethol gref o'r heriau ariannol a pherfformiad sy'n wynebu gwasanaethau allweddol y Cyngor, a gwaith da o ran ymgysylltu, cymorth a her fel rhan o'r dull o wella corfforaethol.

Roedd y penderfyniad i gymeradwyo swyddfa graidd newydd, gan foderneiddio'r amgylchedd gwaith ar gyfer staff y Cyngor, yn garreg filltir bwysig ar y daith i foderneiddio'r Cyngor. Yn gysylltiedig â hyn, mae'r newid sianeli parhaus i ddefnyddio sianeli digidol ar gyfer mynediad dinasyddion ynghyd â mwy o ddefnydd o brosesau digidol a data ar draws pob gwasanaeth yn dangos effaith strategaeth ddigidol y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn wynebu heriau cyllidebol sylweddol yn y tymor canolig oherwydd cyfuniad o gymhlethdod cynyddol a lefel y galw ar wasanaethau, pwysau cyflog a chostau ac, o ganlyniad, bydd angen iddo gau bwlch cyllidebol o £122m dros y pedair blynedd nesaf. Mewn ymateb i'r pwysau hyn, rhoddodd y Cabinet raglen gynhwysfawr o adolygiadau gwasanaethau a chyllidebau ar waith, gyda ffocws ar nodi cyfleoedd i yrru effeithlonrwydd dros y tymor byr a nodi sut mae angen i wasanaethau newid ac addasu i fod yn gynaliadwy dros y tymor canolig. Digwyddodd y broses hon yn ystod 2024/25. Yn ogystal â chefnogi'r gwaith i ddatblygu Cynllun Corfforaethol a chyllideb y Cyngor ar gyfer 2025/26, nododd y broses adolygu hefyd y meysydd lle mae angen newid sylweddol i wasanaethau er mwyn helpu i reoli'r pwysau tymor canolig sy'n wynebu'r Cyngor, sy'n sail i raglen newid newydd i gefnogi cyflawni'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Bydd cyflawni'r rhaglen newid, gan gynnwys sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'r galw a'r heriau ariannol a gweithlu sy'n wynebu'r awdurdod yn y tymor canolig ac yn ymateb iddynt yn effeithiol, yn flaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Mae'r Cyngor wedi parhau i gyflawni strategaeth gweithlu yn effeithiol, gyda chanlyniadau cadarnhaol i'r arolwg staff ac arfer da parhaus mewn rhwydweithiau gweithwyr, yn unol â'r rhaglen newid newydd. Wrth symud ymlaen, bydd y Cyngor yn adolygu ac yn adnewyddu'r strategaeth gweithlu i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'r rhaglen newid newydd, gan gynnwys ymateb i'r gofynion sgiliau, gwerthoedd, amrywiaeth a datblygiad tymor canolig y gweithlu.

## Meysydd Cynnydd

- Mae nifer y dinasyddion sy'n lawrlwytho Ap Cardiff Gov wedi parhau i gynyddu'n gyson, ers i'r Ap gael ei gyflwyno yn 2020/21. Yn 2024/25 cafwyd cynnydd o 22% ar alldro 2023/24, tua 10,700 yn uwch na'r targed a osodwyd a 30,000 o ddefnyddwyr gweithredol bob mis.
- Mae cysylltiadau cwsmeriaid wedi parhau i gynyddu trwy sianeli digidol. Gwnaed dros 1.1 miliwn yn fwy o gysylltiadau yn ddigidol yn 2024/25, sy'n gynnydd o 10% ers 2023/24.
- Mae gwefan y Cyngor bellach yn cydymffurfio â gofynion hygyrchedd cyfreithiol ac mae wedi'i graddio'n 10fed o 370 o gynghorau'r DU ar gyfer cydymffurfio, sy'n gynnydd o 56% ac yn 76fed yn y DU yn 2022.
- Mae Awtomeiddio Prosesau Robotig, technoleg sy'n symleiddio tasgau gweinyddol ailadroddus i alluogi staff y Cyngor i ganolbwyntio ar dasgau mwy cymhleth a gwerth uchel wedi cael ei dreialu'n llwyddiannus mewn adran budd-daliadau, cyfrifon taladwy a gwasanaethau plant.
- Cymeradwywyd achos busnes llawn ar gyfer strategaeth y Swyddfa Graidd mewn egwyddor ym mis Hydref 2024 gan y Cabinet gyda'r penderfyniad i symud ymlaen gyda Neuadd y Sir newydd yng Nglanfa'r Iwerydd.
- Mae'r Cyngor wedi cyflawni ei dargedau sy'n ymwneud â'r ystâd strategol yn gyson fel y nodir yn y strategaeth eiddo.
- Cymeradwywyd y Strategaeth Eiddo Gorfforaethol newydd 2025-30 gan y Cabinet sy'n nodi rhaglen gynhwysfawr o dir ac eiddo ar gyfer y pum mlynedd nesaf.
- Dangosodd arolwg staff y Cyngor ymatebion cadarnhaol iawn ar draws pob maes a gwasanaeth, gan gynnwys staff sy'n ymfalchïo yn y swydd a'r gwaith maen nhw'n ei wneud, gan ddeall sut mae eu rôl yn cyfrannu at weithredoedd y Cyngor ac mewn perthynas â'u lles.
- Mae'r Cyngor wedi cynnal ei le ymhlith y 100 o gyflogwyr gorau yn arolwg Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall, yr Awdurdod Lleol sydd â'r safle uchaf yn gyffredinol yng Nghymru.
- Cymeradwywyd Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2024-28 gan y Cabinet.
- Bu cynnydd yn lefelau cyfranogiad ac ymgysylltiad y grwpiau prinnaf eu clywed a nodwyd yn y Strategaeth Cyfranogiad yng ngweithgarwch ymgynghori'r Cyngor.
- Roedd dros 70% o'r ymatebwyr i'r arolwg Holi Caerdydd blynyddol yn fodlon ar Gaerdydd fel lle i fyw a gwelwyd cynnydd mewn lefelau boddhad ar gyfer nifer o feysydd gan gynnwys llyfrgelloedd/hybiau (72.1%), casglu deunydd ailgylchu a gwastraff (52.2%) a thrafnidiaeth gyhoeddus (42.6%).

## Meysydd Her a Risg

- Mae'r Cyngor yn wynebu heriau cyllidebol sylweddol yn y tymor byr a'r tymor canolig oherwydd cyfuniad o gymhlethdod cynyddol a lefel y galw ar wasanaethau, prisio ynni, pwysau cyflog ac effaith yr argyfwng costau byw.
- Mae absenoldeb oherwydd salwch yn parhau i fod yn her i'r Cyngor, gyda'r perfformiad alldro yn uwch na'r targed ar 12.16 diwrnod a gollwyd fesul swydd gyfwerth ag amser llawn, a salwch hirdymor yn parhau i fod yn broblem mewn nifer o feysydd.
- Mae Neuadd y Ddinas yn parhau i fod ar gau oherwydd gwaith cynnal a chadw hanfodol ac felly mae hynny'n achosi diffyg incwm i'r Cyngor.
- Cafwyd mân gynnydd yn nifer y bobl sy'n fodlon ar y gwasanaethau y mae'r cyngor yn eu darparu, sef 3.5 pwynt canran i 42.7%. Er ei fod yn is na'r targed o 70%, mae'r perfformiad hwn yn gyson ag ardaloedd awdurdodau lleol eraill ac yn tracio tuedd ehangach ar draws gwasanaethau cyhoeddus.

---

### Gwydnwch ariannol

Mae'r Cyngor yn parhau i brofi pwysau ariannol sylweddol gyda bwlch cyllidebol o £40.4 miliwn wedi'i nodi ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27, a £122 miliwn ar draws cyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (2026/27-2029/30).

Roedd adroddiad alldro 2024/25 yn adlewyrchu cyllideb gytbwys. Gorwariant o £4.360 miliwn oedd sefyllfa'r Gyfarwyddiaeth (gostyngiad o £6.974 miliwn ym mis 9). Cafwyd y gorwariant mwyaf sylweddol ym maes Addysg (£3.388m) oherwydd galw parhaus a phwysau prisiau o fewn Trafnidiaeth Cartref i'r Ysgol yn ogystal â thuedd barhaus y galw am leoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sy'n arwain at fwy o bwysau o fewn Ysgolion a Gynhelir y Tu Allan i'r Sir; Datblygu Economaidd (£1.912 miliwn) a achosir gan ddiffyg incwm yn bennaf ar gyfer swyddogaethau ac arlwyo yn Neuadd Dewi Sant a Neuadd y Ddinas oherwydd bod y ddau adeilad ar gau o hyd; a Gwasanaethau Plant (£0.866 miliwn) sy'n ymwneud â chostau lleoliadau preswyl a chymorth i garfan plant sy'n derbyn gofal yr awdurdod.

Nodwyd bod y Cyngor yn parhau i wynebu heriau digynsail o ran gwydnwch ariannol a fydd yn gofyn am fonitro a rheoli agos yn ystod eleni ac yn y tymor canolig. Mewn ymateb, er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn dal i allu darparu gwasanaethau hanfodol i bobl Caerdydd, cwblhawyd rhaglen gynhwysfawr o adolygiadau gwasanaethau a chyllideb yn hanner cyntaf 2024/25 gan reolwyr gwasanaeth ar draws y Cyngor gyda Chabinet y Cyngor yn goruchwylio'r broses. Mae hyn wedi'i throsi'n rhaglen waith sy'n canolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth canlynol:

1. **Sicrhau bod gweithleoedd, technoleg a diwylliant y Cyngor** yn ddeinamig ac yn gynhwysol, wedi'u dylunio i gefnogi staff i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel.
2. **Darparu gwasanaethau cyhoeddus ataliol cydlynol** mewn ymateb i bwysau galw cynyddol a mwyfwy cymhleth mewn gwasanaethau i blant a phobl ifanc, pobl hŷn ac oedolion mwy agored i niwed.
3. **Sicrhau bod strategaethau a gwasanaethau economaidd ac amgylcheddol yn cael eu halinio ac yn cefnogi twf** ar lefel y ddinas a'r ddinas-ranbarth a bod gwasanaethau rheng flaen yn gweithredu mewn ffordd integredig, effeithlon.

Bydd ymgorffori a chyflawni'r rhaglen newid newydd yn flaenoriaeth gorfforaethol ar gyfer 2025/26 ac mae'r Cyngor yn cydnabod y cyfle i gryfhau'r cysylltedd rhwng y Rhaglen Newid, y CATC a strategaeth y gweithlu i sicrhau bod unrhyw fwlch cynaliadwyedd yn cael ei nodi'n glir.

## 7.1 Darparu adeiladau symlach a gwyrddach i'r Cyngor

Mae ystâd tir ac eiddo'r Cyngor yn sylweddol, ac mae'n rheoli ac yn berchen ar dros 720 eiddo. Cost rheoli, gweithredu a chynnal ystâd weithredol y Cyngor yw tua £40 miliwn, yr ail alwad fwyaf ar gyllideb y Cyngor ar ôl costau staff.

Mae'r Cyngor wedi cyflawni targedau sy'n ymwneud â'r ystâd strategol yn gyson fel y nodir yn y strategaeth eiddo, ond mae derbyniadau cyfalaf y gronfa gyffredinol a gyflawnwyd yn 2024/25 yn is na'r targed, sef £1.3m yn erbyn targed o £1.5m. Achoswyd hyn gan nifer o drafodion derbyniadau cyfalaf a gyflwynwyd i 2025/26 oherwydd ffactorau allanol. Mae'r Strategaeth Eiddo Gorfforaethol newydd 2025-30 , a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Ionawr 2025, yn amlinellu rhaglen gynhwysfawr o dir ac eiddo ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Mae'r strategaeth newydd yn canolbwyntio ar waith parhaus i foderneiddio ystâd weithredol carbon isel lai, wrth osod y themâu a'r egwyddorion allweddol sydd ynghlwm wrth reoli portffolio prydles y Cyngor. Mae'r gofyniad am raglen cynnal a chadw wedi'i chynllunio ar gyfer eitemau Blaenoriaeth 1 yn yr ystâd weithredol yn fwy na £56m. Mae gwerth y rhaglen waith wedi'i rannu'n fras yn 90% ar gyfer yr ystâd addysg ac yn 10% ar gyfer yr ystâd gorfforaethol. Mae'r strategaeth yn pennu targedau eiddo newydd i fesur perfformiad dros gyfnod 2025-30, gyda chynnydd tuag at y targedau hyn yn cael ei adrodd i'r Cabinet trwy'r Cynllun Eiddo Blynyddol. Bydd y Cynllun Eiddo Blynyddol ar gyfer 2025/26 yn cael ei ystyried gan y Cabinet ym mis Medi 2025 ynghyd â'r adroddiad hwn.

Cymeradwywyd yr achos busnes llawn ar gyfer strategaeth y Swyddfa Graidd mewn egwyddor ym mis Hydref 2024 gan y Cabinet gyda'r penderfyniad i symud ymlaen gyda Neuadd y Sir newydd yng Nglanfa'r Iwerydd. Mae hyn yn lleihau lefel y buddsoddiad cyfalaf sydd ei angen dros y tymor hwy, gydag adeilad newydd yn costio tua hanner y costau sy'n gysylltiedig â moderneiddio'r Neuadd Sirol bresennol, a hefyd yn darparu arbedion sylweddol ar gostau rhedeg a darparu lle swyddfa sy'n fwy addas i arferion gwaith modern.

## 7.2 Gwella cynnig digidol y Cyngor a gwella'r defnydd o ddata

Dros y 12 mis diwethaf, mae'r Cyngor wedi canolbwyntio ar wella Ap Cardiff Gov, gan ddarparu gwell hygyrchedd, perfformiad a hysbysiadau. Mae nifer y dinasyddion sy'n lawrlwytho Ap Cardiff Gov wedi parhau i gynyddu'n gyson, gyda chynnydd o 22% ar alldro 2023/24, tua 10,700 yn uwch na'r targed a osodwyd a 30,000 o ddefnyddwyr gweithredol bob mis. Yn yr un modd, mae cysylltiadau cwsmeriaid trwy sianeli digidol wedi parhau i gynyddu gyda dros 1.1 miliwn yn fwy o gysylltiadau digidol wedi'u gwneud yn 2024/25 o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol, sy'n cynrychioli cynnydd o 10%. Bydd mwy o wasanaethau ar gael ar draws holl lwyfannau digidol y Cyngor – yr App, y wefan a sgyrsbot y Cyngor, Bobi – gan gynyddu dewis i breswylwyr a defnyddwyr gwasanaeth, wrth leihau'r costau dosbarthu.

[13] Strategaeth Eiddo Corfforaethol 2025-30

Mae'r Cyngor wedi gwella hygyrchedd ei wefan yn sylweddol. Ym mis Mai 2022, dim ond 56% o'r wefan oedd yn cydymffurfio â gofynion hygyrchedd cyfreithiol ac roedd wedi'i graddio'n 76ain o 370 o gynghorau'r DU. O ganlyniad i'r gwelliannau a wnaed, mae'r wefan bellach yn cydymffurfio â 99% ac wedi'i graddio'n 10fed o gynghorau'r DU.

Mae'r Cyngor wedi parhau i hyrwyddo gwasanaethau digidol i ddinasyddion ac wedi annog defnydd pellach. Mae arolygon byr hefyd wedi'u cynnal gyda'r cyhoedd i gael gwell dealltwriaeth o arferion ac anghenion cwsmeriaid, a'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i lywio strategaeth ddigidol wedi'i diweddaru, sydd i fod i gael ei hystyried gan y Cabinet yn ddiweddarach yn 2025.

Mae'r Cyngor yn parhau i ddefnyddio sianeli cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â dinasyddion. Fodd bynnag, er bod niferoedd sy'n ymgysylltu â chyfryngau cymdeithasol y Cyngor yn cynyddu, nid oedd nifer y dilynwyr ar Facebook ac Instagram wedi cyrraedd eu targedau. Nifer y dilynwyr ar Instagram oedd 19,637 yn erbyn targed o 19,720 a nifer y dilynwyr ar Facebook oedd 64,679 yn erbyn targed o 65,347. Gellir priodoli'r arafu yn nhwf dilynwyr i newidiadau mewn algorithmau gan Meta ond cydnabyddir y gallai fod rhywfaint o ddirlawnder, gyda lefel y dilynwyr ar rai llwyfannau yn dechrau peidio â chynyddu.

Er mwyn symleiddio tasgau gweinyddol ailadroddus a manteisio ar dechnolegau, mae'r Cyngor wedi bod yn defnyddio Awtomeiddio Prosesau Robotig (RPA) a "gweithwyr rhithwir", technoleg sy'n galluogi staff y Cyngor i ganolbwyntio ar dasgau mwy cymhleth, gwerth uchel. Mae prosesau yn yr adran budd-daliadau, cyfrifon taladwy a gwasanaethau plant wedi'u hawtomeiddio, gyda chyfleoedd pellach i ddefnyddio'r dechnoleg hon yn cael eu datblygu. Mae ymarfer cwmpasu wedi cael ei gynnal i nodi meysydd sy'n addas ar gyfer ymchwiliad pellach i awtomeiddio a bydd y rhain yn cael eu symud ymlaen yn y flwyddyn ariannol newydd.

Mae'r Cyngor yn archwilio'r defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) a'i botensial i wella gwasanaethau a chreu arbedion effeithlonrwydd. Cynhaliwyd treial Teams Premium yn ystod Chwarter 1, a ddarparodd swyddogaethau ychwanegol i staff megis crynodebau AI a gweithredoedd a thrawsgrifiadau wedi'u cynhyrchu'n awtomatig. Mae cynlluniau peilot hefyd ar waith i dreialu Microsoft CoPilot yn ogystal â Magic Notes, cymhwysiad gwe sydd wedi'i ddylunio i helpu gweithwyr cymdeithasol a staff rheng flaen eraill trwy gynhyrchu asesiadau manwl o recordiadau sain o'u sesiynau. Nod y mentrau hyn yw symleiddio gweithrediadau ymhellach a gwella darpariaeth gwasanaethau.

Mae'r Cyngor wedi parhau i gyflwyno ei Strategaeth Data, gan wella'i broses casglu data, ansawdd y data a sut mae'n cael ei gyflwyno a'i ddelweddu yn sail i newid o gasglu data i ddadansoddi data a gwneud penderfyniadau sy'n cael eu llywio gan ddata. Cefnogir hyn gan ddull tîm ar draws timau data, perfformiad, digidol a thechnoleg a gyda phartneriaid ym Mwrdd Iechyd y Brifysgol. Mae arferion nodedig yn cynnwys prosiect blaenllaw'r sector, 'Golwg Sengl ar Blentyn' (gweler WBO1,) fel y prif brosiect mewn rhaglen prosiectau dadansoddi data sy'n cefnogi cyflawni rhaglen newid newydd y Cyngor.

## 7.3 Cefnogi gweithlu medrus a chynhyrchiol iawn gyda lles staff wrth ei wraidd

Cymeradwywyd Strategaeth y Gweithlu 2023-27 gan y Cyngor ym mis Mawrth 2023. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar saith maes thematig ac mae cynnydd nodedig wedi'i wneud mewn nifer o feysydd, gan gynnwys:

- Nodi rolau lle mae denu a chadw staff yn heriol fel y gellir datblygu ymatebion priodol a'u symud ymlaen.
- Adolygu prosesau recriwtio a gweithdrefnau ymgeisio i wneud y broses ymgeisio am swyddi'r Cyngor yn haws.
- Ymgorffori cynllunio'r gweithlu o fewn fframwaith cynllunio a pherfformiad y Cyngor trwy Gynlluniau Cyflawni'r Gyfarwyddiaeth gyda mwy o bwyslais ar oblygiadau a chyfyngiadau cyllidebol.
- Cyhoeddi setiau data AD allweddol ar gyfer rheolwyr bob tri mis i wella cynllunio eu gweithlu.
- Adolygu'r strwythur uwch reolwyr i sicrhau ei fod yn addas at y diben ac ystyried cynllunio ar gyfer olyniaeth.
- Gweithredu rhaglen Arwain a Datblygu newydd, mewn partneriaeth â Choleg Caerdydd a'r Fro.
- Newid hyfforddiant i ddull cyfunol er mwyn galluogi gweithwyr i gael mynediad i hyfforddiant ar adegau priodol i weithwyr sy'n cydweddu ag anghenion y sefydliad, e.e. cyrsiau Cymraeg gyda'r hwyr ar gyfer ysgolion.

Mae absenoldeb oherwydd salwch yn parhau i fod yn her sylweddol i'r Cyngor gyda sefyllfa alldro o 12.16 diwrnod CALl a gollwyd fesul person oherwydd absenoldeb salwch yn erbyn targed o 9.5 diwrnod a gollwyd fesul swydd CALl. Mae hyn yn gynnydd ar sefyllfa 2023/24 o 11.73 diwrnod wedi'u colli, ond gwelliant bach ar y ffigur a ragwelir erbyn diwedd Chwarter 3, sef 12.43. Straen (nad yw'n gysylltiedig â gwaith) a phroblemau cyhyrysgerbydol sy'n cyfrif am oddeutu traean o'r holl achosion o absenoldeb salwch ac mae straen nad yw'n gysylltiedig â gwaith yn parhau i fod y rheswm pennaf dros absenoldeb salwch hirdymor. Mae salwch hirdymor yn cyfrif am 69% o'r holl achosion o salwch, sy'n newid un pwynt canran ers 2023/24. Darperir cymorth parhaus i gyfarwyddiaethau a rheolwyr mewn perthynas â rheoli absenoldeb salwch yn unol â'r Polisi Presenoldeb a Lles, gyda ffocws ar ardaloedd sydd â lefelau uchel o salwch. Er ei fod yn uwch na'r targed, mae perfformiad absenoldeb salwch y Cyngor yn debyg i neu'n well nag awdurdodau lleol eraill yn Ne Cymru.

Mae'r Cyngor wedi cadw ei le yn 100 uchaf Stonewall, gan gadw ei statws Gwobr Aur, ac mae wedi cael ei ganmol gan yr elusen hawliau lesbiaidd, hoyw, deurywiol, traws a chwiar am "greu gweithle croesawgar, lle gall gweithwyr LHDTC+ ddod â'u hunain llawn i'r gwaith".

Cynhaliwyd yr arolwg cyflogeion ym mis Medi 2024, gyda chyfradd ymateb o 46.5%. Ar y cyfan, roedd yr arolwg yn casglu ymatebion cadarnhaol, gyda'r canlyniadau'n awgrymu bod staff yn ymfalchïo yn y swydd a'r gwaith maen nhw'n ei wneud a'u bod yn deall sut mae eu rôl wedi cyfrannu at weithredoedd a lles y Cyngor. Mewn ymateb i lais y staff, bydd ymateb i'r materion a nodwyd yn cael ei gynnwys ym mhob Cynllun Cyflawni Cyfarwyddiaeth ar gyfer 2025/26. Mae strategaeth ymgysylltu â staff hefyd wedi'i chytuno, ac mae rhaglen ymgysylltu wedi'i rhoi ar waith. Bydd hyn yn cael ei symud ymlaen drwy strwythurau ymgysylltu sefydledig y Cyngor – y Fforwm Uwch Reolwyr a Fforwm Rheolwyr Caerdydd – gyda digwyddiadau ymgysylltu corfforaethol a chyfarwyddiaeth hefyd yn cael eu trefnu i ymgysylltu â grwpiau allweddol o staff.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod cyfle, fel rhan o'r rhaglen waith barhaus i gefnogi a datblygu'r gweithlu, i adolygu strategaeth y gweithlu i gefnogi moderneiddio a gwella amrywiaeth ar draws y sefydliad, yn enwedig o ran uwch reolwyr.

## 7.4 Defnyddio pŵer pwrs y wlad i gefnogi adferiad y ddinas

Mae'r Cyngor yn gwario dros £600 miliwn y flwyddyn yn caffael ystod o nwyddau, gwasanaethau a gwaith gan dros 8,000 o gyflenwyr a chontractwyr. Mae maint a graddfa gwariant y Cyngor yn rhoi cyfleoedd i drosoli budd cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach. Trwy gydol 2024/25 roedd tua 50% o wariant y Cyngor gyda sefydliadau yng Nghaerdydd, 65% ym Mhrifddinas-ranbarth Caerdydd a 71% gyda sefydliadau yng Nghymru. Roedd y ffigurau gwariant yn is na'r targedau a nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys yr isafswm gwariant lleol yn unig ac nid ydynt yn cyfrif am wariant llawn y gadwyn gyflenwi. Mewn ymateb, mae'r Cyngor wedi diweddaru'r Rheolau Gweithdrefn Contract i annog Cyfarwyddiaethau i ddefnyddio cyflenwyr lleol ar gyfer caffael islaw trothwy'r Ddeddf Caffael. Yn ogystal, mae canllaw Gwerthu i'r Cyngor gan Ardal yn cael ei ddatblygu, a fydd yn cael ei ryddhau yn haf 2025, i gefnogi busnesau i ymgyfarwyddo â'r broses. Mae'r Cyngor hefyd yn cydweithio â Busnes Cymru i gryfhau nifer y cyflenwyr lleol a sicrhau eu bod yn gallu cystadlu'n effeithiol am gontractau.

Mae'r Cyngor wedi parhau i wneud cynnydd da wrth ymgorffori gofynion buddion lles cymunedol mewn contractau a thendrau. Gwnaed gwaith trwy gydol yr haf i fudo'r porth gwerth cymdeithasol (buddion lles cymunedol) i'r system monitro buddion lles cymunedol ar-lein newydd, o'r enw Thrive. Lansiwyd hyn ym mis Hydref 2024 ac mae'n galluogi'r Cyngor i ddal a monitro cyflawni gwerth cymdeithasol yn well. Roedd gwerth y buddion lles cymunedol yr ymrwymwyd iddynt ar gyfer 2024/25 yn uwch na'i darged blynyddol o £6.4 miliwn ac ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed o £27.5 miliwn dros gyfnod y Strategaeth Caffael Gymdeithasol- Gyfrifol bum mlynedd.

## 7.5 Sicrhau bod y Cyngor yn cynrychioli ac yn ymateb i amrywiaeth cymunedau Caerdydd

Cafodd Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (CAC) newydd y Cyngor ar gyfer 2024-28[14] ei chymeradwyo gan y Cabinet ym mis Medi 2024, yn dilyn cyfnod ymgynghori ac ymgysylltu cynhwysfawr. Roedd camau sy'n ymwneud â CEDAW (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Dileu pob math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod) yn y strategaeth CAC ac mae fframwaith monitro perfformiad yn cael ei sefydlu, sy'n canolbwyntio ar alinio gofynion adrodd â pherfformiad corfforaethol ar gyfer pob cam gweithredu o fewn y strategaeth.

Mae adolygiad wedi'i gynnal o gynnig hyfforddiant cydraddoldeb y Cyngor ac mae hyfforddiant ychwanegol ynglŷn â rhagfarn ddiarwybod, microymosodiad a niwroamrywiaeth wedi'i ychwanegu at y gyfres o hyfforddiant. Am y tro cyntaf, mae modiwl hyfforddi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant gorfodol newydd wedi'i lansio ac mae'n ofynnol i bob Rheolwr Gweithredol ymgymryd â hyfforddiant am sut i gwblhau asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb (AEGau). Mae'r ffigurau cydymffurfio diweddaraf yn dangos bod 85% o'r holl Reolwyr Gweithredol wedi cwblhau'r hyfforddiant.

---

[14] Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2024 i 2028

Daeth y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol i ben ym mis Gorffennaf 2024, a chynhyrchwyd diweddariad llawn i gofnodi'r cynnydd a wnaed yn erbyn eu hargymhellion. Cafodd y Tasglu ei ailgynnull i adolygu'r cynnydd, ac mae adroddiad cyflawni wedi'i gyhoeddi. O ganlyniad, fe wnaeth y Tasglu ganmol y cynnydd hyd yma gan bartneriaid yn y sector cyhoeddus wrth hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yng Nghaerdydd, wrth argymell canolbwyntio ar bedwar maes allweddol ar gyfer gwelliant parhaus:

- Cynyddu Amrywiaeth yng Ngweithlu'r Cyngor: Cynyddu cynrychiolaeth staff ethnig amrywiol mewn arweinyddiaeth trwy fonitro data, cefnogi grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a gwella tryloywder ynghylch cyfweliadau ymadael.
- Cynyddu Amrywiaeth ymhlith Staff Ysgolion: Mynd i'r afael â'r ganran isel o staff ethnig amrywiol trwy fabwysiadu dulliau recriwtio dall, gosod amcanion cydraddoldeb a lleihau rhwystrau i ymgeiswyr ethnig amrywiol.
- Cryfhau Gwerth Cymdeithasol: Gwella mentrau gwerth cymdeithasol i wella cyflogaeth ar gyfer cymunedau ethnig amrywiol difreintiedig, gyda dulliau gwell o fonitro data.
- Y Gwasanaeth Prawf: Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am effaith y diwygiadau i arferion cyfreithwyr ar ddyletswydd unwaith y bydd partneriaeth cyfiawnder troseddol leol Caerdydd wedi datblygu dull wedi'i deilwra neu amgen ar gyfer grwpiau ethnig amrywiol.

Mae'r argymhellion hyn wedi'u hymgorffori yn y strategaeth CAC a bydd cynnydd yn cael ei fonitro fel rhan o drefniadau'r strategaeth CAC.

Yn Chwarter 1, lansiodd y Cyngor Gronfa Gydlyniant newydd yn llwyddiannus i gefnogi prosiectau sy'n meithrin cydlyniant lleol trwy ddod â chymunedau amrywiol at ei gilydd, hyrwyddo dealltwriaeth a meithrin cymdogaethau cryfach mwy cysylltiedig. Derbyniwyd ceisiadau gan 103 o sefydliadau llawr gwlad ledled y ddinas a dewiswyd 24 o brosiectau i'w hariannu, gan alluogi creu 348 o gyfleoedd gwirfoddoli a gan gyrraedd dros 27,300 o bobl.

Mae cyflwyno'r Strategaeth Cyfranogiad yn parhau i annog cyfranogiad grwpiau prin eu clywed mewn arolygon a phrosesau democrataidd. Nifer y preswylwyr ethnig amrywiol a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant oedd dros 25% o gyfanswm yr ymatebwyr ac roedd canran y grwpiau ethnig amrywiol a ymatebodd i ymgynghoriad cyllideb 2025/26 yn 17%, yn uwch na 7.6% yn 2019/20. Ar gyfer yr un cyfnod, cynyddodd nifer y bobl dros 75+ oed a ymatebodd o 3.7% i 7.5% a chynyddodd nifer y bobl anabl a ymatebodd o 9% i 11.1%. Er bod angen mwy o waith i gyflawni cyfradd ymateb sy'n adlewyrchu'r boblogaeth, mae'r strategaeth yn dangos bod cyfraddau cyfranogiad ymhlith grwpiau prin eu clywed.

Roedd dros 70% o'r ymatebwyr i'r arolwg Holi Caerdydd blynyddol yn fodlon ar Gaerdydd fel lle i fyw a gwelwyd cynnydd mewn lefelau boddhad ar gyfer nifer o feysydd gan gynnwys llyfrgelloedd/hybiau (72.1%), casglu deunydd ailgylchu a gwastraff (52.2%) a thrafnidiaeth gyhoeddus (42.6%). Roedd ymatebwyr yn byw yn yr Arc Ddeheuol wedi dangos y lefelau boddhad isaf, gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol (32.5%) ac amlder fandaliaeth a graffiti (31.7%) yn cael eu nodi'n faterion allweddol. Cafwyd mân gynnydd yn nifer y bobl sy'n fodlon ar y gwasanaethau y mae'r cyngor yn eu darparu, sef 3.5 pwynt canran i 42.7%, sy'n gynnydd o 39% yn erbyn targed o 70%. Fodd bynnag, mae hyn yn gyson â thuedd genedlaethol o foddhad cymharol isel ar wasanaethau cyhoeddus.

Yn ystod 2024/25 cofnodwyd 4,353 o gwynion. Mae hyn yn parhau â thuedd ar i fyny ac mae'n gynnydd o 16.9% ers 2023/24 pan gofnodwyd 3,724 o gwynion. Ymatebwyd i 69.6% o'r cwynion ar amser. Derbyniwyd y nifer uchaf o gwynion unwaith eto gan Strydlun, gyda 2,240 o gwynion, sef cynnydd o 27.3% ar 1,760 y flwyddyn flaenorol. Nodwyd cynnydd hefyd yn nifer y cwynion a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon, gyda 219 o gwynion yn 2024/25, sy'n gynnydd o 144 y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, o'r 219 hyn, dim ond 16.9% (37 achos) a nodwyd lle roedd angen camau pellach gan y Cyngor, naill ai setliadau datrys cynnar fel ymddiheuriadau ychwanegol neu daliadau gwneud iawn, neu ailystyried polisïau. Yn 2023/24, roedd angen camau pellach gan y Cyngor ar 28 o'r 144 achos (19.4%). Mae nifer isel yr achosion yr oedd angen gweithredu pellach arnynt yn dangos bod y Cyngor yn parhau i ymdrin â'r mwyafrif helaeth o faterion yn effeithiol ac yn briodol ar lefel leol. Disgwylir i Adroddiad Cwynion a Chanmoliaeth Blynyddol 2024/25 gael ei ystyried gan y Cabinet ym mis Hydref 2025 ar ôl derbyn Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon.



CARDIFF
CAERDYDD